Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

Food Standards Scotland
For safe food and healthy eating



# Ein Bwyd 2024

## Adolygiad blynyddol o safonau bwyd ledled y DU

HC 936
SG/2025/101

# Ein Bwyd 2024: Adolygiad blynyddol o safonau bwyd ledled y DU

Wedi'i osod gerbron Senedd Cymru yn unol ag Adran 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 19 Mehefin 2025.

Cyflwynwyd gerbron Senedd y Deyrnas Unedig yn unol ag Adran 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

Wedi'i osod gerbron Senedd yr Alban yn unol ag Adran 15(6) o Ddeddf Bwyd (Yr Alban) 2015.

Wedi'i osod gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon yn unol ag Adran 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

HC 936
SG/2025/101

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau fersiwn 3 o'r Drwydded Llywodraeth Agored ac eithrio lle nodir yn wahanol.

I weld y drwydded hon, ewch i
nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/

Yn yr achosion hynny lle'r ydym wedi nodi gwybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y rheiny sy'n dal yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: www.gov.uk/official-documents

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom gan ddefnyddio'r manylion canlynol:

## Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

Asiantaeth Safonau Bwyd fsa.communications@food.gov.uk
X @FSACymru
Facebook facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd

## Yr Alban

Safonau Bwyd yr Alban enquiries@fss.scot
X @FSScot
Facebook facebook.com/FoodStandardsScotland

ISBN 978-1-5286-5801-0
E03381398
Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi
a chan APS Group Scotland ar ran Safonau Bwyd yr Alban.

# Cynnwys

**Rhagair** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . **2**
Gosod yr adroddiad yn ei gyd-destun . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 3

**Crynodeb gweithredol** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . **6**

**Plât y genedl** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . **10**

**Safbwynt byd-eang** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . **27**

**Pwysigrwydd hylendid** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . **37**

**Diogelwch a dilysrwydd** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . **62**

**Casgliadau** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . **86**

**Atodiadau** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . **90**
Atodiad 1: Cyfeiriadau penodau a nodiadau esboniadol. . . . . . . . . . . . . . . . 91
Atodiad 2: Rhestr o dermau . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 98
Atodiad 3: Tabl ffigurau . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .105
Atodiad 4: Rhestr o acronymau. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .110
Atodiad 5: Data cenedl-benodol . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .113

**Diolchiadau** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .**128**

# Rhagair

## Croeso i Ein Bwyd 2024.

**Mae 25 mlynedd ers sefydlu'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a degawd ers creu Safonau Bwyd yr Alban (FSS). Mae cyrraedd y cerrig milltir hyn yn gyfle i fyfyrio ar y rheswm dros greu'r ddau sefydliad a'r rolau allweddol rydym yn parhau i'w chwarae heddiw.**

Bwyd diogel yw un o'r prif ffactorau sy'n pennu iechyd pobl. Ein gwaith ni yw diogelu iechyd y cyhoedd a chynnal buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, gan weithio i sicrhau bod y system fwyd yn darparu bwyd diogel ac iach.

Fodd bynnag, nid adroddiad am yr ASB nac FSS mo hwn. Yn hytrach, mae'n ymwneud â'r system fwyd ehangach yr ydym yn rhan ohoni — gan edrych ar ba mor dda y mae'n gweithio, ble mae'r pwysau, a meddwl am y risgiau a allai fod o'n blaenau. Mae'n rhan o'n hymrwymiad i fod yn dryloyw ynghylch cyflwr safonau bwyd yn y DU.

Dros y 25 mlynedd diwethaf, mae digwyddiadau fel yr argyfwng BSE a'r digwyddiad cig ceffyl wedi dangos pwysigrwydd rheoleiddio cryf ac annibynnol. Mae'r system fwyd, gan gynnwys y busnesau sy'n rhan ohoni, yn parhau i wynebu risgiau a phwysau. Ein rôl ni yw sicrhau ei bod yn parhau i gyflawni ar gyfer defnyddwyr, ac ar yr un pryd, yn helpu busnesau bwyd i ffynnu.

Mae'n galonogol iawn gweld llywodraethau ledled y DU yn cydnabod pwysigrwydd bwyd yn eu polisïau wrth fynd i'r afael â rhai o heriau cymdeithasol ein hoes, yn enwedig gordewdra, clefydau sy'n gysylltiedig â deiet a newid yn yr hinsawdd. Rydym yn falch o chwarae ein rhan yn y strategaethau a'r polisïau bwyd a gordewdra ar draws y pedair gwlad a fydd yn ceisio gwella iechyd drwy leihau'r niwed o fwyd afiach a/neu anniogel.

Gall yr adroddiad hwn helpu i lywio'r camau nesaf hyn. Drwy fod yn onest am gyflwr presennol y system, gallwn helpu i sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen i ddiogelu iechyd y cyhoedd a chynnal ymddiriedaeth pobl yn y bwyd maen nhw'n ei fwyta.



**Yr Athro Susan Jebb**
Cadeirydd,
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd



**Heather Kelman**
Cadeirydd,
Safonau Bwyd yr Alban

# Gosod yr adroddiad yn ei gyd-destun

## Mae adroddiad eleni yn nodi dau ben-blwydd arwyddocaol i'n sefydliadau.

**Yn 2025, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn dathlu 25 mlynedd, a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) 10 mlynedd o ddiogelu iechyd y cyhoedd a rhoi sicrwydd bod y bwyd rydyn ni'n ei fwyta yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn ddilys.**

Mae'r ddau sefydliad yn gweithio i gefnogi eu sectorau priodol a chynnal enw da bwyd o ansawdd uchel a gynhyrchir ledled y DU. Mae gan FSS ffocws penodol hefyd ar hyrwyddo deietau iachach i helpu i wella iechyd cyffredinol y boblogaeth.

Daw'r cerrig milltir ar adeg o esblygiad parhaus yn y system fwyd. Dros y blynyddoedd, mae'r ddau sefydliad wedi addasu i heriau mawr — gan gynnwys ymadawiad y DU â'r UE, pandemig COVID-19 ac arferion defnyddwyr sy'n newid — gan barhau i ymrwymo'n gryf i wyddoniaeth a rheoleiddio sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae pob sefydliad wedi chwarae rhan allweddol wrth gefnogi defnyddwyr a busnesau i lywio amgylcheddau bwyd cymhleth a newidiol.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r ddau sefydliad yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi ac archwilio technolegau newydd o fewn y sector bwyd, heb beryglu'r angen sylfaenol i fwyd fod yn ddiogel. Byddwn yn parhau i arloesi, cydweithio â rhanddeiliaid, ac esblygu fel cydweithwyr dibynadwy ac effeithiol.

Mae'r penblwyddi hyn yn gyfle i fyfyrio ar ein cynnydd ac ailddatgan ein hymrwymiad i gydweithio â'r llywodraeth, cyrff rheoleiddio a'r diwydiant, er mwyn ysgogi newid cadarnhaol.

Isod, rydym yn tynnu sylw at fentrau allweddol o'r 10 a'r 25 mlynedd diwethaf sy'n dangos ein hymdrechion i sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd a chynnal safonau bwyd uchel, gan adeiladu system fwyd ddiogel a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

## Ein taith: Dathlu pen-blwydd yr ASB yn 25

**2000**
Sefydlwyd yr **Asiantaeth Safonau Bwyd** fel corff annibynnol o'r llywodraeth.

**2004**
Lansiwyd y **rhaglen lleihau halen**.

**2006**
Cyflwynwyd y **system Labelu Maeth Goleuadau Traffig**, gan helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau bwyd iachach.

**2007**
Datblygwyd y **Model Proffilio Maethynnau**, gan ategu cyfyngiadau ar hysbysebu bwyd sothach i blant.

**2010**
Lansiwyd y **Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd**, gan helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus ac annog busnesau i gynnal safonau hylendid.

**2015**
Sefydlwyd yr **Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU)** i ymchwilio i dwyll bwyd difrifol a'i atal.

**2021**
Daeth **Cyfraith Natasha** i rym, sy'n ei gwneud yn ofynnol i labeli ar fwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw ddangos rhestr lawn o'r cynhwysion er mwyn diogelu pobl ag alergeddau.

**2021**
Sefydlwyd y **rhaglen PATH-SAFE**, gan gymhwyso dilyniannu DNA i wella'r broses o ganfod ac olrhain pathogenau a gludir gan fwyd.

**2025**
Datblygwyd prosesau rheoleiddio a mesurau diogelu newydd ar gyfer **organebau wedi'u bridio'n fanwl a chynhyrchion a wneir drwy feithrin celloedd**, gan gefnogi arloesedd ym maes rheoleiddio.

## FSS: Nodi 10 mlynedd fel corff bwyd y sector cyhoeddus yn yr Alban

**2015** – Sefydlwyd Safonau Bwyd yr Alban.

**2016** – Lansiwyd Llinell Gymorth Troseddau Bwyd yr Alban gyda Crimestoppers, gan ei gwneud hi'n haws i bobl roi gwybod am bryderon ynghylch troseddau bwyd yn ddienw.

**2016** – Datblygwyd y Canllaw Bwyta'n Dda, sy'n cynnwys cyngor ar argymhellion deietegol allweddol, ar y cyd â gweinyddiaeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

**2018** – Lansiwyd ymgyrch Troseddau'r Gegin i annog defnyddwyr i ddilyn mesurau diogelwch bwyd da yn y cartref.

**2019** – Gwnaethom gyflogi Milfeddygon Swyddogol yn uniongyrchol, gan gryfhau'r oruchwyliaeth wrth gynhyrchu cig.

**2020** – Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, gwnaethom chwarae rhan allweddol wrth lunio rheoliadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid newydd, gan sicrhau bod safonau'r Alban yn parhau'n gadarn.

**2021** – Rhoddwyd deddfwriaeth newydd ar waith sy'n ei gwneud yn ofynnol i roi labelu cynhwysion ac alergenau cliriach ar fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw er mwyn diogelu pobl ag alergeddau bwyd.

**2022** – Gwnaethom lansio offer hyfforddi ar gyfer busnesau pysgod mwg a chynnyrch ffres, gan eu helpu i fodloni gofynion diogelwch bwyd.

**2024** – Cyflwynwyd rheoliadau i'w gwneud yn orfodol i atgyfnerthu bara a blawd ag asid ffolig gan helpu i atal namau geni.

**2025** – Lansiwyd blwch tywod arloesol ar gyfer cynhyrchion a wneir drwy feithrin celloedd gan FSS a'r ASB, i sicrhau bod technolegau bwyd sy'n dod i'r amlwg yn ddiogel i ddefnyddwyr.

# Crynodeb gweithredol

Dyma'r pedwerydd adolygiad blynyddol a gynhyrchwyd ar y cyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS). Fel o'r blaen, rydym yn defnyddio ystod o ddata (ein data ein hunain, yn ogystal â data gan awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd porthladdoedd ac adrannau eraill o'r llywodraeth) i adolygu cyflwr safonau bwyd ledled y DU, gyda ffocws penodol ar ddiogelwch bwyd. Er na allwn ymdrin â phob agwedd ar safonau bwyd, rydym yn egluro ar ddechrau pob pennod pa feysydd penodol yr ydym yn canolbwyntio arnynt.

# Prif ganfyddiadau

## Plât y genedl

Er bod prisiau bwyd wedi codi'n arafach na chwyddiant cyffredinol yn 2024, parhaodd defnyddwyr i sôn am bryderon ynghylch fforddiadwyedd.

Nodwyd bod 21% o gartrefi yn yr Alban yn rhai â diffyg diogeledd bwyd ym mis Ionawr 2024. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gostyngodd cyfran y rhai y nodwyd eu bod â diffyg diogeledd bwyd o 25% i 21% rhwng Ebrill 2023 a Gorffennaf 2024. Wrth ddadansoddi'r ffigurau hyn, gwelwyd gostyngiadau ar lefel genedlaethol hefyd. Dangosodd data o'n harolwg mai prisiau bwyd oedd y pryder mwyaf i ddefnyddwyr pan ofynnwyd iddynt ddewis o blith rhestr o opsiynau.

Mae data arolwg ar gyfer yr Alban yn dangos nad yw plant 11-15 oed yn yr Alban yn cyrraedd nodau iechyd deietegol o hyd. Maen nhw'n bwyta gormod o fwydydd llawn egni sy'n uchel mewn halen, braster dirlawn a siwgrau rhydd, a rhy ychydig o ffrwythau, llysiau a physgod olewog. Roedd y problemau hyn yn fwy amlwg mewn cymunedau difreintiedig yn yr Alban. Roedd data arolygon iechyd ar gyfer Lloegr yn dangos nad yw mwyafrif y plant ac oedolion yn Lloegr yn bwyta'r pum dogn o ffrwythau a llysiau a argymhellir bob dydd. Mae cyfraddau bwyta llysiau a ffrwythau yn is yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Lloegr nag yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

## Safbwynt byd-eang

Tyfodd mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid i'r DU 9.5% yn 2024, gan gyrraedd y cyfaint uchaf mewn degawd. Bu cynnydd nodedig mewn mewnforion o'r Almaen, yr Unol Daleithiau, a'r Ariannin.

Ychwanegwyd pymtheg o nwyddau newydd at y rhestr o fwydydd risg uchel nad ydynt yn dod o anifeiliaid, gan olygu bod angen gwiriadau ychwanegol ar y ffin ym Mhrydain Fawr. Mae dau nwydd arall bellach yn destun mwy o reolaethau oherwydd risgiau diogelwch uwch. Tynnwyd un nwydd oddi ar y rhestr ac mae pedwar arall bellach yn destun llai o wiriadau yn seiliedig ar dystiolaeth bod risgiau wedi lleihau.

Ymhlith datblygiadau pellach mewn perthnasoedd masnachu, llofnododd y DU femorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd gyda Nigeria — y cytundeb pwrpasol cyntaf gyda gwlad Affricanaidd yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE — ac ymunodd yn swyddogol â Phartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP).



## Pwysigrwydd hylendid

Mae adnoddau safonau bwyd awdurdodau lleol dan bwysau, gyda dirywiad hirdymor yn nifer y swyddi hylendid bwyd a safonau bwyd wedi'u llenwi. Yn yr Alban, roedd 20% o gyfanswm y rolau diogelwch bwyd wedi'u dyrannu ar gael neu'n wag ar ddiwedd 2024, ac er bod lefelau staffio yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi gwella rhywfaint rhwng 2022/23 a 2023/24, mae ôl-groniadau yn dilyn y pandemig yn parhau.

Mae naw o bob deg busnes bwyd yn y DU sy'n dod o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a'r Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd yn parhau i gael sgoriau boddhaol neu well. Fodd bynnag, mae ôl-groniad o 95,000 o arolygiadau hwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys 871 o fusnesau risg uchel. Yn yr Alban, roedd 17.2% (12,533 allan o 72,950) o fusnesau cofrestredig heb eu sgorio ym mis Rhagfyr 2024.

Mae cydymffurfiaeth â safonau hylendid yn parhau i fod yn uchel mewn sefydliadau cig a llaeth yn y DU, gyda phob sefydliad cig yng Ngogledd Iwerddon a'r mwyafrif yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn ennill sgoriau da neu foddhaol yn 2024.

Lleihaodd y pwysau uniongyrchol ar adnoddau Milfeddygon Swyddogol (OV) yng Nghymru a Lloegr rywfaint yn ystod 2024 ond mae'r broses recriwtio ar gyfer y swyddogaeth iechyd cyhoeddus allweddol hon yn parhau i fod yn her.

## Diogelwch a dilysrwydd

Arhosodd nifer y digwyddiadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn 2024 yn sefydlog. Micro-organebau pathogenig oedd y perygl mwyaf cyffredin, ac effeithiwyd ar gig a chynhyrchion cig, a bwydydd deietegol, atchwanegiadau bwyd a bwydydd cyfnerthedig yn aml hefyd. Gostyngodd digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag alergenau ychydig rhwng 2023 a 2024.

At ei gilydd, gostyngodd cyfraddau samplu bwyd awdurdodau lleol yn y DU yn gyffredinol 4.5% rhwng 2022/23 a 2023/24, gyda gostyngiadau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon a chynnydd yng Nghymru a'r Alban. Mae lefelau samplu yn parhau i fod yn is o lawer nag yr oeddent ddegawd yn ôl.

Mae'r ASB ac FSS yn parhau i fod yn wyliadwrus o fygythiadau a achosir gan weithgarwch troseddol yn y gadwyn fwyd. Yn 2024, cofnododd ein hunedau troseddau bwyd 29 o ymchwiliadau byw a 108 o achosion o darfu. Mae cydweithio amlasiantaethol yn parhau i fod yn hanfodol i fynd i'r afael â throseddau bwyd.



# Plât y genedl

## Arferion defnyddwyr a'r hyn sy'n eu hysgogi

### Cipolwg

**Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried y canlynol:**

- effaith chwyddiant ar fforddiadwyedd bwyd
- effaith pwysau costau byw ar arferion, dewisiadau ac agweddau defnyddwyr tuag at fwyd


# Cyflwyniad

**Fel y mae ein hadroddiadau blaenorol yn ei ddangos, mae cynnydd diweddar mewn costau byw wedi gadael argraff barhaol ar gartrefi'r DU. Er bod chwyddiant wedi arafu'n ddiweddar, mae'n debygol ei fod wedi effeithio ar arferion prynu bwyd.**

## Prisiau bwyd a'r effaith ar y defnyddiwr

Yn Ein Bwyd 2023,[1] gwnaethom nodi bod chwyddiant bwyd — sy'n cael ei fesur gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH) — wedi cynyddu i'r lefel uchaf ers 45 mlynedd, gan gyrraedd 19.8% ym mis Mawrth 2023 cyn gostwng i 8% erbyn diwedd y flwyddyn.[2] Yn fwy diweddar, canfu data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) fod prisiau cyffredinol i ddefnyddwyr wedi codi 3.5% yn y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2024. Cynyddodd bwyd a diodydd di-alcohol ar gyfradd arafach o 2.0%.[3] Mae Ffigur 1 yn dangos sut effeithiodd chwyddiant prisiau ar nwyddau bwyd yn y Canllaw Bwyta'n Dda (canllaw'r llywodraeth sy'n dangos cyfrannau'r bwydydd sydd eu hangen i gael deiet iach a chytbwys) rhwng 2022 a 2024.

**Ffigur 1: Cymharu'r cynnydd canrannol cyfartalog mewn costau o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer categorïau'r Canllaw Bwyta'n Dda yn ystod 2022, 2023 a 2024**




* Mae ffa a chorbys wedi'u heithrio am nad oes data ar gael.

Ffynhonnell: SYG — Tablau chwyddiant prisiau defnyddwyr (2022-24)

## Pryderon ynghylch fforddiadwyedd


Canfu arolwg Bwyd a Chi 2 yr ASB, erbyn mis Gorffennaf 2024, fod 75% o'r ymatebwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi gwneud newidiadau i'w harferion bwyta am resymau ariannol yn ystod y 12 mis blaenorol. Y tri newid mwyaf cyffredin oedd bwyta allan yn llai aml (43%), bwyta gartref yn amlach (42%), a phrynu eitemau ar gynnig arbennig yn amlach (39%).

Canfu [Arolwg Tracio Defnyddwyr 'Food in Scotland'](), FSS[4] ar ddiwedd 2024, fod 36% o'r ymatebwyr yn yr Alban wedi nodi pryderon ynghylch gallu fforddio bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf, o gymharu â 44% ar yr un adeg yn 2023.

Nododd dros un o bob chwe defnyddiwr (17%) nad oeddent yn gallu fforddio nwyddau hanfodol, fel bara a llaeth. Mae'r ddau ffigur yn is na'r flwyddyn flaenorol.

Yn unol â chanfyddiadau eraill, mae'r arolwg hefyd yn awgrymu bod rhai grwpiau yn yr Alban — gan gynnwys menywod, pobl iau (rhwng 16 a 34 oed), y rheiny o gefndir economaidd-gymdeithasol is, pobl â phlant, a'r rhai mwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban[5] — yn fwy tebygol o nodi eu bod yn poeni am fforddiadwyedd bwyd.

**Ffigur 2: Pryderon a nodwyd ynghylch gallu fforddio bwyd yn yr Alban**




Ffynhonnell: FSS — Arolwg Tracio Defnyddwyr 'Food in Scotland', Cylchoedd 12–19, yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Rhagfyr 2024

## Defnyddio banciau bwyd

Yn ôl arolwg Bwyd a Chi 2 yr ASB, a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2024, dywedodd 4% o'r ymatebwyr yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr eu bod wedi defnyddio banc bwyd neu ddarparwr bwyd brys arall yn ystod y 12 mis diwethaf — yr un gyfran ag yn 2023. Yn ogystal, dywedodd 5% eu bod wedi defnyddio archfarchnad gymdeithasol[6] yn ystod y 12 mis diwethaf. Oherwydd gwahaniaethau rhwng arolygon yr ASB ac FSS, nid oes ffigurau ar gyfer yr Alban ar gael.

## Diogelwch bwyd a phwysau costau byw


Ffordd arall o edrych ar effaith pwysau costau byw yw drwy hunangofnodi gan ddefnyddwyr am y camau y maent yn eu cymryd i leihau cost prynu, storio a pharatoi bwyd. Mewn rhai achosion, gall hyn gynnwys arferion diogelwch bwyd a allai effeithio ar eu hiechyd. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth sy'n dangos sut mae'r newidiadau hyn yn y ffordd y caiff bwyd ei drin a'i storio wedi effeithio ar achosion o salwch a gludir gan fwyd yn y DU.

Rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Rhagfyr 2024, bu cynnydd yng nghanran yr ymatebwyr a nododd yr arferion canlynol sy'n gysylltiedig â bwyd i leihau biliau ynni ac arbed arian (Ffigur 3):

- gostwng tymheredd coginio bwyd
- lleihau'r amser coginio bwyd
- newid y gosodiadau fel bod bwyd mewn oergell a/neu rewgell yn cael ei gadw ar dymheredd uwch
- bwyta bwyd yn oer oherwydd na allent fforddio ei goginio




**Ffigur 3: Canran yr ymatebwyr a nododd arferion sy'n gysylltiedig â bwyd yn ystod y mis diwethaf i leihau biliau ynni ac arbed arian yn 2024 yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon**




Ffynhonnell: Arolwg Tracio Mewnwelediadau Defnyddwyr yr ASB, yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Rhagfyr 2024

Roedd cynnydd yng nghanran yr ymatebwyr a nododd pob arfer ym mis Rhagfyr 2024 (Ffigur 3) o gymharu â mis Rhagfyr 2023.[7] Ymhlith yr ymatebwyr iau (16-34 oed), roedd cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y gyfran a ddywedodd eu bod wedi gostwng tymheredd coginio bwyd ac wedi newid gosodiadau'r oergell/rhewgell (Ffigur 4) i arbed arian. Yn ogystal, dywedodd mwy na chwarter yr ymatebwyr iau eu bod wedi addasu amseroedd coginio a'r tymheredd i arbed arian. Ymhlith y rhai rhwng 35 a 54 oed, a 55 oed a hŷn, ychydig iawn o newid, neu ddim newid o gwbl, yn yr arferion hyn a adroddwyd dros yr un cyfnod. Ar hyn o bryd, nid oes tystiolaeth ar gael i esbonio'r rhesymau dros y newidiadau hyn ymhlith y grwpiau oedran iau.


**Ffigur 4: Cymharu ymatebwyr o wahanol grwpiau oedran a nododd arferion sy'n gysylltiedig â bwyd yn ystod y mis diwethaf rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Rhagfyr 2024 (Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr)**




Ffynhonnell: Arolwg Tracio Mewnwelediadau Defnyddwyr yr ASB, yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Rhagfyr 2024

Yn yr Alban, gostyngodd nifer yr ymatebwyr a nododd rai arferion sy'n gysylltiedig â bwyd i leihau biliau ynni ac arbed arian dros y mis diwethaf. Er hynny, ym mis Rhagfyr 2024, dywedodd un o bob saith (14%) eu bod wedi gostwng tymheredd coginio bwyd, a nododd un o bob wyth (13%) eu bod wedi lleihau amser coginio bwyd (Ffigur 5).

**Ffigur 5: Canran yr ymatebwyr a nododd arferion sy'n gysylltiedig â bwyd yn ystod y mis diwethaf i leihau biliau ynni ac arbed arian yn yr Alban rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Rhagfyr 2024**




Ffynhonnell: FSS — [Arolwg Tracio Defnyddwyr 'Food in Scotland', Cylchoedd 17–19, yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Rhagfyr 2024]

## Diffyg diogeledd bwyd yn y cartref a fforddiadwyedd

Mae'n bosib bod pwysau costau byw hefyd wedi effeithio ar lefelau diffyg diogeledd bwyd cartrefi yn y DU yn ystod 2024.

### Diffinio diffyg diogeledd bwyd

Mae arolwg Bwyd a Chi 2 yr ASB yn defnyddio modiwl Arolwg Diogelwch Bwyd Oedolion a gyflwynwyd gan Adran Amaethyddiaeth yr Unol Daleithiau (USDA) i ddiffinio ystodau o ddiogeledd bwyd cartrefi. Mae'r ystodau hyn yn rhychwantu continiwm sy'n ymestyn o ddiogeledd bwyd uchel i isel iawn ac fe'u nodir fel a ganlyn:

**Diogeledd bwyd yn y cartref**

- **Diogeledd bwyd uchel:** dim arwyddion o broblemau neu gyfyngiadau o ran cael mynediad at fwyd.
- **Diogeledd bwyd ymylol:** un neu ddau o arwyddion wedi'u nodi — fel arfer, pryder o ran a oes digon o fwyd neu brinder bwyd yn y tŷ. Ychydig neu ddim arwydd o newidiadau mewn deietau neu gymeriant bwyd.
- **Diogeledd bwyd isel:** adroddiadau bod ansawdd, amrywiaeth neu ddymunoldeb deiet wedi gostwng. Ychydig neu ddim arwydd o gymeriant bwyd is.
- **Diogeledd bwyd isel iawn:** adroddiadau o fwy nag un arwydd o darfu ar batrymau bwyta a llai o fwyd yn cael ei fwyta.

Yn yr adroddiad hwn, disgrifir y rhai sy'n nodi diogeledd bwyd isel neu ddiogeledd bwyd isel iawn fel rhai â diffyg diogeledd bwyd.


## Diffyg diogeledd bwyd ledled y DU

Canfu arolwg Bwyd a Chi 2, a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Gorffennaf 2024, ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, fod 21% o'r ymatebwyr â diffyg diogeledd bwyd (10% wedi nodi diogeledd bwyd isel, ac 11% wedi nodi diogeledd bwyd isel iawn).

Bu gostyngiad ystadegol arwyddocaol yng nghyfran y rhai sydd â diogeledd bwyd isel neu isel iawn (o 25% i 21%) rhwng mis Ebrill–Gorffennaf 2023 a mis Ebrill–Gorffennaf 2024. Wrth ddadansoddi hyn ymhellach yn ôl gwlad, roedd gostyngiad ystadegol arwyddocaol yng Nghymru (30% i 25%), Lloegr, (25% i 21%) a Gogledd Iwerddon (26% i 23%).

Am y tro cyntaf, cafodd yr Alban ei chynnwys yn arolwg Bwyd a Chi 2 hefyd, gyda 21%[8] o'r ymatebwyr wedi'u dosbarthu fel rhai â diffyg diogeledd bwyd rhwng mis Hydref 2023 a mis Ionawr 2024.

**Ffigur 6: Lefelau diffyg diogeledd bwyd a adroddwyd mewn cartrefi yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (Gorffennaf 2020 i 2024) a'r Alban (Hydref 2023 i Ionawr 2024)**





Ffynhonnell: [Bwyd a Chi 2 yr ASB, Cylchoedd 1–9, yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Gorffennaf 2024.](#)
[Arolwg Bwyd a Chi 2 yr FSS: Yr Alban (Cylch 8) a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2023 a mis Ionawr 2024](#)

## Pwy sydd fwyaf mewn perygl o ddiffyg diogeledd bwyd?


Nododd ymatebwyr o rai grwpiau fwy o arwyddion o ddiffyg diogeledd bwyd yn y cartref nag eraill (Ffigur 7). Canfuwyd mai statws cyflogaeth oedd y ffactor mwyaf, gyda'r ymatebwyr a oedd yn ddi-waith yn y tymor hir a/neu nad oeddent erioed wedi gweithio 3.7 gwaith yn fwy tebygol o fod â diogeledd bwyd isel neu isel iawn nag ymatebwyr mewn galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol (59% o gymharu â 16%).

Roedd ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed 3.3 gwaith yn fwy tebygol o gael eu dosbarthu fel rhai â lefelau isel neu isel iawn o ddiogeledd bwyd nag ymatebwyr rhwng 65 a 74 oed (30% o gymharu â 9%). Roedd cartrefi gyda phump neu fwy o bobl 2.1 gwaith yn fwy tebygol o fod â lefelau isel neu isel iawn o ddiogeledd bwyd na chartrefi â dau aelod (31% o gymharu â 15%). Ar draws yr holl grwpiau demograffig a ddangosir yn Ffigur 7, mae'r gwahaniaethau hyn wedi aros yn gyson â'r rhai a welwyd mewn arolygon a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf.


**Ffigur 7: Risg gymharol o fod â diffyg diogeledd bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon**




Mae **pobl ddi-waith yn y tymor hir 3.7 gwaith** yn fwy tebygol o fod â diffyg diogeledd bwyd na'r rheiny mewn galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol.




Mae **pobl ifanc 16-24 oed 3.3 gwaith** yn fwy tebygol o fod â diffyg diogeledd bwyd na phobl 65-74 oed.





Mae **pobl sydd â chyflwr iechyd tymor hir ddwywaith** yn fwy tebygol o fod â diffyg diogeledd bwyd na'r rhai heb gyflwr iechyd hirdymor.




Mae **cartrefi gyda phum person neu fwy 2.1 gwaith** yn fwy tebygol o fod â diffyg diogeledd bwyd na chartrefi dau berson.




Mae **pobl sydd ag anoddefiad 1.4 gwaith** yn fwy tebygol o fod â diffyg diogeledd bwyd na phobl sydd heb anoddefiadau neu gorsensitifrwydd arall i fwyd.




Mae **cartrefi â phlant o dan 16 oed 1.9 gwaith** yn fwy tebygol o fod â diffyg diogeledd bwyd na'r rhai heb blant dan 16 oed.




Mae **ymatebwyr Asiaidd/Asiaidd Prydeinig 1.3 gwaith** yn fwy tebygol o fod â diffyg diogeledd bwyd nag ymatebwyr gwyn.

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2 yr ASB, Cylch 9, yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Gorffennaf 2024

## Deall prif bryderon defnyddwyr am fwyd

Nid yw'n syndod felly fod arolwg Bwyd a Chi 2 yn dangos mai prisiau bwyd yw'r pryder mwyaf sy'n gysylltiedig â bwyd i ddefnyddwyr yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr pan fyddant yn dewis o blith rhestr o opsiynau. Roedd gwastraff bwyd, ansawdd bwyd, a faint o siwgr sydd mewn bwyd hefyd yn destun pryder. Nid yw'r rhain wedi newid rhyw lawer ers 2023 (Ffigur 8).

**Ffigur 8: Y pum prif bryderon ar sail rhestr o opsiynau* a nodwyd gan ddefnyddwyr yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr**

| Safle | Prif bryderon, Gorffennaf 2023 (canran yr ymatebwyr) | Prif bryderon, Ionawr 2024 (canran yr ymatebwyr) | Prif bryderon, Gorffennaf 2024 (canran yr ymatebwyr) |
|---|---|---|---|
| 1 | Prisiau bwyd (72%) | Prisiau bwyd (69%) | Prisiau bwyd (69%) |
| 2 | Gwastraff bwyd (58%) | Ansawdd bwyd (65%) | Gwastraff bwyd (58%) |
| 3 | Faint o ddeunydd pecynnu a ddefnyddir (56%)<br>Faint o siwgr sydd mewn bwyd (56%)<br>Ansawdd bwyd (56%) | Gwastraff bwyd (63%) | Faint o siwgr sydd mewn bwyd (57%)<br>Ansawdd bwyd (57%) |
| 4 | Lles anifeiliaid (49%)<br>Gallu bwyta'n iachus (49%)<br>Hylendid bwyd wrth archebu prydau tecawê (49%) | Faint o siwgr sydd mewn bwyd (58%) | Faint o ddeunydd pecynnu a ddefnyddir (55%) |
| 5 | Hylendid bwyd wrth fwyta allan (48%) | Faint o ddeunydd pecynnu a ddefnyddir (55%) | Lles anifeiliaid (52%)<br>Gallu bwyta'n iachus (52%) |

* Yn yr arolwg hwn, gofynnwyd i'r holl ymatebwyr ar-lein ddweud a oedd ganddyn nhw bryderon am nifer o faterion sy'n gysylltiedig â bwyd, gan ddewis o blith rhestr o ddewisiadau yn lle nodi testun rhydd.

Ffynhonnell: Arolwg Bwyd a Chi 2 yr ASB yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, Cylch 7 (yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023), Cylch 8 (Hydref 2023 ac Ionawr 2024) a Chylch 9 (Ebrill a Gorffennaf 2024)

## Pryderon ynghylch bwyd wedi'i brosesu'n helaeth

Yn yr Alban, dangosodd Arolwg Tracio Defnyddwyr Bwyd FSS 'Food in Scotland' mai bwyd wedi'i brosesu'n helaeth neu fwyd wedi'i or-brosesu oedd yr ail broblem fwyaf cyffredin (81%) a achosodd bryder i ddefnyddwyr, ar ôl prisiau bwyd (Ffigur 9).

Yn ogystal, canfu'r arolwg tracio fod 74% o'r ymatebwyr yn ceisio lleihau faint o fwydydd wedi'u prosesau'n helaeth y maent yn eu bwyta, a dywedodd 63% eu bod yn pryderu ynghylch faint o'r cynhyrchion hyn yr oeddent yn eu bwyta.

**Ffigur 9: Y prif bryderon ynghylch bwyd ar sail rhestr o opsiynau* a nodwyd gan ddefnyddwyr yn yr Alban**

| Safle | Prif bryderon yn yr Alban a chanran yr ymatebwyr, Rhagfyr 2024 |
|---|---|
| 1 | Prisiau bwyd (90%) |
| 2 | Bwyd wedi'i brosesu'n helaeth neu ei or-brosesu (81%) |
| 3 | Tlodi bwyd ac anghydraddoldeb bwyd (80%) |
| 4 | Pa mor iachus yw deietau pobl yn gyffredinol (75%) |
| 5 | Diogelwch y bwyd sy'n cael ei fewnforio o'r tu allan i'r DU (74%) |

* Yn yr arolwg hwn, gofynnwyd i'r holl ymatebwyr ar-lein ddweud a oedd ganddyn nhw bryderon am nifer o faterion sy'n gysylltiedig â bwyd, gan ddewis o blith rhestr o ddewisiadau yn lle nodi testun rhydd.


Ffynhonnell: FSS — Arolwg Tracio Defnyddwyr 'Food in Scotland', Cylch 19, yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2024



## Arferion coginio a bwyta yn y cartref

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr eu bod wedi newid y ffordd y maent yn prynu a pharatoi bwyd oherwydd cost uwch bwyd. Yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, nododd 58% o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio dulliau coginio rhatach, tra bo 42% yn osgoi cynhyrchion brand ac yn dewis opsiynau rhatach erbyn diwedd 2024 (Ffigur 10).


**Ffigur 10: Canran yr ymatebwyr a nododd eu bod wedi gwneud newidiadau i arbed arian yn ystod y mis diwethaf yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (2024)**




Ffynhonnell: [Arolwg Tracio Mewnwelediadau Defnyddwyr yr ASB, yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2024 a mis Rhagfyr 2024]

Yn yr Alban, bu gostyngiad yng nghanran yr ymatebwyr a nododd eu bod wedi defnyddio dulliau coginio rhatach, wedi dewis opsiynau rhatach yn lle cynhyrchion brand, ac wedi prynu bwyd am bris gostyngol yn ail hanner 2024 (Ffigur 11). Fodd bynnag, roedd y gyfran a nododd arferion eraill, fel prynu llai o fwyd ffres, lleihau maint prydau, neu hepgor prydau, wedi newid ychydig o gymharu ag arolygon blaenorol.

**Ffigur 11: Canran yr ymatebwyr a nododd eu bod wedi gwneud newidiadau i arbed arian yn yr Alban (2023-2024)**




Ffynhonnell: FSS — [Arolwg Tracio Defnyddwyr 'Food in Scotland', Cylchoedd 17–19, yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Rhagfyr 2024]

## Deiet ac iechyd

Mae'r cwestiwn olaf yn ymwneud â sut y gallai'r pwysau costau byw hyn effeithio ar ddeiet ac iechyd y genedl yn y tymor hir. Hyd yn oed cyn y cynnydd diweddar ym mhrisiau bwyd, nid oedd llawer o bobl yn y DU yn bodloni argymhellion iechyd deietegol cenedlaethol. Yn ôl ein harolygon, mae defnyddwyr yn dweud bod pwysau ariannol yn ei gwneud hi'n anoddach bwyta'n iach.

Yn yr Alban, er enghraifft, nododd tua chwarter (26%) o bobl anawsterau wrth allu fforddio deiet iach a chytbwys ar ddiwedd 2024. Canfu Arolwg Tracio Mewnwelediadau Defnyddwyr yr ASB, ym mis Rhagfyr 2024, fod 9% o'r ymatebwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi dweud na allent fforddio bwyta deiet iach a chytbwys yn ystod y mis diwethaf.

Canfu arolwg Bwyd a Chi 2 yr ASB, a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Gorffennaf 2024, fod 52% o'r ymatebwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn dweud eu bod yn poeni am allu bwyta'n iach. Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis hyd at dri pheth y maent yn eu hystyried bwysicaf wrth ddewis pa fwyd i'w brynu, yr ateb mwyaf cyffredin oedd pris/gwerth am arian (58%), ac yna ansawdd (39%) a pha mor ffres yw'r bwyd (30%). Yn ogystal, dywedodd 23% mai iechyd oedd un o'r agweddau pwysicaf.

Nid oes gennym ddata sy'n cysylltu anghydraddoldebau deiet â chanlyniadau iechyd i unigolion. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod deiet gwael yn cyfrannu at ystod o gyflyrau iechyd cronig, gan ehangu anghydraddoldebau iechyd ar draws ein cymdeithas.[9]

## Iechyd deietegol yn yr Alban

Mae'r adroddiad 'Dietary Intake in Scotland's Children' (DISH) yn dangos bod deietau gwael yn parhau i fod yn her sylweddol i lawer o blant, yn enwedig plant rhwng 11 a 15 oed. Canfuwyd bod deietau'n cynnwys gormod o egni ac yn uchel mewn halen, braster dirlawn, a siwgrau rhydd, ac nad ydynt yn cynnwys digon o ffeibr, ffrwythau, llysiau, a physgod olewog. Tynnodd yr adroddiad sylw at ddiffygion o ran microfaethynnau penodol[10] ymhlith plant rhwng 11 a 15 oed.

Tynnodd yr arolwg sylw hefyd at wahaniaethau economaidd-gymdeithasol clir, gyda'r plant sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn bwyta mwy o ffeibr, ffrwythau a llysiau na'r rheiny yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Ffynhonnell: Adroddiad ymchwil 'Dietary Intake in Scotland's Children (DISH)' (2024)

## Arolwg Iechyd Lloegr

Nododd Arolwg Iechyd Lloegr 2022, a gyhoeddwyd yn 2024, mai dim ond 19% o blant rhwng 5 a 15 oed a oedd yn bwyta'r pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau a argymhellir y dydd. Yn 2003, roedd y ffigur hwn yn 11%, gan gynyddu i 21% yn 2006. Ers 2007, mae'r nifer ymhlith plant wedi aros rhwng 16% a 23% heb unrhyw dueddiad clir.

Dangosodd hefyd fod oedolion yn bwyta 3.9 dogn o ffrwythau a llysiau y dydd ar gyfartaledd. Roedd 29% yn bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau y dydd, ac roedd 7% yn bwyta dim o gwbl. Roedd menywod yn bwyta mwy o ffrwythau a llysiau na dynion (cyfartaledd (cymedrig) o 4.0 a 3.7 dogn y dydd, yn y drefn honno). Roedd menywod hefyd yn fwy tebygol o fwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau y dydd na dynion (30% a 28%, yn y drefn honno). Roedd bwyta ffrwythau a llysiau yn amrywio yn ôl oedran, gydag oedolion 16 i 24 oed yn lleiaf tebygol o fwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau y dydd (25%), a'r rheiny rhwng 65 a 74 oed yn fwyaf tebygol o wneud hynny (34%). Roedd y cymeriant cyfartalog (cymedrig) y dydd yn 3.5 dogn ymhlith pobl 16–24 oed o gymharu â 4.2 dogn ymhlith pobl 65–74 oed.

Roedd oedolion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o fwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau. Roedd cyfran y rheiny a oedd yn bwyta pum dogn yn 23% yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â 34% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Roedd y dognau cyfartalog (cymedrig) o ffrwythau a llysiau a gafodd eu bwyta yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn 3.3 dogn y dydd, o gymharu â 4.4 dogn y dydd yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.[11]

# I grynhoi

- **Roedd pwysau costau byw yn dal i ddylanwadu ar arferion prynu a defnyddio defnyddwyr** er bod prisiau bwyd wedi codi'n arafach na'r gyfradd chwyddiant gyffredinol.
- **Roedd diffyg diogeledd bwyd mewn cartrefi yn parhau i fod yn broblem.** Roedd tua un o bob pump (21%) o gartrefi ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn rhai â diffyg diogeledd bwyd ym mis Gorffennaf 2024. Gwelwyd cyfradd debyg yn yr Alban, lle cafodd un o bob pump (21%) o gartrefi eu dosbarthu fel rhai â diffyg diogeledd bwyd rhwng Hydref 2023 ac Ionawr 2024. Arhosodd cyfran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn defnyddio banciau bwyd yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr yr un fath ag yn 2023 (4%).
- **Prisiau bwyd oedd prif bryder defnyddwyr ar draws y pedair gwlad unwaith eto.** Nododd defnyddwyr hefyd bryderon ynghylch gwastraff bwyd, ansawdd bwyd, a faint o siwgr sydd mewn bwyd — tra bod ymchwil FSS wedi datgelu pryderon ynghylch bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth, gyda 73% yn nodi eu bod yn ceisio lleihau faint o'r cynhyrchion hyn yr oeddent yn eu bwyta.
- **Mae data o'r arolygon diweddaraf yn awgrymu nad yw pobl yn dal i gyrraedd rhai nodau iechyd deietegol.** Mae'r arolwg diweddaraf ar gyfer yr Alban yn dangos bod plant 11-15 oed yn bwyta bwydydd sy'n cynnwys gormod o egni ac sy'n uchel mewn halen, braster dirlawn a siwgrau rhydd, ac yn rhy isel mewn ffeibr, ffrwythau, llysiau a physgod olewog. Roedd deietau ar eu gwaethaf ymhlith plant o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn yr Alban, gan dynnu sylw at yr effaith bosib ar anghydraddoldebau iechyd. Yn Lloegr, awgrymodd data arolwg nad yw mwyafrif y plant ac oedolion yn dal i fwyta'r pum dogn o ffrwythau a llysiau a argymhellir bob dydd. Mae'r rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Lloegr fel arfer yn bwyta llai na'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

# Safbwynt byd-eang

## Mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid

### Cipolwg

**Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried y canlynol:**

- o ble daeth ein bwyd a'n bwyd anifeiliaid yn 2024 a sut mae cyfeintiau mewnforio wedi newid dros amser
- y newidiadau diweddaraf i reolaethau ar fwyd a bwyd anifeiliaid a fewnforir i Brydain Fawr
- effaith bosib cytundebau masnach rydd newydd ar ddiogelwch bwyd yn y DU


# Cyflwyniad

**Mae'r DU yn [mewnforio tua dwy ran o bump o'i bwyd](), ond mae cadwyni cyflenwi byd-eang dan bwysau cynyddol. Gall aflonyddwch oherwydd gwrthdaro geo-wleidyddol, newidiadau yn ein perthnasoedd masnachu, a thywydd eithafol beryglu parhad y cyflenwad o dramor, a allai, yn ei dro, gyflwyno heriau newydd wrth gynnal safonau diogelwch bwyd.**

## Tirwedd mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid

Yn 2024, bu cynnydd o 9.5% yng nghyfeintiau mewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid i'r DU o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn golygu bod bron i 4 miliwn o dunelli yn fwy o fwyd a bwyd anifeiliaid wedi dod i mewn i'r DU y flwyddyn honno — gan arwain at y cyfaint uchaf o fewnforion yn y degawd diwethaf — gan bwysleisio'r rôl sylweddol y mae mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid yn ei chwarae yn ein cyflenwad bwyd (Ffigurau 12 a 13).


**Ffigur 12: Cyfanswm y bwyd a'r bwyd anifeiliaid a fewnforiwyd i'r DU dros amser (2014-2024)**




Sylwer: Oherwydd newidiadau i'r ffordd y caiff data ei echdynnu, mae'r cyfeintiau mewnforio a gyflwynir yn Ffigur 12 ychydig yn wahanol o gymharu ag adroddiadau Ein Bwyd yn y blynyddoedd blaenorol.

Ffynhonnell: [Data Masnach CThEF y DU]()

**Ffigur 13: Newid canrannol blynyddol yng nghyfanswm cyfeintiau mewnforio'r DU ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid (2015-2024)**




Sylwer: Oherwydd newidiadau i'r ffordd y caiff data ei echdynnu, mae'r newidiadau canrannol a gyflwynir yn Ffigur 13 ychydig yn wahanol o gymharu ag adroddiadau Ein Bwyd yn y blynyddoedd blaenorol.

Ffynhonnell: Data Masnach CThEF y DU

## O ble y daw ein bwyd?

Yn 2024, arhosodd y rhestr o'r 10 prif wlad y mae'r DU yn mewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid ohonynt yr un peth a'r flwyddyn flaenorol, ond gallwn weld bod eu safleoedd ar y rhestr honno wedi amrywio (Ffigur 14). Mae hyn yn adlewyrchu newidiadau yn nifer y cynhyrchion a fewnforir o rai gwledydd fel a ganlyn:

- **Symudodd yr Almaen i fyny dri safle i'r pedwerydd safle yn ein rhestr.** Roedd hyn yn bennaf oherwydd cynnydd sylweddol yng nghyfanswm y grawnfwydydd a grawn a fewnforiwyd o'r Almaen yn 2024 (i gyfanswm o 1,261,379 o dunelli), gan fwy na dyblu'r meintiau a fewnforiwyd yn 2023 (cyfanswm o 568,079 o dunelli).
- **Cynyddodd mewnforion o'r Unol Daleithiau a'r Ariannin fwy na chwarter.** Symudodd yr Unol Daleithiau o'r nawfed safle i'r seithfed yn 2024. Er gwaethaf gostyngiad o 17% mewn bwyd anifeiliaid a fewnforiwyd (i gyfanswm o 655,056 o dunelli), gwelodd y DU gynnydd o 50% mewn diodydd (i gyfanswm o 816,072 o dunelli) a chynnydd yng nghyfeintiau'r grawnfwydydd a grawn (i gyfanswm o 213,186 o dunelli), llysiau (i gyfanswm o 182,280 o dunelli) a siwgr a suropau (i gyfanswm o 116,435 o dunelli) a fewnforiwyd o'r Unol Daleithiau, a wnaeth fwy na dyblu o gymharu â 2023. Roedd y twf mewn mewnforion o'r Ariannin yn bennaf oherwydd cynnydd o 32% yng nghyfeintiau'r bwyd anifeiliaid a fewnforiwyd (i gyfanswm o 1,882,436 o dunelli) o gymharu â 2023.

**Ffigur 14: Y 10 gwlad â'r cyfeintiau mewnforio uchaf ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid yn 2024**

| Gwlad | Cyfaint y mewnforion yn 2024 (miliwn o dunelli) | Newid yn y cyfaint o flwyddyn i flwyddyn | Safle 2024* | Gwahaniaeth yn y safle ers 2023 |
|---|---|---|---|---|
| Yr Iseldiroedd** | 5.2 | -1% | 1 (1) | Dim newid |
| Iwerddon | 3.7 | 9% | 2 (2) | Dim newid |
| Ffrainc | 3.5 | 12% | 3 (3) | Dim newid |
| Yr Almaen | 3.2 | 41% | 4 (7) | +3 |
| Gwlad Belg | 2.8 | -1% | 5 (4) | -1 |
| Gwlad Pwyl | 2.5 | 9% | 6 (5) | -1 |
| Unol Daleithiau | 2.3 | 26% | 7 (9) | +2 |
| Sbaen | 2.2 | -1% | 8 (6) | -2 |
| Yr Ariannin | 2.2 | 27% | 9 (10) | +1 |
| Yr Eidal | 1.9 | 0% | 10 (8) | -2 |

* Mae safle 2023 wedi'i nodi mewn cromfachau.
** Mae mewnforion o'r Iseldiroedd yn adlewyrchu effaith Rotterdam fel canolfan fyd-eang ar gyfer cludo nwyddau.
Ffynhonnell: Data Masnach CThEF y DU

## Cyfeintiau mewnforio i'r UE a thu hwnt i'r UE yn ôl y math o nwydd

Gellir dadansoddi data cyfeintiau mewnforio yn ôl tri phrif fath o nwydd (Ffigur 15):

- **Cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO),** sy'n cynnwys cig, wyau, pysgod a chynnyrch llaeth
- **Bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid (FNAO),** sy'n cynnwys diodydd, grawnfwydydd, ffrwythau a llysiau
- **Bwyd anifeiliaid,** sy'n cynnwys cêc olew a bwyd anifeiliaid anwes

Mae'r data diweddaraf yn dangos bod cyfeintiau mewnforion FNAO wedi codi 11.0% o gymharu â 2023, ac yn cyfrif am y gyfran fwyaf (71%) o'n mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid yn ôl pwysau yn 2024. Cynyddodd cyfeintiau mewnforion POAO a bwyd anifeiliaid hefyd 3.3% ac 8.8% yn y drefn honno o gymharu â 2023. Mae nwyddau sy'n dod o wledydd yr UE yn parhau i gyfrif am ychydig dros 60% o gyfanswm mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid y DU, sef y rhan fwyaf o'r POAO (79%) a bron i ddwy ran o dair o'r FNAO (64%) a brynwn o wledydd eraill. Yn y cyfamser, mae gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE yn darparu dros hanner (56%) y mewnforion bwyd anifeiliaid.

**Ffigur 15: Cyfanswm cyfaint y mewnforion wedi'i rannu yn ôl y prif gategorïau, sef POAO, FNAO a bwyd anifeiliaid**

| Categori mewnforio | Cyfanswm yn 2024 (miliwn o dunelli) | Newid yn y cyfaint 2023 v 2024 | Cyfran yr UE 2024 (2023*) |
|---|---|---|---|
| POAO | 6.8 | 3.3% | 79% (79%) |
| FNAO | 31.8 | 11.0% | 64% (64%) |
| Bwyd anifeiliaid | 6.3 | 8.8% | 44% (47%) |
| Cyfanswm | 44.9 | 9.5% | 63% (64%) |

* Oherwydd newidiadau i'r ffordd y caiff data ei echdynnu, mae cyfrannau 2023 ychydig yn wahanol o gymharu ag adroddiad Ein Bwyd 2023.

Ffynhonnell: Data Masnach CThEF y DU

## Monitro bwyd a fewnforir ar y ffin

Wrth i'n tirwedd fasnachu esblygu, mae sicrhau bod bwyd a fewnforir yn bodloni ein safonau diogelwch a dilysrwydd yn parhau i fod yn hanfodol. Mae rheolaethau effeithiol ar y ffin yn caniatáu i fygythiadau posib gael eu canfod yn gyflym fel y gellir cymryd camau gweithredu'n gynnar. Mae hwn yn gam pwysig ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd. Mae gwiriadau'n amrywio, gan ddibynnu ar y math o gynnyrch a lefel y risg bosib i iechyd y cyhoedd, anifeiliaid, a phlanhigion.

## Trefniadau newydd ar gyfer rheolaethau diogelwch bwyd

Yn ystod 2024, dechreuodd Llywodraeth y DU gyflwyno ei Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau (BTOM) newydd yn raddol, sy'n defnyddio dull newydd sy'n seiliedig ar risg ar gyfer gwiriadau ar nwyddau a fewnforir. O dan y model newydd, mae bwyd a bwyd anifeiliaid yr UE sy'n dod i Brydain Fawr bellach yn destun rheolaethau ar y ffin. Roedd categorïau risg ar gyfer rhai mewnforion o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE hefyd yn destun newidiadau. Mae'r model llawn yn dal i gael ei roi ar waith. Mae'r ASB ac FSS yn dadansoddi'r risgiau a berir gan fwyd a bwyd anifeiliaid yn rheolaidd, ac yn argymell categorïau rheoli risg ar y ffin. Sicrhaodd ein mewnbwn i'r model risg fod diogelu defnyddwyr yn ystyriaeth allweddol.

Oherwydd y gweithrediad graddol, y gwahaniaethau yn y rheolaethau a gymhwysir, ac argaeledd a math y data a gesglir, nid yw'n bosib cynnwys data ar wiriadau ar y ffin yn 2024 yn yr adroddiad hwn.

## Newidiadau i ddynodiad bwyd risg uchel nad yw'n dod o anifeiliaid (HRFNAO)

Mae'r ASB ac FSS yn gyd-gyfrifol am nodi unrhyw FNAO a fewnforir a allai beri risg uchel i iechyd y cyhoedd ac a ddylai, felly, fod yn destun gwiriadau ychwanegol ar y ffin wrth ddod i Brydain Fawr.

Cwblhawyd ein hadolygiad diweddaraf o'r rhestr o HRFNAO a fewnforiwyd yn 2024 yn dilyn dadansoddiad risg manwl a oedd yn ystyried y nwydd, y wlad tarddiad a'r perygl sy'n peri pryder. Daeth y newidiadau a argymhellwyd i lefelau'r rheolaethau, fel lleihau neu gynyddu amlder gwiriadau dogfennol, adnabod, a ffisegol gan gynnwys samplu, i rym ym mis Rhagfyr 2024.

Argymhellodd yr ASB ac FSS y dylai gweinidogion ychwanegu **15 o nwyddau newydd** at y rhestr HRFNAO a chynyddu rheolaethau ar gyfer dau arall oherwydd y risg y gallent ei pheri. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau sy'n gysylltiedig â chynnydd posib ym mhresenoldeb gweddillion plaladdwyr mewn rhai sbeisys a pherlysiau o India ac Israel, afflatocsinau mewn cynhyrchion cnau cyll a chnau daear o Georgia, yr Ariannin a Madagascar, a'r risg o *Salmonela* mewn hadau sesame o Dwrci ac India, ymhlith eraill.

Gwnaethom hefyd argymell y dylid tynnu un nwydd oddi ar y rhestr gan fod data ar y ffin a hysbysiadau eraill yn dangos bod lefel y risg wedi gostwng. Yn ogystal, dylai pedwar nwydd fod yn destun llai o wiriadau oherwydd gwelliannau mewn cydymffurfiaeth yn sgil cymhwyso'r lefel uchaf o reolaethau uwch. Dangosir rhestr lawn o'r newidiadau yn Ffigur 16.


## Ffigur 16: Newidiadau i ddynodiad bwydydd risg uchel

**Nwyddau HRFNAO a fewnforiwyd sydd wedi'u hasesu o ran risg fel rhai nad ydynt bellach yn peri risg i iechyd y cyhoedd ac nad ydynt bellach yn destun rheolaethau ar y ffin.**

| Nwydd | Gwlad | Perygl |
|---|---|---|
| Cnau daear | Brasil | Gweddillion plaladdwyr |

**Nwyddau HRFNAO a fewnforiwyd sy'n parhau i fod yn destun rheolaethau ond sydd wedi'u hasesu o ran risg fel rhai sy'n peri risg sy'n lleihau i iechyd y cyhoedd.**

| Nwydd | Gwlad | Perygl |
|---|---|---|
| Gwm Guar | India | Pentachlorophenol a diocsinau |
| Nytmeg *(Myristica fragrans)* | India | Afflatocsinau |
| Puprynnau o'r genws *Capsicum* (melys neu ddim yn felys) | India | Afflatocsinau |
| Hadau sesame *(Sesamum)* | India | Gweddillion plaladdwyr |



**FNAO sydd wedi'u nodi trwy ein systemau gwybodaeth a gwyliadwriaeth fel rhai sy'n peri risg i iechyd y cyhoedd ac sydd wedi'u dwyn o dan reolaethau ar y ffin.**

| Nwydd | Gwlad | Perygl |
|---|---|---|
| Hadau cwmin, heb eu gwasgu na'u malu | India | Gweddillion plaladdwyr |
| Hadau cwmin wedi'u gwasgu neu wedi'u malu | India | Gweddillion plaladdwyr |
| Dail ffenigrig | India | Gweddillion plaladdwyr |
| Ffa Yardlong *(Vigna unguiculata subsp. sesquipedalis)* | India | Gweddillion plaladdwyr |
| Basil ('holy', melys) | Israel | Gweddillion plaladdwyr |
| Mintys | Israel | Gweddillion plaladdwyr |
| Past cnau daear | Madagascar | Afflatocsinau |
| Mukunuwenna *(Alternanthera sessilis)*[12] | Sri Lanka | Gweddillion plaladdwyr |
| Grawnffrwyth | Twrci | Gweddillion plaladdwyr |
| Hadau sesame *(Sesamum)* | Twrci | *Salmonela* |
| Tahini a halva o hadau sesame | Twrci | *Salmonela* |
| Cymysgeddau o gnau neu ffrwythau sych sy'n cynnwys cnau cyll | Georgia | Afflatocsinau |
| Pâst cnau cyll | Georgia | Afflatocsinau |
| Olew cnau cyll | Georgia | Afflatocsinau |
| Past cnau daear | Yr Ariannin | Afflatocsinau |

**HRFNAO wedi'u mewnforio sydd wedi dod yn destun rheolaethau cynyddol (er enghraifft, profion amlach neu brofion labordy lle na chynhaliwyd profion o'r blaen) ar y ffin oherwydd cynnydd mewn diffyg cydymffurfio neu risg i iechyd y cyhoedd.**

| Nwydd | Gwlad | Perygl |
|---|---|---|
| Te, â blas neu heb flas | Tsieina | Gweddillion plaladdwyr |
| Hadau sesame *(Sesamum)* | India | *Salmonela* |

Ffynhonnell: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1973) (Lloegr) (Rhif 2) 2024

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) Diwygio (Yr Alban) (Rhif 2) 2024

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Rhif 2) (Cymru) 2024

## Cytundebau masnach newydd a diogelwch bwyd

Cwblhawyd dau gytundeb masnach yn 2024 ac nid yw'r naill na'r llall wedi gofyn am newidiadau na gostyngiadau yn safonau rheoleiddio a deddfwriaethol bwyd a bwyd anifeiliaid y DU.

Ym mis Chwefror 2024, o dan yr hen weinyddiaeth Geidwadol, llofnododd y DU Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Uwch (ETIP) gyda Nigeria. Dyma oedd cytundeb pwrpasol cyntaf y DU gyda gwlad Affricanaidd ar ôl ymadael â'r UE. Nod y memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn yw cryfhau cysylltiadau masnach a buddsoddi dwyochrog rhwng Nigeria a'r DU drwy flaenoriaethu sectorau a meysydd polisi penodol, gan gynnwys amaethyddiaeth, diogelwch bwyd a diogeledd bwyd, a chydweithrediad economaidd. Nid yw'r cytundeb yn newid nac yn lleihau unrhyw fesurau rheoli presennol ar gyfer mewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid.

Yn ogystal, daeth aelodaeth y DU o Bartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP) i rym ym mis Rhagfyr 2024. Bloc masnach rhwng Asia a'r Môr Tawel yw CPTPP sy'n cynnwys Awstralia, Brunei Darussalam, Canada, Chile, Japan, Malaysia, Mecsico, Seland Newydd, Periw, Singapore a Fietnam. Y DU yw'r aelod newydd cyntaf ers sefydlu'r bloc yn 2018 a'r wlad Ewropeaidd gyntaf i ymuno.

# I grynhoi

- **Gwnaeth cyfeintiau mewnforio dyfu yn ystod 2024,** gyda bron i 4 miliwn o dunelli yn fwy o fwyd a bwyd anifeiliaid (+9.5%) yn cael eu mewnforio i'r DU o gymharu â 2023. Mae hyn yn cyfateb i'r cyfaint uchaf o fwyd a bwyd anifeiliaid a fewnforiwyd i'r DU dros y degawd diwethaf, ac mae'n cynnwys cynnydd nodedig yn y cyfeintiau a fewnforiwyd o'r Almaen (+41%), yr Unol Daleithiau (+26%), a'r Ariannin (+27%).
- **Mae trefniadau newydd ar gyfer rheolaethau diogelwch ar y ffin yn cael eu sefydlu.** Oherwydd newidiadau mewn rheolaethau ar y ffin o dan y BTOM newydd, a'i weithrediad parhaus, nid yw'n bosib darparu data cymharol ar newidiadau i lefelau cydymffurfio â safonau diogelwch mewnforion bwyd eleni. Unwaith y bydd y model newydd yn gwbl weithredol a bod data cyson ar gael o'r system ddiwygiedig, byddwn yn cynnwys dadansoddiad o'r lefelau cydymffurfio â diogelwch bwyd ar y ffin.
- **Mae sawl ychwanegiad wedi'u gwneud at ein rhestr o fwydydd risg uchel dynodedig.** Gan fod rhai cynhyrchion a fewnforir wedi'u hasesu i fod â risgiau diogelwch bwyd uwch, ychwanegwyd 15 o nwyddau newydd at ein rhestr o HRFNAOs. Bydd y nwyddau hyn nawr yn destun gwiriadau ychwanegol ar y ffin ym Mhrydain Fawr.
- **Bu datblygiadau pellach yn ein perthnasoedd masnachu.** Llofnododd y DU femorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd gyda Nigeria — y cytundeb pwrpasol cyntaf gyda gwlad Affricanaidd yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE — a daeth yn aelod swyddogol o CPTPP hefyd.


# Pwysigrwydd hylendid

## Safonau hylendid mewn sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid

## Cipolwg

**Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried y canlynol:**

- lefelau cydymffurfio â hylendid bwyd ar draws sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid
- y cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol o ran mynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn arolygiadau hylendid ers pandemig COVID-19
- yr adnoddau staffio sydd ar gael i gynnal hylendid bwyd a safonau bwyd



# Cyflwyniad

**Mae ymddiriedaeth y cyhoedd mewn bwyd yn dibynnu ar y sicrwydd sylfaenol bod yr hyn rydym yn ei fwyta — p'un a yw'n cael ei brynu mewn siop, ei weini mewn bwyty, neu ei baratoi rywle arall — yn cael ei gynhyrchu, ei weithgynhyrchu, ei storio a'i baratoi'n ddiogel ac yn hylan ar bob cam.**

## Sut mae safonau diogelwch bwyd yn cael eu cynnal?

Mae sicrhau diogelwch ein bwyd yn gyfrifoldeb a rennir. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i fusnesau bwyd gynnal safonau diogelwch, tra bod awdurdodau lleol ledled y DU yn cynnal arolygiadau, yn darparu canllawiau ac yn cymryd camau gorfodi lle bo angen.[13] Mae'r ASB ac FSS yn goruchwylio'r system hon, ac ar yr un pryd, maent hefyd yn rheoleiddio rhai sectorau'n uniongyrchol (Ffigur 17).

### Ffigur 17: Cyfrifoldebau am gynnal rheolaethau hylendid bwyd ledled y DU

| Math o sefydliad bwyd | Pa awdurdod sy'n gyfrifol am reolaethau hylendid? | Pa weithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r broses arolygu? |
|---|---|---|
| **Busnesau bwyd:** mae'r rhain yn cynnwys bwytai, caffis, tafarndai, archfarchnadoedd a mannau eraill lle mae bwyd yn cael ei gyflenwi,[14] ei werthu neu ei fwyta, fel ysbytai, ysgolion a chartrefi gofal | Ledled y DU: awdurdodau lleol | Swyddogion diogelwch bwyd / swyddogion cyfraith bwyd (yn yr Alban), gan gynnwys swyddogion iechyd yr amgylchedd |
| **Sefydliadau cig:** mae'r rhain yn cynnwys lladd-dai, ffatrïoedd torri cig, sefydliadau trin anifeiliaid hela a marchnadoedd cig | Cymru a Lloegr: ASB ac awdurdodau lleol<br><br>Yr Alban: FSS<br><br>Gogledd Iwerddon: ASB, a ddarperir drwy'r Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) | Milfeddygon swyddogol, arolygwyr hylendid cig a swyddogion diogelwch bwyd/ swyddogion cyfraith bwyd, gan gynnwys swyddogion iechyd yr amgylchedd |
| **Sefydliadau llaeth:** mae'r rhain yn cynnwys ffermydd a ffatrïoedd cynhyrchu sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion llaeth | Cymru a Lloegr: ASB / awdurdodau lleol<br><br>Yr Alban: awdurdodau lleol<br><br>Gogledd Iwerddon: ASB, a ddarperir drwy DAERA | Arolygwyr hylendid llaeth, milfeddygon swyddogol, swyddogion iechyd yr amgylchedd/swyddogion cyfraith bwyd (yn yr Alban) |
| **Sefydliadau bwyd anifeiliaid:** mae'r rhain yn cynnwys cyflenwyr cyfanwerthu a gweithgynhyrchwyr cynhyrchion bwyd anifeiliaid | Cymru a Lloegr: awdurdodau lleol<br><br>Yr Alban: FSS<br><br>Gogledd Iwerddon: DAERA | Swyddogion bwyd anifeiliaid |

## Hylendid mewn sefydliadau bwyd

Mae safonau hylendid bwyd mewn caffis, bwytai, archfarchnadoedd a busnesau bwyd eraill ar gael i'r cyhoedd eu gweld mewn dau gynllun sgorio cenedlaethol:

- **y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB),** sydd ar waith yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac yn sgorio safonau hylendid bwyd busnesau ar raddfa o 0 i 5
- **y Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd (FHIS)** sydd ar waith yn yr Alban ac sy'n nodi bod sefydliad wedi 'Pasio' neu fod 'Angen gwella' yn dilyn arolygiad hylendid bwyd.

Er bod y ddau gynllun yn wahanol ac yn cwmpasu gwahanol fathau o fusnesau, mae'r ddau yn cyhoeddi canlyniadau'r arolygiadau diweddaraf gan awdurdodau lleol er mwyn helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus.[15]

Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i fusnesau bwyd arddangos eu sticer sgôr hylendid bwyd mewn man amlwg. Mae'r ASB ac FSS hefyd yn sicrhau bod yr holl sgoriau ar gael ar-lein fel data agored, gan gynnig mwy fyth o dryloywder o ran ein system fwyd.[16][17]


## Y data diweddaraf ar gydymffurfiaeth hylendid

Mae'r data diweddaraf yn dangos bod cydymffurfiaeth gyffredinol o ran hylendid mewn sefydliadau bwyd o fewn y cynlluniau wedi aros yn sefydlog rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Rhagfyr 2024 (Ffigur 18). Mae gan fwy na naw o bob deg (96.9%) o fusnesau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sgôr o 3, sef 'Boddhaol ar y cyfan' neu well ar gyfer y CSHB. Yn yr Alban, roedd mwy na naw o bob deg (92.6%) yn bodloni'r safonau hylendid bwyd gofynnol ac wedi cael sgôr 'pasio' ar gyfer yr FHIS (Ffigur 18).

Yn ogystal, cyflawnodd 76.6% (365,133) o fusnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon y sgôr uchaf o 5, a gwnaeth 3.1% (14,633) gyflawni sgôr o 2 'Angen gwella' neu is, sy'n golygu bod angen iddynt wella'n sylweddol. Bydd y busnesau bwyd hyn yn cael canllawiau i wella, neu gallent fod yn destun camau gorfodi (Ffigur 19).

Mae'r data hwn yn dangos yr holl sefydliadau o fewn y cynlluniau perthnasol sydd wedi cael eu harolygu ac wedi cael canlyniad. Efallai bod rhai o'r arolygiadau hyn wedi cael eu cynnal ddwy flynedd yn ôl neu fwy, gan ddibynnu ar risg y sefydliad ac, fel y trafodwn yn ddiweddarach yn y bennod, mae ôl-groniad o sefydliadau lle mae arolygiad yn hwyr.

### Ffigur 18: Canran y busnesau bwyd yn y DU sydd â sgôr o ‘3 — boddhaol ar y cyfan’ neu well (CSHB) neu ddyfarniad ‘Pasio’ (FHIS) ym mis Rhagfyr 2024




Sylwer: Mae ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gwahaniaeth canrannol o gymharu â 2023. Mae’r holl ffigurau wedi’u talgrynnu i 1 lle degol, a all arwain at anghysondebau ymddangosiadol yn y newidiadau a gyfrifwyd o gymharu â’r llynedd.

Ffynhonnell: ASB — data CSHB ac FSS — data FHIS

### Ffigur 19: Dosbarthiad canrannol y sgoriau CSHB diweddaraf ym mis Rhagfyr 2024

| Sgôr CSHB | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloegr | 0.21% (+0.02%) | 1.43% (+0.01%) | 1.50% (+0.00%) | 5.98% (-0.13%) | 14.19% (-0.46%) | 76.69% (+0.56%) |
| Cymru | 0.12% (-0.03%) | 1.55% (-0.15%) | 1.38% (+0.00%) | 6.49% (-0.24%) | 17.29% (-0.28%) | 73.17% (+0.71%) |
| Gogledd Iwerddon | 0.01% (+0.00%) | 0.39% (-0.07%) | 0.85% (+0.10%) | 3.84% (+0.26%) | 12.61% (+0.13%) | 82.29% (-0.43%) |

Sylwer: Mae’r niferoedd mewn cromfachau yn cyfateb i newid canrannol o 2023.

Ffynhonnell: ASB — data CSHB

## Cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd yn yr Alban

Cyflwynwyd **System Sgorio Cyfraith Bwyd yr Alban (FLRS)** yn 2019 pan ddiweddarwyd Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yr Alban, ac mae'n cyfuno'r systemau sgorio ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd yn un drefn. O dan y drefn flaenorol, a elwir yn Atodiad 5, roedd y ddwy system sgorio ar wahân yn arwain at ddyblygu. Mae FLRS yn galluogi awdurdodau lleol i dargedu adnoddau'n well tuag at sefydliadau busnesau bwyd risg uchel a'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio.

Nid yw pob busnes wedi cael ei arolygu o dan y drefn FLRS newydd, a byddant yn cadw eu sgoriau Atodiad 5 tan eu harolygiad nesaf. Ar gyfer y busnesau hynny sydd wedi bod drwy'r drefn FLRS, aseswyd bod 98.4% yn cydymffurfio ym mis Rhagfyr 2024 (Ffigur 20), sydd wedi aros yn sefydlog o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Ffigur 20: Canran y busnesau bwyd a arolygwyd yn yr Alban a oedd yn cydymffurfio â'r FLRS yn 2023 a 2024**

| Blwyddyn | 2024 | 2023 |
|---|---|---|
| Canran y busnesau bwyd sy'n cydymffurfio | 98.4% | 98.7% |

Sylwer: Diffiniad 'cydymffurfio' yn ôl yr FLRS yw unrhyw fusnes bwyd sydd â sgôr A–C yn dilyn arolygiad. Mae'r ganran ar gyfer 2023 wedi newid i gynnwys data nad oedd wedi dod i law adeg cyhoeddi y llynedd.

Ffynhonnell: FSS — Data o Gronfa Ddata Genedlaethol yr Alban

## Hylendid mewn sefydliadau cig cymeradwy

Mae pob un o'r 963 o **sefydliadau cig cymeradwy** yn y DU,[18] gan gynnwys lladd-dai, sefydliadau trin helgig, ffatrïoedd torri a marchnadoedd cig cyfanwerthu, yn cael eu harchwilio, a hynny ar amlder sy'n dibynnu ar y risg y maen nhw'n ei pheri i ddiogelwch bwyd. Diben hyn yw gwirio eu bod yn bodloni safonau hylendid, iechyd anifeiliaid, a lles anifeiliaid. Gwnaeth yr archwiliadau hyn helpu'r ASB ac FSS i oruchwylio trefn ddiogel o brosesu 1.2 biliwn o ddofednod, 12.9 miliwn o ddefaid, 10.5 miliwn o foch, a 2.9 miliwn o wartheg yn 2024.[19][20]

Dim ond cipolwg o'r lefelau cydymffurfio ar ddiwedd pob blwyddyn galendr y gall y data ei ddarparu. Mae hyn yn seiliedig ar yr archwiliadau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer busnesau, a gallai rhai ohonynt fod wedi'u cynnal bron i ddwy flynedd yn ôl yn achos sefydliadau risg is. Oherwydd gwahaniaethau yn amlder a natur archwiliadau'r ASB ac FSS, ni ellir cymharu'r Alban yn uniongyrchol â'r tair gwlad arall.[21]



Serch hynny, mae'r data cydymffurfio o fis Rhagfyr 2024 o sefydliadau a oedd wedi'u harchwilio, yn dangos bod gan bob sefydliad â sgôr yng Ngogledd Iwerddon (51) a'r mwyafrif o'r sefydliadau yn Lloegr (735 allan o 741), Cymru (40 allan o 41) a'r Alban (81 allan o 82) safonau hylendid da neu foddhaol ar y cyfan yn ôl eu harchwiliad diweddaraf (Ffigur 21).[22]


Yng Nghymru, y rheswm dros y cynnydd a adroddwyd yn lefelau cydymffurfio busnesau oedd bod dau sefydliad nad oeddent yn cydymffurfio'n flaenorol yn bodloni'r safonau gofynnol yn 2024 — sy'n cyfateb i gynnydd o 4.2 pwynt canran ar draws y 41 o sefydliadau cig cymeradwy a archwiliwyd. Mae dosbarthiad llawn o'r sgoriau ledled y DU i'w weld yn Ffigur 22.

### Ffigur 21: Canran y sefydliadau cig a gafodd sgôr dda neu foddhaol ar y cyfan

| Gwlad | Canran y sefydliadau cig a gafodd sgôr dda neu foddhaol o ran hylendid yn 2024 | Newid canrannol yn erbyn data 2023 |
|---|---|---|
| Lloegr | 99.2% | +0.1%* |
| Cymru | 97.6% | +4.2% |
| Gogledd Iwerddon | 100.0% | Dim newid |
| Yr Alban | 98.8% | +1.3% |

*Yn dilyn adolygiad ôl-weithredol, canfuwyd nad oedd dau sefydliad ychwanegol yn cydymffurfio yn Lloegr yn 2023.
Ffynhonnell: ASB/FSS — Data arolygu sefydliadau cig

**Ffigur 22: Dadansoddiad o sgoriau cydymffurfio o ran hylendid ar gyfer sefydliadau cig cymeradwy ym mis Rhagfyr 2024**




Ffynhonnell: ASB/FSS — Data arolygu sefydliadau cig.

## Cydymffurfiaeth hylendid wrth gynhyrchu llaeth

Cynhyrchwyd tua 16 biliwn o litrau o laeth yn y DU yn ystod 2024 ym mis Rhagfyr 2024.[23] Mae ein dadansoddiad yn dangos lefelau uchel o gydymffurfiaeth o fewn sefydliadau llaeth cynradd[24] ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon dros y cyfnod hwn.

Ym mis Rhagfyr 2024, roedd bron pob fferm laeth yn y tair gwlad hyn yn bodloni'r safonau hylendid gofynnol, gyda chyfraddau cydymffurfio o 98.7% yn Lloegr, 99.3% yng Nghymru, a 99.9% yng Ngogledd Iwerddon, heb unrhyw newid sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (Ffigur 23).

Ymhlith y 10,518 o sefydliadau llaeth sydd â sgôr yn sgil cael eu harchwilio (Ffigur 24) roedd gan gyfran fach (93) sgôr 'Angen gwella' neu 'Angen gwella ar frys', gyda'r rhan fwyaf (72.1%) yn cyflawni'r sgôr uchaf.

Er nad oes modd cymharu data'r Alban yn uniongyrchol,[25] o'r 833 o ddaliadau llaeth yn yr Alban, cafodd 230 eu harolygu yn 2023/24, ac nid oedd angen unrhyw fath o gamau gorfodi ar 219 ohonynt (95.2%). Gall gorfodi yn yr Alban amrywio o lythyrau canllaw anffurfiol a llythyrau rhybuddio am ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau hylendid, i gamau gweithredu

ffurfiol sy'n cynnwys hysbysiadau gwella hylendid (HINs), sef materion lle mae diffyg cydymffurfio â safonau hylendid yn torri rheoliadau, a rhaid eu cywiro o fewn cyfnod penodol. Gellid atgyfeirio sefydliad i'w erlyn hefyd.

Gostyngodd lefelau'r gweithgarwch gorfodi yn yr Alban hefyd yn dilyn ffocws ar ffermydd risg uwch ar ôl COVID-19. Wrth i archwiliadau ddechrau cwmpasu ystod ehangach o ffermydd eto, dim ond 4.8% oedd angen camau gorfodi (Ffigur 25). Er bod llythyrau canllaw wedi'u cyhoeddi yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, nid oedd angen unrhyw hysbysiadau gwella hylendid (HINs).

**Ffigur 23: Canran y sefydliadau llaeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a gafodd y canlyniadau uchaf, sef da neu foddhaol ar y cyfan**


| Gwlad | Canran y sefydliadau llaeth a gafodd sgôr dda ne foddhaol ar y cyfan | Newid pwynt canrannol o 2023 |
|---|---|---|
| Lloegr | 98.7% | +0.3% |
| Cymru | 99.3% | +0.4% |
| Gogledd Iwerddon | 99.9% | Ddim yn berthnasol* |

*Oherwydd newid yn y ffordd y dadansoddwyd y data ar gyfer Gogledd Iwerddon yn 2024, ni ellir cymharu â blynyddoedd blaenorol.

Ffynhonnell: ASB/DAERA — Data arolygu ffermydd llaeth



### Ffigur 24: Dadansoddiad o sgoriau cydymffurfio â hylendid ar gyfer sefydliadau llaeth o ddata arolygu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon




Sylwer: Efallai na fydd y canrannau'n adio i 100% oherwydd talgrynnu.
Ffynhonnell: ASB/DAERA — Data arolygu ffermydd llaeth

### Ffigur 25: Arolygiadau llaeth a chamau gorfodi yn yr Alban ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/23–2023/24

| Blwyddyn ariannol | Arolygiadau | Llythyrau canllaw | Llythyrau rhybuddio | HINs |
|---|---|---|---|---|
| 2022/23 | 73 | 15 | 9 | 0 |
| 2023/24 | 230 | 8 | 3 | 0 |

Ffynhonnell: FSS — Cronfa Ddata Genedlaethol yr Alban

## Cydymffurfiaeth hylendid mewn sefydliadau bwyd anifeiliaid

Rhaid i fusnesau bwyd anifeiliaid fodloni gofynion cyfreithiol sy’n ymwneud â hylendid, olrhain, labelu, cyfansoddiad a sylweddau annymunol a all effeithio ar ansawdd a diogelwch y gadwyn fwyd ehangach.

Arhosodd cydymffurfiaeth busnesau â safonau hylendid bwyd fwy neu lai yn ddigyfnewid ar draws llawer o’r DU, tra bod lefelau cydymffurfio wedi codi yng Nghymru yn dilyn y cwymp sydyn a nodwyd yn Ein Bwyd 2023:

- Yn Lloegr, gwelwyd cynnydd bach o 0.8 pwynt canran mewn cydymffurfiaeth, o 95.2% yn 2022/23 i 96.0% yn 2023/24.
- Gwelwyd cynnydd bach o 0.2 pwynt canran yng Ngogledd Iwerddon, o 97.1% yn 2022/23 i 97.3% yn 2023/24.
- Gwelwyd cynnydd o 9.6 pwynt canran yng Nghymru, o 79.1% yn 2022/23 i 88.7% yn 2024.
- Gwelwyd gostyngiad bach o 0.2 pwynt canran yn yr Alban, o 98.9% yn 2023 i 98.7% yn 2024.

At ei gilydd, mae’r data diweddaraf yn awgrymu tuedd o sefydlogrwydd neu welliant o ran cydymffurfiaeth hylendid ar draws sefydliadau bwyd anifeiliaid yn y DU.



**Ffigur 26: Canran y sefydliadau bwyd anifeiliaid yr aseswyd eu bod yn cydymffurfio â safonau hylendid**

| | | |
|---|---|---|
| **Lloegr** | **96.0%** | Llwyddodd 96.0% o sefydliadau bwyd anifeiliaid i gael sgôr gydymffurfiaeth foddhaol o leiaf yn 2023/24 (52,219 o 54,725) — sef cynnydd o 0.8 pwynt canran o gymharu â 2022/23 (51,755 o 54,370). |
| **Cymru** | **88.7%** | Llwyddodd 88.7% o sefydliadau bwyd anifeiliaid i gael sgôr gydymffurfiaeth foddhaol o leiaf yn 2023/24 (12,020 o 13,558) — sef cynnydd o 9.6 pwynt canran o gymharu â 2022/23 (11,527 o 14,571). |
| **Gogledd Iwerddon** | **97.2%** | Llwyddodd 97.2% o sefydliadau bwyd anifeiliaid i gael sgôr gydymffurfiaeth foddhaol o leiaf yn 2023/24 (1,068 o 1,099) — sef cynnydd o 0.1 pwynt canran o gymharu â 2022/23 (1,078 o 1,110). |
| **Yr Alban** | **98.7%** | Llwyddodd 98.7% o sefydliadau bwyd anifeiliaid i gael sgôr gydymffurfiaeth foddhaol o leiaf yn 2024 (1,152 o 1,167) — sef gostyngiad o 0.2 pwynt canran o gymharu â 2023 (1,105 o 1,117). |

Sylwer: Mae data diweddaraf o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn dangos yr arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24. Mae'r data diweddaraf ar gyfer yr Alban yn seiliedig ar flwyddyn galendr 2024.

Ffynhonnell: ASB/FSS/DAERA — Data arolygu sefydliadau bwyd anifeiliaid

## Heriau capasiti a gallu

Mae gwaith gorfodi o ran hylendid bwyd a safonau bwyd yn dibynnu ar gael digon o staff i ateb y galw, yn ogystal â bod ganddynt y cymwysterau a'r profiad i gynnal arolygiadau a helpu busnesau i gynnal arferion hylendid da a sicrhau bod bwyd yn bodloni safonau diogelwch, cyfansoddiad a labelu. Yn adroddiad y llynedd, gwnaethom dynnu sylw at dri phryder allweddol:

- y dirywiad hirdymor mewn **swyddi diogelwch bwyd mewn awdurdodau lleol**
- yr heriau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth **fynd i'r afael â'r ôl-groniad ar ôl y pandemig**
- y gost barhaus o **recriwtio a chadw milfeddygon swyddogol (OVs)** i gefnogi rheolaethau diogelwch cig.

Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bob un o'r materion hyn.

## Adnoddau awdurdodau lleol

Mae'r ASB wedi olrhain lefelau adnoddau awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ers 2010/11.[26] O 2013/14 i 2017/18, bu gostyngiadau o flwyddyn i flwyddyn yn yr adnoddau a ddyrannwyd gan awdurdodau lleol[27] ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd (Ffigurau 2013/14 a 2017/18). Ers hynny, mae lefelau adnoddau wedi aros yn gymharol sefydlog.

Mae data'r gweithlu ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn dangos rhai gwelliannau yn nifer yr adnoddau sydd ar gael gan awdurdodau lleol yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.[28][29] Yn yr Alban, mae data'r gweithlu yn dangos, ar ddiwedd 2024, fod tua un rhan o bump o'r gweithlu naill ai'n swyddi gwag neu heb fod ar gael.[30]

### Adnoddau hylendid bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

Mae awdurdodau lleol ledled y DU yn gyfrifol am amrywiaeth eang o wiriadau ac ymyriadau mewn sefydliadau bwyd er mwyn sicrhau y cynhelir lefel uchel o hylendid bwyd a bod busnesau'n cydymffurfio â chyfraith bwyd berthnasol.[31] Mae'r rhain yn cael eu cyflawni gan swyddogion diogelwch bwyd, fel swyddogion iechyd yr amgylchedd.


Dangosir nifer y swyddi hylendid bwyd cyfwerth ag amser llawn (CALl) a ddyrannwyd yn Ffigur 27, a chanran y swyddi hynny a ddyrannwyd sy'n parhau i fod heb eu llenwi yn Ffigur 28. Mae nifer y rhai oedd wedi'u llenwi ac ar gael[32] ar ddiwedd 2023/24 o gymharu â 2022/23 yn dangos bod adnoddau awdurdodau lleol sydd wedi'u neilltuo i hylendid bwyd:

- **wedi codi 2.6%** yn Lloegr (1,226 i 1,258 o swyddi)
- **wedi gostwng 1.4%** yng Nghymru (144 i 142)
- **wedi codi 18%** yng Ngogledd Iwerddon (50 i 59)

Fodd bynnag, arhosodd cyfanswm yr adnoddau hylendid bwyd ar draws y tair gwlad hyn (1,459 o swyddi) 15.4% yn is nag yr oedd yn 2010/11 (1,725 o swyddi), er gwaethaf y ffaith bod nifer y busnesau bwyd sydd angen ymyriad hylendid bwyd wedi codi o 574,000 i bron i 588,000 dros y cyfnod hwn.

Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu bod 403 o fusnesau fesul swydd hylendid bwyd CALl yn 2023/24, o gymharu â 333 yn 2010/11 — cynnydd o 21.1% yn y llwyth gwaith fesul swydd CALl.

## Ffigur 27: Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALI) ym maes hylendid bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon




Sylwer: Mae seren (*) yn dynodi ffurflen hanner blwyddyn.

Ffynhonnell: ASB — LAEMS/data CALI hunangofnodedig awdurdodau lleol (LAEMS hyd at 31 Mawrth 2020)

## Ffigur 28: Canran y swyddi CALI heb eu llenwi ym maes hylendid bwyd mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

| Blwyddyn | Lloegr | Cymru | Gogledd Iwerddon | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 8.7% | 9.7% | 9.7% | 8.8% |
| 2019/20 | 10.1% | 6.9% | 4.9% | 9.6% |
| 2020/21 | 58.4% | 65.5% | 25.4% | 57.7% |
| 2021/22 | 12.0% | 27.7% | 15.3% | 13.7% |
| 2022/23 | 11.0% | 12.7% | 13.8% | 11.1% |
| 2023/24 | 9.9% | 12.9% | 7.8% | 10.1% |
| 2024/25* | 8.9% | 12.2% | 4.9% | 9.2% |

Sylwer: Mae seren (*) yn dynodi ffurflen hanner blwyddyn. Roedd canran y swyddi heb eu llenwi ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2020/21 yn adlewyrchu'r ffaith bod swyddogion diogelwch bwyd wedi'u symud o'u maes er mwyn ymdrin â phandemig COVID-19.

Ffynhonnell: ASB — LAEMS/data CALI hunangofnodedig awdurdodau lleol (LAEMS hyd at 31 Mawrth 2020)

## Adnoddau safonau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon


Mae adnoddau safonau bwyd yn sicrhau bod labelu a chyfansoddiad bwyd a bwyd anifeiliaid yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Dangosir nifer y swyddi safonau bwyd CALI a ddyrannwyd yn Ffigur 29. Mae Ffigur 30 yn dangos canran y swyddi hynny a ddyrannwyd sy'n parhau i fod heb eu llenwi. O gymharu â 2022/23, mae nifer y swyddi sydd wedi'u llenwi ac ar gael i gynnal safonau bwyd ar ddiwedd 2023/24:

- **wedi codi 20.6%** yn Lloegr (o 252 i 304 o swyddi)
- **wedi codi 20.8%** yng Nghymru (53 i 64)
- **wedi gostwng 3.6%** yng Ngogledd Iwerddon (28 i 27)

Fodd bynnag, arhosodd y lefelau adnoddau cyfunol (395 o swyddi) yn is nag yn 2010/11, pan oedd 703 o swyddi. Er nad oes gennym ddata cadarn am nifer y busnesau sydd angen ymyriad safonau bwyd, i ddangos a yw'r llwyth gwaith wedi cynyddu, mae'r newid yn y gweithlu ers 2010/11 yn dangos gostyngiad sylweddol (43.8%) yn yr adnoddau sydd ar gael.

**Ffigur 29: Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALI) ym maes safonau bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon**




Sylwer: Mae seren (*) yn dynodi ffurflen hanner blwyddyn.

Ffynhonnell: ASB — LAEMS/data CALI hunangofnodedig awdurdodau lleol (LAEMS hyd at 31 Mawrth 2020)

**Ffigur 30: Canran y swyddi (CALI) ym maes safonau bwyd heb eu llenwi mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon**

| Blwyddyn | Lloegr | Cymru | Gogledd Iwerddon | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 9.6% | 8.9% | 9.1% | 9.0% |
| 2019/20 | 7.3% | 6.0% | 2.9% | 6.5% |
| 2020/21 | 48.1% | 63.5% | 25.0% | 48.1% |
| 2021/22 | 9.7% | 16.7% | 15.2% | 10.9% |
| 2022/23 | 9.7% | 8.6% | 15.2% | 10.0% |
| 2023/24 | 12.6% | 5.9% | 6.9% | 11.7% |
| 2024/25* | 8.4% | 11.3% | 3.1% | 8.5% |

Sylwer: Mae seren (*) yn dynodi ffurflen hanner blwyddyn. Roedd canran y swyddi heb eu llenwi ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2020/21 yn adlewyrchu'r ffaith bod swyddogion diogelwch bwyd wedi'u symud o'u maes er mwyn ymdrin â phandemig COVID-19.

Ffynhonnell: ASB — LAEMS/data CALI hunangofnodedig awdurdodau lleol (LAEMS hyd at 31 Mawrth 2020)

## Adnoddau hylendid a safonau bwyd yn yr Alban

Yn yr Alban, cynhaliwyd Cyfrifiad Adnoddau Gofynnol (RRC)[33] yn 2021 a amcangyfrifodd fod angen 380 o swyddi CALI i gyflawni'r holl ymyriadau a gweithgareddau cyfraith bwyd (hylendid bwyd a safonau bwyd) gofynnol. Ym mis Rhagfyr 2024, roedd 225.4 o swyddi CALI wedi'u dyrannu o fewn awdurdodau lleol yr Alban ar gyfer cyflawni cyfraith bwyd. O'r rhain, dim ond 179.4 o'r swyddi a oedd wedi'u llenwi, gyda 46 o swyddi (20.4%) yn wag neu heb fod ar gael i'w llenwi. O gymharu ag amcangyfrif 2021, mae hyn yn golygu nad oedd 52.8% o'r adnoddau gofynnol a bennwyd gan y RRC mewn swydd.

Mae'r diffyg adnoddau hwn yn yr Alban yn effeithio'n gyfartal ar hylendid a safonau ac nid oes fawr o arwydd o welliant o ystyried demograffeg y Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd presennol yn yr Alban, a'r prinder staff i gymryd lle'r rhai sy'n ymddeol.

Mae nifer y swyddogion cyfraith bwyd yn yr Alban wedi gostwng rhwng 2016 a 2024, o 270.5 CALI i 179. Mae nifer y safleoedd wedi cynyddu dros y cyfnod hwn hefyd, o 65,095 yn 2016 i 72,946 yn 2024. Mae hyn yn golygu bod 240.6 o fusnesau fesul swydd CALI yn 2016, o gymharu â 407.5 yn 2024 — sef cynnydd o 69.3% yn y llwyth gwaith fesul swydd CALI.

**Ffigur 31: Nifer y swyddi swyddogion cyfraith bwyd cyfwerth ag amser llawn a oedd wedi'u dyrannu yn yr Alban 2016–2024**

| Blwyddyn | Swyddogion Cyfraith Bwyd mewn swydd (CALI) | Nifer y safleoedd bwyd |
|---|---|---|
| 2016 | 270.5 | 65,095 |
| 2017 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| 2018 | 223 | 65,105 |
| 2019 | 214 | 67,864 |
| 2020 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| 2021 | 202 | 73,852 |
| 2022 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| 2023 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| 2024 | 179 | 72,946 |

Sylwer: Defnyddiwyd gwahanol arolygon fel ffynhonnell ar gyfer darparu'r blynyddoedd lle roedd Swyddogion Cyfraith Bwyd mewn swydd, ac mae'n bosib y defnyddiwyd gwahanol fethodoleg i gyfrifo'r niferoedd hyn.
Ffynhonnell: FSS[34]

Mae RRC mwy manwl yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i ddarparu amcangyfrif mwy cywir a chadarn o'r gofynion presennol o ran adnoddau. Bydd y cyfrifiad newydd hwn yn sicrhau bod y diffyg presennol yn cael ei ddeall, er mwyn cefnogi gwaith blaenoriaethu a darparu llinell sylfaen ar gyfer **rhaglen SAFER** (gweler yr wybodaeth yn y blwch).

## Moderneiddio gwaith rheoleiddio a chefnogi awdurdodau lleol

Ar hyn o bryd mae'r ASB yn gweithio ar gyfres o fentrau i wella'r system reoleiddio. Bydd y mentrau hyn yn helpu awdurdodau lleol i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddynt i gefnogi busnesau a diogelu defnyddwyr, ac i adeiladu cyflenwad cynaliadwy o recriwtiaid newydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **treialon cychwynnol gyda'r manwerthwyr mawr sy'n cymryd rhan, i brofi a allai model rheoleiddio amgen weithio,** gan ddefnyddio data gwybodaeth fusnes ochr yn ochr â gwiriadau ffisegol i asesu cydymffurfiaeth a mynd ati'n rhagweithiol i reoli risgiau
- **ymgynghori ar newidiadau posib i wiriadau hylendid bwyd,** gan gynnwys defnyddio mwy o arolygiadau o bell
- **cefnogi a chydnabod llwybrau cymhwyso newydd** i ddenu mwy o bobl i'r proffesiwn diogelwch bwyd
- o wanwyn 2025 ymlaen, **bydd dull newydd o gynnal arolygiadau safonau bwyd, a fydd yn fwy seiliedig ar risg, yn cael ei gyflwyno** ledled Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd y dull hwn yn cryfhau'r defnydd o wybodaeth i flaenoriaethu adnoddau'n well a gwella diogelwch defnyddwyr. Yng Nghymru, mae cynllun peilot eisoes wedi'i gynnal ar gyfer y model newydd arfaethedig, ac mae wedi bod yn destun ymgynghoriad drwy'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried, a rhoddir cyngor ar y camau nesaf i Weinidogion Cymru yn hydref 2025.

Yn **yr Alban**, fel y mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos, mae adnoddau ariannol a staffio awdurdodau lleol ar gyfer cyfraith bwyd wedi bod yn lleihau ers amser. Mae gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol ac FSS yn 2024, yn awgrymu mai dim ond 52.8% o'r nifer gofynnol o swyddogion sydd ar gael. Mae trefn gorfodi cyfraith bwyd effeithiol yn sylfaen hanfodol ar gyfer iechyd y cyhoedd a sector bwyd ffyniannus, ac mae'n darparu system a fydd yn gwrthsefyll craffu cynyddol ar fasnach allforio ryngwladol.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth a gasglwyd gan FSS a Chymdeithas Prif Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn yr Alban (SoCOEHS) yn dangos yn glir fod y rheolaethau swyddogol a gynhelir gan awdurdodau lleol ymhell o gyrraedd y gofynion statudol, gan gyflwyno risg glir a phresennol i iechyd y cyhoedd, masnach a'r economi.

Mae'r mater strategol hwn wedi bod ar gofrestr risg FSS ers nifer o flynyddoedd ac mae'n risg a rennir gan Weinidogion a Llywodraeth yr Alban. O ystyried pwysigrwydd model cyfraith bwyd effeithiol, mae FSS wedi datblygu rhaglen **Ailadeiladu Gorfodi Bwyd Awdurdod yr Alban (SAFER)** sy'n cydnabod bod y model presennol wedi torri ac yn peri risg sylweddol i iechyd y cyhoedd, yr economi a masnach. Mae'n hanfodol bod pob agwedd ar y system yn cael ei hadolygu a'i moderneiddio. Mae **SAFER** yn cynnig trawsnewid y system rheoleiddio a gorfodi cyfraith bwyd yn yr Alban. Bydd yn sicrhau bod y model gweithredu yn effeithlon, yn gadarn ac yn gynaliadwy, heb fod angen cymhorthdal gan y llywodraeth. Bydd yn targedu ymyriadau sy'n cynnig y diogelwch gorau posib o ran iechyd y cyhoedd, ac yn cefnogi sector bwyd ffyniannus. Bydd y rhaglen yn cael ei lansio'n ffurfiol yn ystod 2025.

## Rheoli'r ôl-groniad ers y pandemig

Fel y disgrifiwyd yn Ein Bwyd 2023, mae awdurdodau lleol wedi bod yn rheoli llawer o arolygiadau hwyr a gronnwyd yn ystod y pandemig — ac er gwaethaf twf bach yn y gweithlu, gwelwyd problemau tebyg yn 2024. Un o'r heriau yw bod awdurdodau lleol yn nodi bod cyfran sylweddol o'r staff newydd a gafodd eu recriwtio naill ai'n dal i gael hyfforddiant neu angen cymorth a goruchwyliaeth ychwanegol wrth iddynt feithrin eu profiad proffesiynol.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn nodi anawsterau wrth recriwtio a chadw swyddogion cymwys,[35] tra bod rhai swyddogion diogelwch bwyd yn cael eu dargyfeirio i ddelio â gofynion eraill y tu allan i faes diogelwch bwyd.

O ganlyniad, disgwylir iddi gymryd amser i'r cynnydd yn nifer y staff gael effaith amlwg o ran gostyngiad yn nifer yr arolygiadau hwyr.

### Cyfeintiau arolygu CSHB ac FHIS

Mae'n bwysig nodi mai dim ond i fusnesau sy'n gwerthu neu'n gweini bwyd yn uniongyrchol i'r cyhoedd y rhoddir sgoriau CSHB ac FHIS.[36] Felly, nid ydynt yn cwmpasu arolygiadau bwyd o bob math. Serch hynny, mae sgoriau CSHB yn ddangosydd defnyddiol o gynnydd cyffredinol mewn safonau hylendid bwyd ymhlith sefydliadau sy'n delio â defnyddwyr.

Yn Ein Bwyd 2023, gwnaethom nodi nad oedd lefelau arolygu wedi dychwelyd eto i'r cyfraddau a welwyd cyn y pandemig, wrth i awdurdodau lleol barhau i ddelio â'r ôl-groniad helaeth o arolygiadau hwyr a gronnwyd yn ystod COVID-19. Fodd bynnag, gwelwyd arwyddion pellach o adfer yn ystod 2024.[37]


Dangosodd data ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gynnydd yn nifer y sgoriau CSHB a gyhoeddwyd yn chwarter olaf blwyddyn ariannol 2023/24, gan godi'r niferoedd ar gyfer tri mis cyntaf 2024 uwchlaw'r lefelau a welwyd cyn y pandemig am y tro cyntaf (Ffigur 32).

At ei gilydd, cynyddodd nifer y sgoriau a gyhoeddwyd yn 2023/24 o 191,000 i 203,000 — sef cynnydd o 6.5% o gymharu â 2022/23. I gymharu, cyhoeddwyd tua 159,000 o sgoriau yn 2021/22 wrth i weithgarwch ailddechrau ar ôl y pandemig.

Yn yr Alban, arhosodd nifer yr asesiadau FHIS yn is na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig, ond bu cynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cynhaliwyd y nifer uchaf o asesiadau FHIS a gofnodwyd o'r data diweddaraf rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2024, sef 4,014 o asesiadau FHIS, o gymharu â 3,495 yn ystod yr un cyfnod yn 2023 (Ffigur 33).

At ei gilydd, cynyddodd cyfanswm y sgoriau FHIS o 14,259 yn 2022/23 i 14,732 yn 2023/24 — sef cynnydd o 3.3%. Fodd bynnag, cynyddodd nifer y busnesau yn yr Alban sy'n aros am asesiad FHIS hefyd o 8,810 ar ddiwedd 2023 i 9,153 erbyn diwedd 2024 (+3.9%).


**Ffigur 32: Nifer y busnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a gafodd sgôr hylendid bwyd, fesul chwarter, rhwng 2019/20 a 2024/25**




Sylwer: Ch1 — Ebrill, Mai, Mehefin; Ch2 — Gorffennaf, Awst, Medi; Ch3 — Hydref, Tachwedd, Rhagfyr; C4 — Ionawr, Chwefror, Mawrth.

Ffynhonnell: ASB — data CSHB

**Ffigur 33: Nifer yr asesiadau FHIS a gynhaliwyd mewn busnesau bwyd yn yr Alban, fesul chwarter, rhwng 2019/20 a 2024/2025**




Sylwer: Ch1 — Ebrill, Mai, Mehefin; Ch2 — Gorffennaf, Awst, Medi; Ch3 — Hydref, Tachwedd, Rhagfyr; C4 — Ionawr, Chwefror, Mawrth.

Ffynhonnell: FSS — data'r FHIS

## Ymyriadau hylendid bwyd hwyr a busnesau heb eu sgorio

Yn ôl data a ddarparwyd i ni gan awdurdodau lleol, rhwng mis Ebrill a mis Medi 2024, cynhaliwyd 51.7% o'r ymyriadau hylendid bwyd dyledus yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, o gymharu â 51.9% rhwng Hydref 2023 a mis Mawrth 2024. Gadawodd hyn tua 95,000 **o arolygiadau hwyr** ar gyfer y cyfnod hwn. Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data canol blwyddyn hwn, gan fod tueddiadau'r gorffennol yn dangos cynnydd sydyn mewn arolygiadau tua diwedd y flwyddyn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymyriadau hwyr ar gyfer busnesau risg ganolig i isel. Fodd bynnag, er bod 91% o'r arolygiadau risg uchel wedi'u cynnal ar amser, roedd arolygiadau'n hwyr ar gyfer 871 (9%) o fusnesau risg uchel.

Yn ogystal, cynyddodd nifer y **busnesau heb eu sgorio**[38] **yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon** a oedd yn aros am arolygiad hylendid bwyd cychwynnol 3% o 41,101 ym mis Mawrth 2024 i 42,353 ym mis Medi 2024, yn rhannol oherwydd y cylch parhaus o fusnesau newydd sy'n agor. Mae'r cylch hwn yn peri pryder arbennig gan y gallai busnesau fod yn gweithredu am gyfnodau hir heb arolygiad cychwynnol a heb gyngor, cefnogaeth na chamau gorfodi priodol, gan beri risg bosib i iechyd y cyhoedd.

Unwaith eto, dylid dehongli'r data canol blwyddyn hwn yn ofalus, gan fod tueddiadau'r gorffennol yn dangos cynnydd sydyn mewn arolygiadau tua diwedd y flwyddyn.

At ei gilydd, roedd 582,000 o fusnesau cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yr oedd angen ymyriad hylendid bwyd arnynt ym mis Medi 2024 — yn debyg i'r flwyddyn flaenorol.

Yn yr Alban, gostyngodd nifer y busnesau heb sgôr rhwng Rhagfyr 2023 a Rhagfyr 2024. Ym mis Rhagfyr 2023, roedd 13,116 o gyfanswm o 73,334 o fusnesau cofrestredig (17.9%) heb eu sgorio. Ym mis Rhagfyr 2024, roedd 12,533 o 72,950 (17.2%) o fusnesau cofrestredig heb eu sgorio.

## Adnoddau milfeddygol swyddogol

Yn ôl y gyfraith,[39] rhaid i **filfeddygon swyddogol (OVs)** fod yn bresennol er mwyn i ladd-dai weithredu, gan eu gwneud yn hanfodol ar gyfer ein diwydiant cig domestig sy'n werth £10.9 biliwn, a'n diwydiant allforio cig, sy'n werth £2 biliwn.[40]

Yn adroddiad y llynedd, gwnaethom dynnu sylw at yr anawsterau a brofodd yr ASB ac FSS wrth recriwtio a chadw digon o OVs i ateb y galw. Er bod y ddwy asiantaeth yn defnyddio modelau adnoddau gwahanol — mae FSS yn cyflogi milfeddygon swyddogol yn uniongyrchol, tra bod yr ASB yng Nghymru a Lloegr yn defnyddio Partneriaid Cyflenwi Gwasanaethau i ddarparu ei staff, ac mae'r ASB yng Ngogledd Iwerddon yn cynnal rheolaethau swyddogol trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) — mae'r heriau hyn wedi parhau, i wahanol raddau, yn 2024.

### Rôl OVs

Mae OVs yn gweithio ochr yn ochr â Swyddogion Cynorthwyol Swyddogol, (a elwir hefyd yn Arolygwyr Hylendid Cig (MHIs)) i sicrhau diogelwch ac ansawdd bwyd a gynhyrchir mewn lladd-dai yn y DU. Maent yn monitro anifeiliaid byw cyn ac wrth gael eu lladd, ac yn archwilio'r carcasau wedyn, gan chwarae rhan hanfodol mewn diogelwch bwyd, wrth ganfod clefydau ac o ran lles anifeiliaid.

## Defnyddio OVs newydd sydd wedi'u cofrestru dros dro yng Nghymru a Lloegr

Mae recriwtio o dramor wedi bod yn hanfodol ar gyfer cynnal lefelau staffio OVs yng Nghymru a Lloegr dros y blynyddoedd diwethaf, wedi'i gefnogi i raddau helaeth gan gynllun Cofrestru Dros Dro Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS).

## Beth yw Cofrestru Dros Dro?

Mae trefn Cofrestru Dros Dro RCVS yn caniatáu i filfeddygon cymwys o brifysgolion a achredir gan y Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Addysg Filfeddygol (EAEVE) gyda IELTS Lefel 6 mewn Saesneg (ers newid o Lefel 5 yn 2024) gofrestru a gweithio dros dro fel OV newydd (TRNOVs) mewn lladd-dai, tra byddant yn cwblhau eu hyfforddiant Saesneg.

Rhwng 2021 a chanol 2023, roedd Partner Cyflenwi Gwasanaeth yr ASB yn dibynnu'n drwm ar **TRNOVs** i ateb y galw. Gofynnodd y RCVS i'r ASB ystyried llwybrau recriwtio amgen i gael gwared ar y ddibyniaeth ar gofrestru dros dro ar raddfa fawr. I fynd i'r afael â hyn, gweithiodd yr ASB gyda'r RCVS, rhannau eraill o'r llywodraeth, a'r proffesiwn milfeddygo i lansio llwybr recriwtio rhyngwladol amgen yn 2024, ochr yn ochr â mentrau i hyrwyddo gyrfaoedd OV yn ddomestig. Mae cyfraddau cadw'r gweithlu hefyd wedi gwella oherwydd cyflogau uwch, recriwtio wedi'i dargedu, a hyfforddiant iaith dwys — gyda'r nod penodol o helpu ymgeiswyr i fodloni gofyniad Saesneg Lefel 7 IELTS, a arferai fod yn gyfrifol am golli 35% o'r OVs. O ganlyniad i'r ymyriadau hyn, gostyngodd cyfran yr ymgeiswyr a adawodd oherwydd cymwysterau iaith heb eu bodloni i ddim ond 3% rhwng Ionawr ac Awst 2024, wrth i gyfraddau pasio wella (Ffigur 34).

O ganlyniad, gostyngodd cyfran y gweithlu OV a gafwyd o TRNOVs a gyflogwyd gan y Partner Cyflenwi Gwasanaeth o 125 ym mis Gorffennaf 2022 i 49 ym mis Awst 2024, sef gostyngiad o 61%. Roedd hyn yn gam nodedig o ran lleihau'r ddibyniaeth ar staff sydd wedi'u cofrestru dros dro.

Yn y cyfamser, cynyddodd y gweithlu OV yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon 6% o fis Rhagfyr 2023 i fis Awst 2024, gan godi o 263 i 280.

**Ffigur 34: Cyfradd lwyddo ar gyfer Saesneg System Profi Iaith Saesneg Rhyngwladol (IELTS), Lefel 7**

| Cyfnod | Cyfradd Lwyddo Lefel 7 IELTS |
|---|---|
| Ionawr '23 — Mehefin '23 | 57% |
| Gorffennaf '23 — Rhagfyr '23 | 72% |
| Ionawr '24 — Mehefin '24 | 82% |
| Gorffennaf '24 — Medi '24 | 100% |

Ffynhonnell: ASB — Partner Gwasanaeth Cyflenwi OV

### Vet Track: llwybr recriwtio newydd yr ASB ar gyfer OVs

Mae Vet Track yn llwybr cymhwyso amgen i OVs. Mae'n caniatáu i filfeddygon o brifysgolion achrededig EAEVE weithio o fewn tîm dan arweiniad OV wrth astudio ar gyfer Saesneg Lefel 7 IELTS. Ar ôl iddynt gymhwyso, byddant yn dod yn aelodau o'r RCVS a gallant symud ymlaen i statws OV newydd cyn dod yn OV llawn yn y pen draw.

## Gwasanaethau OV yng Ngogledd Iwerddon

Fel yr amlinellwyd yn gynharach, mae'r ASB yng Ngogledd Iwerddon yn cynnal rheolaethau swyddogol drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda DAERA. Mewn ymateb i heriau parhaus wrth recriwtio milfeddygon swyddogol, yn 2024 dechreuodd DAERA gyflogi contractwyr allanol i ategu ei weithlu milfeddygol am y tro cyntaf.

Mae DAERA yn bwriadu lansio ymgyrch recriwtio yn 2025, gan gynnig pecynnau cyflog a gwobrwyo gwell i ddenu a chadw milfeddygon o fewn yr Adran.

## Gwella recriwtio a chadw OVs yn yr Alban

Mae'r Alban wedi wynebu heriau tebyg o ran adnoddau OVs. Ym mis Rhagfyr 2024, dim ond 79% o'r staff OV angenrheidiol oedd mewn swydd, er bod staff asiantaeth dros dro wedi atal unrhyw darfu ar y gwasanaeth. Yn ystod y flwyddyn, llwyddodd FSS i recriwtio chwech OV dan hyfforddiant, a disgwylir i hyn sefydlogi'r lefelau staffio a lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth, er y bydd hyn yn cymryd o leiaf chwech i wyth mis. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd staff asiantaeth yn gallu parhau i gefnogi gweithrediadau, ond gyda baich cost ychwanegol.

Er mwyn cryfhau ei hadnoddau hirdymor, mae FSS yn parhau i fuddsoddi'n helaeth mewn strategaethau recriwtio a chadw staff, gan gynnig atodiadau cyflog, datblygiad a hyfforddiant proffesiynol, a chyfleoedd i symud ymlaen yn eu gyrfa. Hefyd, enillodd FSS Wobr Arian Achrediad Gweithle Mawr Cymdeithas Milfeddygon Prydain yn 2024/25, sef y practis anghlinigol cyntaf i wneud hynny erioed.

At ei gilydd, mae'r mesurau hyn wedi dechrau dwyn ffrwyth, gyda llai o ddibyniaeth ar staff asiantaethau i lenwi'r swyddi hyn, a defnydd parhaus o raglen hyfforddi FSS ar gyfer OVs ac MHIs. Gwelwyd hefyd fwy o gynnydd yn y milfeddygon domestig a thramor sy'n mynegi diddordeb mewn gweithio yn FSS. Mae'r darlun yn well o lawer na'r blynyddoedd diwethaf, a nod y mesurau hyn yw bod FSS yn gyflogwr deniadol yn y gwasanaeth sifil, ac adeiladu cyflenwad sefydlog o OVs.

# I grynhoi

- **Mae safonau hylendid bwyd wedi aros yn sefydlog, ond mae ôl-groniad sylweddol o arolygiadau hwyr.** O'r rhai a arolygwyd, mae naw o bob deg busnes bwyd yn y DU sydd wedi'u cynnwys yn y CSHB a'r FHIS yn parhau i fod â sgôr hylendid bwyd boddhaol neu well. Er bod nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi rhagori ar lefelau cyn y pandemig am y tro cyntaf, roedd 95,000 o fusnesau yn hwyr yn cael eu harolygu, gan gynnwys 871 o fusnesau risg uchel. Cynyddodd nifer y busnesau heb sgôr sy'n aros am arolygiad hylendid bwyd cychwynnol hefyd.
- **Mae'r mwyafrif helaeth o sefydliadau cig a llaeth yn y DU yn cydymffurfio â safonau hylendid.** Roedd pob sefydliad cig cymeradwy yng Ngogledd Iwerddon a'r mwyafrif yng Nghymru, Lloegr a'r Alban wedi cyflawni sgôr dda neu foddhaol erbyn mis Rhagfyr 2024. Arhosodd cydymffurfiaeth yn uchel yn gyson ymhlith ffermydd llaeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2024, gyda 98.7% i 99.9% yn bodloni'r safonau hylendid gofynnol. Yn yr Alban, er bod mwy o arolygon wedi'u cynnal yn 2023/24 (230) nag yn 2022/23 (73), roedd llai o gamau gorfodi yn ofynnol — 24 yn 2022/23 o gymharu ag 11 yn 2023/24, wrth i gwmpas yr archwiliadau ehangu y tu hwnt i'r ffocws uniongyrchol ar ffermydd risg uwch ar ôl y pandemig.
- **Mae adnoddau safonau a hylendid bwyd awdurdodau lleol yn parhau i fod dan bwysau.** Er bod lefelau staffio wedi codi mewn ambell wlad yn ystod 2023/24, bu dirywiad tymor hwy mewn swyddi hylendid bwyd (-15.4%) a safonau bwyd (-43.8%) sydd wedi'u llenwi ers 2010/11 yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn yr Alban, roedd 20% o gyfanswm y rolau diogelwch bwyd a ddyrannwyd heb fod ar gael neu'n wag ar ddiwedd 2024. Mae awdurdodau lleol yn dal i gael trafferth mynd i'r afael â'r ôl-groniadau ar ôl y pandemig, gyda niferoedd uchel o fusnesau heb sgôr yn aros am eu harolygiadau cyntaf — a allai effeithio ar oruchwyliaeth a sicrwydd diogelwch bwyd.
- **Mae'r broses o recriwtio OVs wedi gwella ond mae'n parhau i fod yn heriol.** Lleihaodd yr ASB yng Nghymru a Lloegr ei dibyniaeth ar TRNOVs fel cyfran o weithlu'r OV o 46% i 18% a chyflwynodd lwybr recriwtio a chymhwyso newydd ar gyfer ymgeiswyr tramor. Yn yr Alban, arhosodd adnoddau OV FSS 21% islaw'r lefelau gofynnol yn 2024, gan olygu bod angen staff asiantaeth dros dro i wella'r capasiti. Mae FSS yn parhau i fuddsoddi'n helaeth mewn hyfforddiant, cyflogau a datblygiad gyrfa i ddenu staff, ac mae wedi llwyddo i recriwtio chwe aelod staff OV ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Yng Ngogledd Iwerddon, er mwyn mynd i'r afael â heriau parhaus wrth recriwtio OVs swyddogol, dechreuodd DAERA ategu ei gweithlu milfeddygol gyda chontractwyr allanol yn 2024. Mae'n bwriadu lansio ymgyrch recriwtio wedi'i thargedu yn 2025, gan gynnig cyflog a chymhellion gwell yn ystod 2025. Mae lleihau prinderau staff ac adeiladu cyflenwad o OVs yn y dyfodol yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol i bob sefydliad, a hynny er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i gael eu diogelu ac i gefnogi'r diwydiant cig i gynhyrchu bwyd diogel.

# Diogelwch a dilysrwydd

## Digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid, samplu gwyliadwriaeth a throseddau bwyd

## Cipolwg

**Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried y canlynol:**

- nifer a natur y digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid a hysbyswyd i'r ASB ac FSS yn 2024
- y canfyddiadau diweddaraf o raglenni samplu a gwyliadwriaeth bwyd yr ASB ac FSS
- gweithgarwch a ffocws ein hunedau troseddau bwyd

# Cyflwyniad

**Dylai pobl fod yn hyderus bod y bwyd maen nhw'n ei brynu yn ddiogel i'w fwyta, yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, ac wedi bodloni'r holl safonau angenrheidiol. Ar ôl busnesau bwyd ac awdurdodau lleol, yr ASB ac FSS yw'r drydedd linell amddiffyn ym maes diogelwch bwyd. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i nodi a chanfod problemau sy'n dod i'r amlwg o fewn ein cadwyn fwyd, ac yn cymryd camau gweithredu, yn uniongyrchol a thrwy bartneriaid gorfodi i ddiogelu defnyddwyr.**

## Digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid

Diffinnir digwyddiad bwyd a/neu fwyd anifeiliaid fel unrhyw ddigwyddiad lle mae pryderon ynghylch diogelwch, ansawdd neu ddilysrwydd bwyd neu fwyd anifeiliaid ac y gallai fod angen ymyrryd i ddiogelu defnyddwyr. Mae'r ASB ac FSS yn cael gwybod am ddigwyddiadau gan wahanol ffynonellau, gan gynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd porthladdoedd, cyrff cenedlaethol a rhyngwladol, y diwydiant, a defnyddwyr.

Yn 2024, adroddwyd am 1,903[41] o ddigwyddiadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid i'r ASB ac FSS, sef gostyngiad o tua 2% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (Ffigur 35).

Bu gostyngiad yn nifer cyffredinol y digwyddiadau ers 2020. Gallai hyn fod oherwydd newidiadau i'r ffordd y caiff digwyddiadau eu rheoli a'u cofnodi, fel y disgrifir yn Ein Bwyd 2023.

### Deall data digwyddiadau bwyd

Nid yw newidiadau yn nifer y digwyddiadau a hysbysir o reidrwydd yn adlewyrchu newid yn amlder na difrifoldeb digwyddiadau. Mae hyn oherwydd y gall ffactorau amrywiol effeithio ar nifer y digwyddiadau y mae'r ASB ac FSS yn cael gwybod amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys rheoliadau newydd a diwygiedig, newidiadau mewn arferion defnyddwyr, neu welliannau mewn canfod ac adrodd. Yn yr adran hon, rydym wedi ceisio egluro a rhoi cyd-destun i unrhyw dueddiadau i gefnogi ein dehongliad.

**Ffigur 35: Nifer y digwyddiadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a nodwyd yn y DU rhwng 2020 a 2024**

| Blwyddyn | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Digwyddiadau a nodwyd | 2,261 | 2,363 | 2,221 | 1,935 | 1,903 |

Ffynhonnell: ASB ac FSS

## Categorïau bwyd sydd fwyaf cysylltiedig â digwyddiadau

Mae dadansoddi'r categorïau bwyd sydd fwyaf cysylltiedig â digwyddiadau yn helpu i nodi gwendidau allweddol, gan ei gwneud yn bosib targedu camau gweithredu lle bo angen. Mae hefyd yn cryfhau ein gweithgareddau cudd-wybodaeth a monitro, sy'n llywio gwaith samplu, yn ogystal â blaenoriaethau ein hunedau troseddau bwyd cenedlaethol.

Mae'r un chwe chategori o gynnyrch wedi bod yn gysylltiedig â'r nifer uchaf o ddigwyddiadau yn gyson ers 2020 (Ffigur 36).

Yn 2024, dyma'r categorïau oedd â'r gyfran uchaf o ddigwyddiadau bwyd:

- Roedd **cig a chynhyrchion cig** (ac eithrio dofednod) yn cyfrif am 15% o'r digwyddiadau a nodwyd yn 2024. Roedd y digwyddiadau hyn yn gysylltiedig yn bennaf â halogiad microbiolegol, presenoldeb gweddillion milfeddygol[42] a materion sy'n gysylltiedig â rheolaethau diogelwch bwyd gwael neu annigonol.[43]
- **Bwydydd deietetig,**[44] atchwanegiadau bwyd a bwydydd cyfnerthedig oedd â'r ail gyfran uchaf o ddigwyddiadau a hysbyswyd yn 2024, gan gyfrif am 9% o'r holl ddigwyddiadau. O fewn y categori bwyd hwn, roedd 73 (41%) o'r 179 o ddigwyddiadau yn ymwneud â bwydydd newydd.[45] Roedd y rhain yn gysylltiedig yn bennaf â bwydydd nad ydynt wedi'u hawdurdodi, ac yn cynnwys cynhyrchion sy'n cynnwys CBD (canabidiol) ac atchwanegiadau bwyd sy'n cynnwys rhai madarch. Ar draws pob math o fwyd, cynyddodd nifer y digwyddiadau yn ymwneud â bwydydd newydd o 59 yn 2020 i 106 yn 2024.
- Roedd **prydau parod a byrbrydau** yn gysylltiedig â 7% o ddigwyddiadau yn 2024. Roeddent yn ymwneud yn bennaf â phresenoldeb alergenau heb eu datgan, halogiad microbiolegol (*Listeria monocytogenes* oedd y perygl mwyaf cyffredin a ganfuwyd), a phresenoldeb halogion ffisegol fel darnau o blastig, gwydr neu fetel.
- Cyfrannodd **grawnfwydydd a chynhyrchion popty** 7% at gyfanswm y digwyddiadau a nodwyd yn 2024. Presenoldeb alergenau heb eu datgan, halogion ffisegol, a gweddillion plaladdwyr oedd y problemau mwyaf cyffredin ymhlith y digwyddiadau hyn.
- Roedd **cig dofednod a chynhyrchion dofednod** yn cyfrif am 6% o'r holl ddigwyddiadau a nodwyd yn 2024. Roedd dros hanner (58%) y digwyddiadau hyn yn cynnwys *Salmonela*.

**Ffigur 36: Y pum prif gategori bwyd sydd wedi'u cynnwys mewn digwyddiadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a nodwyd rhwng 2020 a 2024**

| Safle (1-5) | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cig a chynhyrchion cig (ac eithrio dofednod) **Cyfanswm: 243** 11% o'r holl ddigwyddiadau | Cig a chynhyrchion cig (ac eithrio dofednod) **Cyfanswm: 254** 11% o'r holl ddigwyddiadau | Cig a chynhyrchion cig (ac eithrio dofednod) **Cyfanswm: 284** 13% o'r holl ddigwyddiadau | Cig a chynhyrchion cig (ac eithrio dofednod) **Cyfanswm: 305** 16% o'r holl ddigwyddiadau | Cig a chynhyrchion cig (ac eithrio dofednod) **Cyfanswm: 290** 15% o'r holl ddigwyddiadau |
| 2 | Grawnfwydydd a chynhyrchion popty **Cyfanswm: 157** 7% o'r holl ddigwyddiadau | Cig dofednod a chynhyrchion dofednod **Cyfanswm: 238** 10% o'r holl ddigwyddiadau | Bwydydd deietegol / Atchwanegiadau bwyd / Bwydydd cyfnerthedig **Cyfanswm: 192** 9% o'r holl ddigwyddiadau | Grawnfwydydd a chynhyrchion popty **Cyfanswm: 162** 8% o'r holl ddigwyddiadau | Bwydydd deietegol / Atchwanegiadau bwyd / Bwydydd cyfnerthedig **Cyfanswm: 179** 9% o'r holl ddigwyddiadau |
| 3 | Bwydydd deietegol / Atchwanegiadau bwyd / Bwydydd cyfnerthedig **Cyfanswm: 136** 6% o'r holl ddigwyddiadau | Bwydydd deietegol / Atchwanegiadau bwyd / Bwydydd cyfnerthedig **Cyfanswm: 207** 9% o'r holl ddigwyddiadau | Grawnfwydydd a chynhyrchion popty **Cyfanswm: 189** 9% o'r holl ddigwyddiadau | Bwydydd deietegol / Atchwanegiadau bwyd / Bwydydd cyfnerthedig **Cyfanswm: 137** 7% o'r holl ddigwyddiadau | Prydau wedi'u paratoi a byrbrydau **Cyfanswm: 142** 7% o'r holl ddigwyddiadau |
| 4 | Ffrwythau a llysiau **Cyfanswm: 129** 6% o'r holl ddigwyddiadau | Grawnfwydydd a chynhyrchion popty **Cyfanswm: 139** 6% o'r holl ddigwyddiadau | Cig dofednod a chynhyrchion dofednod **Cyfanswm: 151** 7% o'r holl ddigwyddiadau | Prydau wedi'u paratoi a byrbrydau **Cyfanswm: 134** 7% o'r holl ddigwyddiadau | Grawnfwydydd a chynhyrchion popty **Cyfanswm: 128** 7% o'r holl ddigwyddiadau |
| 5 | Cig dofednod a chynhyrchion dofednod **Cyfanswm: 114** 5% o'r holl ddigwyddiadau | Ffrwythau a llysiau **Cyfanswm: 118** 5% o'r holl ddigwyddiadau | Prydau wedi'u paratoi a byrbrydau **Cyfanswm: 123** 6% o'r holl ddigwyddiadau | Ffrwythau a llysiau **Cyfanswm: 128** 7% o'r holl ddigwyddiadau | Cig dofednod a chynhyrchion dofednod **Cyfanswm: 105** 6% o'r holl ddigwyddiadau |

- Cig a chynhyrchion cig (ac eithrio dofednod)
- Ffrwythau a llysiau
- Grawnfwydydd a chynhyrchion popty
- Cig dofednod a chynhyrchion dofednod
- Prydau wedi'u paratoi a byrbrydau
- Bwydydd deietegol / Atchwanegiadau bwyd / Bwydydd cyfnerthedig

Ffynhonnell: ASB ac FSS

## Halogiad gan ficro-organebau niweidiol

Mae pathogenau — micro-organebau sy'n niweidiol i bobl — yn digwydd yn naturiol yn yr amgylchedd, ac mae system rheoleiddio bwyd y DU wedi'i chynllunio i leihau'r risg y caiff bwyd ei halogi ganddynt mewn ffordd a allai achosi salwch. Gall symptomau amrywio o fod yn rhai ysgafn (er enghraifft, salwch gastroberfeddol) i rai sy'n peryglu bywyd. Pan fydd digwyddiad bwyd a/neu fwyd anifeiliaid sy'n cynnwys pathogenau, mae'n hanfodol gweithredu'n gyflym i nodi'r ffynhonnell a lleihau niwed posib i ddefnyddwyr.

Micro-organebau pathogenig oedd y perygl mwyaf cyffredin mewn digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid yn 2024, gan gyfrif am 23% o'r holl achosion a hysbyswyd (Ffigur 37). Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau yn ymwneud ag achosion o glefydau a gludir gan fwyd neu glystyrau o achosion a oedd yn peri pryder digonol i'w gwneud yn ofynnol i ymchwiliad gael ei gynnal.

**Ffigur 37: Nifer y digwyddiadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n ymwneud â halogiad gan ficro-organebau niweidiol yn y DU rhwng 2020 a 2024**

| Blwyddyn | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Micro-organebau pathogenig | 430 (19%) | 582 (25%) | 646 (29%) | 453 (23%) | 436 (23%) |

Sylwer: Y testun mewn cromfachau yw canran cyfanswm y digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid ar gyfer y flwyddyn. Gall y ffigurau cyn 2024 fod yn wahanol i adroddiadau blaenorol oherwydd addasiadau wrth gategoreiddio digwyddiadau microbiolegol.

Ffynhonnell: ASB ac FSS

Ymhlith y digwyddiadau hyn, y micro-organebau a nodwyd amlaf oedd:

- ***Salmonela***, a oedd yn gyfrifol am 43% o'r achosion a hysbyswyd, gyda dofednod a chynhyrchion cig yn y categorïau bwyd yr effeithir arnynt amlaf.
- ***E. coli***, a oedd yn gysylltiedig â 22% o'r digwyddiadau, a geir yn gyffredin mewn pysgod cregyn. Roedd y rhain hefyd yn cynnwys digwyddiadau yn ymwneud ag ***E. coli*** **sy'n cynhyrchu shiga-tocsin (STEC)**, a oedd yn gysylltiedig ag 8% o'r digwyddiadau yn ymwneud â micro-organebau niweidiol ac a ganfuwyd mewn cig a chynhyrchion cig a chynnyrch llaeth, ymhlith mathau eraill o fwyd.
- ***Listeria monocytogenes***, sy'n gysylltiedig â 14% o'r digwyddiadau ac a ganfuwyd ar draws gwahanol fathau o fwyd, gan gynnwys llaeth a chynhyrchion llaeth (caws yn bennaf), a phrydau parod a byrbrydau.

## Digwyddiadau bwyd yn ymwneud ag alergenau

Gall alergenau achosi adweithiau alergaidd difrifol mewn unigolion sydd â gorsensitifrwydd. Yn y DU, amcangyfrifir bod gan tua 2.4 miliwn o oedolion alergedd bwyd sydd wedi'i gadarnhau'n glinigol.[46]

Rhwng 2023 a 2024, gwelwyd gostyngiad o 11% yn nifer y digwyddiadau a hysbyswyd yn ymwneud ag alergenau yn y DU, ond arhosodd o fewn yr ystod hanesyddol ers 2020 (Ffigur 38). Fodd bynnag, alergenau oedd yr ail gategori uchaf o ddigwyddiadau a gofnodwyd gan FSS, gyda'r niferoedd yn codi o 18 i 30 o gymharu â 2023.

**Ffigur 38: Nifer y digwyddiadau bwyd sy'n ymwneud ag alergenau ledled y DU rhwng 2020 a 2024**

| Blwyddyn | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Alergenau | 240 | 272 | 322 | 299 | 267 |

Ffynhonnell: ASB ac FSS

### Cynhyrchion mwstard wedi'u halogi â physgnau

Ym mis Medi 2024, cynhaliodd yr ASB ac FSS ymchwiliad ar ôl i fusnes bwyd roi gwybod ei fod wedi darganfod rhywfaint o bysgnau mewn powdr mwstard a gafwyd gan gyflenwr. Cyhoeddwyd cyngor brys ar alergeddau yn cynghori'r rheiny ag alergedd i bysgnau i osgoi bwyta bwydydd a oedd yn cynnwys mwstard, powdr mwstard neu flawd mwstard tra bod ymchwiliadau'n mynd rhagddynt.

Gwnaeth yr ymchwiliad olrhain y cynhwysion mwstard halogedig i bedwar cyflenwr o India a thri chwmni sbeis yn y DU, a ddosbarthodd y cynhwysion hyn i amrywiaeth o fusnesau gweithgynhyrchu, lletygarwch a manwerthu. Arweiniodd hyn at alw a thynnu cynhyrchion yn ôl ar draws y gadwyn gyflenwi. O fis Medi i fis Tachwedd 2024, cyhoeddodd yr ASB ac FSS dri rhybudd alergedd a 31 o rybuddion dilynol,[47] gan effeithio ar 59 o frandiau a 307 o gynhyrchion.

Ym mis Tachwedd 2024, ar ôl cadarnhau bod yr holl fesurau diogelwch bwyd angenrheidiol ar waith ac nad oedd cynhyrchion yr effeithiwyd arnynt yn cael eu gwerthu rhagor, gwnaeth yr ASB ac FSS lacio'r cyngor rhagofalus. Mae profion uwch ar gynhyrchion mwstard bellach ar waith fel mesur diogelu i sicrhau nad oes unrhyw gynhyrchion pellach a allai fod wedi'u croeshalogi yn cyrraedd y farchnad, gan alluogi defnyddwyr i fod yn hyderus wrth fwynhau'r bwydydd hyn.

## Rhybuddion bwyd a hysbysiadau galw'n ôl

Pan nodir digwyddiad bwyd, caiff ymchwiliad ei gynnal i sicrhau bod unrhyw fwyd niweidiol yn cael ei dynnu oddi ar y farchnad. Fel arfer, bydd busnesau yn galw neu'n tynnu'n ôl y cynhyrchion yr effeithir arnynt, neu gynhyrchion y gallai'r digwyddiad fod wedi effeithio arnynt. Mae'r camau gweithredu hyn yn cael eu harwain gan y diwydiant ac awdurdodau lleol, gan gydweithio'n agos â rheoleiddwyr.

I gefnogi hyn, bydd yr ASB ac FSS yn aml yn cyhoeddi rhybuddion (ar-lein) i hysbysu defnyddwyr a busnesau bwyd am gynhyrchion sy'n cael eu galw'n ôl ac yn cynghori ar unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol.

## Rhybuddion alergeddau

Cyhoeddir rhybudd alergedd pan gaiff cynnyrch ei alw'n ôl oherwydd alergenau heb eu datgan (gan gynnwys labelu nad yw yn Saesneg) neu labelu alergenau anghywir ar y cynnyrch.

Yn 2024, cynyddodd nifer y rhybuddion alergedd a gyhoeddwyd gan yr ASB ac FSS 58% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (Ffigur 39). Roedd tua thraean o'r holl rybuddion alergedd yn 2024 o ganlyniad i'r digwyddiad mawr, sef cynhyrchion mwstard wedi'u halogi â physgnau.

Arweiniodd y digwyddiad hwn at 34 o rybuddion alergedd (pob un yn cynnwys rhestrau o'r cynhyrchion a oedd yn cael eu galw'n ôl), ac roedd yn cyfrif am 79% o'r holl rybuddion am bysgnau a gyhoeddwyd yn 2024. At ei gilydd, cyhoeddwyd 43 o rybuddion yn ymwneud â physgnau yn 2024, sef 5.7 gwaith yn uwch na nifer cyfartalog a gyhoeddwyd dros y pedair blynedd blaenorol (Ffigur 40). Priodolir y cynnydd hwn i'r digwyddiad halogi uchod.


**Ffigur 39: Cyfanswm y rhybuddion alergedd a gyhoeddwyd gan yr ASB ac FSS rhwng 2020 a 2024**

| Blwyddyn | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhybuddion Alergedd | 77 | 83 | 83 | 64 | 101 |

Ffynhonnell: ASB ac FSS

Roedd llaeth yn parhau i fod yn un o'r alergenau amlaf heb eu datgan ar labeli bwyd, a dyma oedd yr ail reswm mwyaf cyffredin dros gyhoeddi rhybudd alergedd yn 2024 (Ffigur 40), er gwaethaf gostyngiad o gymharu â 2023. Arhosodd nifer y rhybuddion alergedd yn ymwneud ag alergenau eraill yn gymharol sefydlog o gymharu â 2023. Fodd bynnag, bu cynnydd bach yn nifer y rhybuddion yn ymwneud â sylffwr deuocsid a soia, tra bod rhybuddion yn ymwneud ag wyau wedi gostwng.

**Ffigur 40: Nifer y rhybuddion alergedd yn ôl y math o alergen rhwng 2020 a 2024**




Ffynhonnell: ASB ac FSS

## Hysbysiadau galw cynhyrchion yn ôl (PRINs)

Cyhoeddir hysbysiad galw cynnyrch yn ôl (PRIN) pan fydd pryderon am ddiogelwch cynnyrch, gan amlaf oherwydd halogiad, cambecynnu neu gamlabelu cynhyrchion.

Arhosodd cyfanswm y PRINs a gyhoeddwyd yn 2024 o fewn yr amrywiad hanesyddol ers 2020 (Ffigur 41), ac roedd y rhesymau dros y rhybuddion yn debyg i rai 2023:

- Roedd 40% yn ymwneud â phryderon ynghylch presenoldeb deunyddiau estron, gan gynnwys metel, gwydr, plastig neu rwber.
- Roedd 39% yn gysylltiedig â'r potensial ar gyfer halogiad microbiolegol.
- Roedd 21% yn gysylltiedig â phryderon ynghylch dyddiadau 'defnyddio erbyn' anghywir, mesurau rheoli hylendid gwael, neu faterion diogelwch eraill.

**Ffigur 41: Cyfanswm y PRINs a gyhoeddwyd yn y DU rhwng 2020 a 2024**

| Blwyddyn | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| PRINs | 66 | 67 | 81 | 65 | 67 |

Ffynhonnell: ASB ac FSS

## Rhybudd bwyd er gweithredu (FAFA)

Cyhoeddir rhybudd bwyd er gweithredu (FAFA) ar gyfer awdurdodau lleol a defnyddwyr pan fydd dosbarthiad cynhyrchion yn llai amlwg neu pan na fydd busnes bwyd yn cymryd y camau gofynnol i dynnu cynhyrchion oddi ar y farchnad, a bod angen i awdurdodau lleol gymryd camau unioni.

Mae'r nifer isel o FAFAs a gyhoeddwyd ers 2020 yn awgrymu bod y rhan fwyaf o fusnesau bwyd yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio. Fodd bynnag, cynyddodd nifer y FAFAs o un yn 2023 i saith yn 2024 (Ffigur 42). Roedd y rhain yn cynnwys pedwar rhybudd cychwynnol a thri diweddariad lle nodwyd cynhyrchion a/neu fusnesau pellach yr effeithiwyd arnynt, gan fynd i'r afael â'r digwyddiadau canlynol:

- **halogiad *Listeria monocytogenes*** mewn cynhyrchion oer a chynhyrchion parod i'w bwyta, gan gynnwys cynhyrchion bara a saladau pasta — un rhybudd ac un diweddariad.
- **pryderon diogelwch ynghylch cynhyrchion cig eidion, porc a chyw iâr** o ffatri dorri a fethodd â bodloni gofynion diogelwch a hylendid bwyd — un rhybudd a dau ddiweddariad.
- darganfod poteli o **fodca ffug a oedd yn cynnwys alcohol isopropyl**, gan annog awdurdodau lleol i chwilio am gynhyrchion yr effeithiwyd arnynt a'u tynnu oddi ar y farchnad — un rhybudd.
- galw yn ôl bob **cynnyrch mwstard a sbeis** a oedd yn cynnwys mwstard a gafodd eu cyflenwi a'u gweithgynhyrchu gan gwmni sbeis yn y DU oherwydd halogiad â physgnau — un rhybudd.

**Ffigur 42: Cyfanswm y FAFAs a gyhoeddwyd yn y DU rhwng 2020 a 2024**

| Blwyddyn | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| FAFA | 1 | 0 | 0 | 1 | 7 |

Ffynhonnell: ASB ac FSS



## Samplu gwyliadwriaeth bwyd

Mae'r ASB ac FSS yn cynnal rhaglenni gwyliadwriaeth cenedlaethol i helpu i nodi risgiau diogelwch, safonau a dilysrwydd posib a gweithio gyda phartneriaid cyflawni i fynd i'r afael â nhw. Mae'r rhaglenni gwyliadwriaeth hyn wedi'u targedu'n benodol at feysydd lle mae risgiau a gwendidau posib, felly mae mwy o debygolrwydd y byddant yn nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio nag y byddem yn disgwyl ei weld mewn sampl a ddewiswyd ar hap. Nid yw'r canlyniadau felly yn cynrychioli safonau bwyd cyffredinol y DU. Mae'r ddau arolwg wedi'u cynllunio ar wahân, yn seiliedig ar gudd-wybodaeth neu wybodaeth sy'n berthnasol i'r gadwyn fwyd mewn ardaloedd perthnasol o'r DU, a chan fod nwyddau gwahanol yn cael eu targedu, ni ellir cymharu canlyniadau arolygon yr ASB ac FSS.

Fodd bynnag, mae'r ddau arolwg yn cynnig mewnwelediadau gwerthfawr a fydd yn helpu asiantaethau diogelwch bwyd cenedlaethol, y diwydiant ac awdurdodau gorfodi i ymateb i faterion posib o fewn y gadwyn fwyd.

Mae canfyddiadau diweddaraf ein harolygon targededig wedi'u crynhoi isod.

## Arolwg targededig yr ASB yn 2024/25

**Yr hyn a brofwyd gennym**

Casglwyd cyfanswm o 445 o samplau (30–60 o samplau'n cwmpasu pob un o'r 13 o gynhyrchion gwahanol) ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o fis Gorffennaf 2024 i fis Medi 2024. Cawsant eu profi am bresenoldeb alergenau a halogion, dilysrwydd, cyfansoddiad, cywirdeb labelu, a chydymffurfiaeth â safonau gwybodaeth bwyd.

Roedd y nwyddau a samplwyd ar gyfer y rhaglen hon yn cynnwys bwydydd a dargedwyd ar gyfer gwyliadwriaeth oherwydd risgiau diogelwch a dilysrwydd hysbys neu bosib, neu broblemau blaenorol o ran cydymffurfio. Yn debyg i arolwg 2023/24, casglwyd cyfran uwch o samplau (66%) gan fusnesau bwyd bach gan fod canlyniadau blaenorol yn dangos bod mwy o fanwerthwyr bach yn methu â chydymffurfio o gymharu â chadwyni archfarchnadoedd mwy.

**Yr hyn a ganfuwyd gennym**

- Y **gyfradd gydymffurfio gyffredinol** ar gyfer y cynhyrchion bwyd a samplwyd yn arolwg 2024/25 oedd 77% (344/445 o samplau).

- Roedd 86% o fwydydd a samplwyd o **archfarchnadoedd a busnesau bwyd mawr eraill** yn cydymffurfio â'r rheoliadau, tra bod 73% o samplau o fusnesau bwyd bach yn cydymffurfio. Ni ddylid ystyried y canlyniadau hyn yn gynrychioliadol o'r diwydiant bwyd cyfan gan fod gwyliadwriaeth wedi'i thargedu at ardaloedd risg uchel.

- Profwyd **cynhyrchion bara** am bresenoldeb alergenau a chydymffurfiaeth â gofynion labelu, a oedd, fel rhan o arolwg 2024/25, yn cynnwys gwirio labelu'n llawn yn wahanol i'r arolygon blaenorol lle roedd labeli'n cael eu gwirio am alergenau yn unig. Roedd naw o'r 35 o samplau o fara a brofwyd (26%) yn cydymffurfio, gan arwain at y gyfradd gydymffurfio isaf ymhlith y nwyddau a brofwyd eleni. Canfuwyd presenoldeb alergenau (llaeth) heb eu datgan mewn dwy o'r samplau bara. Nid oedd 26 o'r samplau'n cydymffurfio â gofynion labelu a amlinellir mewn rheoliadau a/neu ganllawiau i'r diwydiant. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â gwallau fformatio neu unedau ar gyfer gwybodaeth faethol neu wallau fformatio ar gyfer gwybodaeth sy'n nodi am pa mor hir fydd bwyd yn para (er enghraifft, dyddiadau 'ar ei orau cyn' a 'defnyddio erbyn'). Roedd problemau labelu eraill yn cynnwys alergenau'n cael eu datgan ond heb eu pwysleisio'n briodol na'u disgrifio'n gywir, a datganiadau alergenau ar goll neu heb eu geirio yn ôl canllawiau'r diwydiant.

- Dadansoddwyd samplau o **oregano** am ddilysrwydd a phresenoldeb halogion. Roedd 20 o'r 30 o samplau a brofwyd (67%) yn cydymffurfio. Roedd 5 o'r samplau nad oeddent yn cydymffurfio'n cynnwys mwy na 0.1%[48] o fathau eraill o ddail, fel dail olewydd, saets, teim neu fyrtwydd, ac fe'u hystyriwyd yn annilys. Ni chanfuwyd mycotocsinau na metelau trwm yn unrhyw un o'r samplau a brofwyd, tra bod halogion ffisegol, fel plastig a darnau pryfed, yn bresennol mewn wyth ohonynt.

- Profwyd **selsig** am gynnwys cig, presenoldeb rhywogaethau cig nad oeddent wedi'u cynnwys ar y label a chydymffurfiaeth â safonau labelu. Roedd 27 o'r 40 o samplau a brofwyd yn cydymffurfio (68%). O'r 13 o samplau nad oeddent yn cydymffurfio, roedd naw yn cynnwys llai o gig nag a ddatganwyd ac roedd pedwar yn cynnwys rhywogaethau cig heb eu datgan ar lefelau sy'n awgrymu arfer cynhyrchu gwael, yn hytrach nag amnewid bwriadol.

- Profwyd **prydau parod cyw iâr** hefyd am gyfansoddiad, presenoldeb unrhyw rywogaethau cig heb eu datgan a chydymffurfiaeth â gofynion labelu. O'r 30 o samplau a brofwyd, roedd 21 yn cydymffurfio (70%). Roedd yr holl samplau'n cydymffurfio o ran dilysrwydd, sy'n golygu na chanfuwyd rhywogaethau eraill o gig. Fodd bynnag, roedd saith sampl yn cynnwys llai o gig nag a ddatganwyd, ac nid oedd dwy sampl yn cydymffurfio oherwydd problemau labelu lle'r oedd datganiad o gynnwys cig ar goll.

- Profwyd samplau o **friwgig** am gyfansoddiad a chydymffurfiaeth â safonau labelu. Roedd 29 o'r 40 o samplau a brofwyd yn cydymffurfio (73%). O'r 11 o samplau nad oeddent yn cydymffurfio, roedd gan naw broblemau labelu, gan gynnwys disgrifiadau anghywir o'r cynnyrch a gwybodaeth anghywir am faeth. Roedd un o'r rhain a dwy sampl arall yn cynnwys braster uwchlaw'r lefel ar gyfer disgrifiad y cynnyrch (er enghraifft, briwgig heb lawer o fraster neu friwgig pur).

- Profwyd **olew olewydd** am gyfansoddiad, dilysrwydd a chydymffurfiaeth â gofynion labelu. Roedd y gyfradd gydymffurfio ar gyfer y 30 o samplau o olew olewydd yn 80%. O'r chwe sampl nad oeddent yn cydymffurfio, nid oedd tri yn bodloni'r gofyniad cyfansoddiadol ar gyfer ffresni'r olew,[49] gydag un ohonynt hefyd yn methu oherwydd problemau labelu. Nid oedd dwy sampl yn bodloni'r safon cyfansoddol ar gyfer olew olewydd tra phur,[50] ac nid oedd un yn cydymffurfio â gofynion labelu o ran disgrifio'r math o olew.

- Profwyd 30 o samplau o **laeth** am gynnwys braster a gofynion labelu ac roedd 80% ohonynt yn cydymffurfio. Roedd tair sampl o laeth cyflawn a dwy sampl o laeth hanner sgim yn cynnwys llai o fraster na'r hyn a ganiateir gan y rheoliadau,[51] tra bod un sampl o laeth hanner sgim yn cynnwys mwy o fraster na'r hyn a ganiateir.

- Profwyd cynhyrchion figan a chynhyrchion ‘rhydd rhag’ am bresenoldeb alergenau a chydymffurfiaeth â gofynion labelu ac roedd 87% ac 85% ohonynt yn cydymffurfio, yn y drefn honno. Roedd un o’r 30 o samplau o **gynhyrchion figan**, a oedd yn cynnwys cacennau a phwdinau, yn cynnwys llaeth heb ei ddatgan. Nid oedd pedair sampl yn cydymffurfio oherwydd problemau labelu. Ni chanfuwyd alergenau yn unrhyw un o’r 60o samplau o gynhyrchion **‘rhydd rhag’** a brofwyd. Nid oedd naw o’r samplau hyn yn bodloni safonau labelu.

- Profwyd reis basmati a phasta gwenith caled am ddilysrwydd. Roedd 87% o’r samplau ar gyfer **reis basmati** yn cydymffurfio, gyda phedair o’r 30 o samplau a brofwyd yn methu’r profion dilysrwydd. O’r 30 o samplau o **basta gwenith caled**, roedd un (3%) yn cynnwys gwenith nad oedd yn galed ac felly, nid oedd yn cydymffurfio.

- Nid oedd un (3%) allan o 30 o samplau o **sudd oren** yn cydymffurfio â gofynion labelu. Roedd yr holl samplau a brofwyd yn cydymffurfio o ran cyfansoddiad a phresenoldeb lliwiau heb eu hawdurdodi.

- Roedd gan **dyrmerig** gyfradd gydymffurfio o 97%. Ni chanfuwyd mycotocsinau na metelau trwm yn unrhyw un o’r 30 o samplau a brofwyd, ond roedd lliw heb ei awdurdodi yn bresennol mewn un.

## Rhaglen samplu halogion cemegol a chyfansoddol FSS

**Yr hyn a brofwyd gennym**

O fis Gorffennaf 2023 i fis Mehefin 2024, canolbwyntiodd rhaglen FSS ar naw nwydd bwyd a ddewiswyd ar sail gwybodaeth a gafwyd o samplu blaenorol, gwaith sganio'r gorwel a materion a nodwyd gan awdurdodau lleol yn eu gweithgareddau arferol. Casglwyd cyfanswm o 649 o samplau (42–85 o samplau fesul nwydd) gan fanwerthwyr, gweithgynhyrchwyr a sefydliadau arlwyo a'u profi am ddilysrwydd, cyfansoddiad, presenoldeb alergenau a halogion. Roedd y rhaglen yn targedu'r meysydd canlynol:

- mycotocsinau mewn ffigys sych
- metelau trwm mewn ysbigoglys
- braster a meinwe gyswllt mewn briwgig wedi'i becynnu ymlaen llaw
- asid propionig (cyffeithydd) mewn bara naan a bara fflat arall
- rhywogaethau cig mewn cynhyrchion porc wedi'u prosesu a'u rhewi
- rhywogaethau cig mewn cynhyrchion cig eidion wedi'u prosesu a'u rhewi
- plwm mewn anifeiliaid hela gwyllt (er mwyn asesu beth sy'n cael ei drosglwyddo o fwledi)
- protein llaeth mewn coffi wedi'i wneud o ddewisiadau heb gynnwys cynnyrch llaeth[52]
- protein wyau mewn prydau a ddisgrifir fel rhai heb wyau mewn sefydliadau arlwyo[53]

**Yr hyn a ganfuwyd gennym**

- Roedd y **gyfradd gydymffurfio gyffredinol** ar gyfer y rhaglen yn 86% (557/649 o samplau), gyda bron i dri chwarter (74%) o'r 92 o achosion o ddiffyg cydymffurfio yn gysylltiedig â phresenoldeb alergenau.
- O'r bwydydd a samplwyd, **lattes di-laeth** oedd â'r gyfradd uchaf o ddiffyg cydymffurfio, gyda 58 o'r 68 o samplau (85%) yn cynnwys protein llaeth uwchlaw'r lefelau a argymhellir, sef 0.2mg/dogn.[54] Roedd dwy sampl yn cynnwys protein llaeth ar lefel uwchlaw 10mg/dogn, sy'n codi pryderon. Mae presenoldeb protein llaeth yn y diodydd hyn yn dangos y gall croes-gyswllt ddigwydd wrth eu paratoi a gall beri risg ddifrifol i unigolion sydd ag alergedd i laeth. Mae FSS yn gweithio ar strategaeth atal digwyddiadau i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag alergenau mewn caffis a sefydliadau arlwyo eraill.
- Roedd gan ddeg (14%) allan o 70 o samplau o **brydau tecawê heb wyau** brotein wy uwchlaw'r lefelau a argymhellir o 0.2mg/dogn[55] ac o'r herwydd, nid oeddent yn cydymffurfio. Roedd un o'r samplau hyn yn cynnwys lefelau o brotein wy uwchlaw 10mg/dogn. Mae'n bosib bod y canlyniadau hyn hefyd oherwydd croes-gyswllt wrth baratoi bwyd, a gallant beri risg i unigolion sydd ag alergedd i wyau.
- O'r 79 o samplau o **fara naan a bara fflat eraill**, fel pitta a tortillas, nid oedd 16 ohonynt (20%) yn cydymffurfio oherwydd lefelau uchel o asid propionig, a oedd yn uwch na'r terfynau cyfreithiol ar gyfer y cyffeithydd hwn.
- Roedd pob un o'r 166 o samplau o **borc wedi'i brosesu a'i rewi a chynhyrchion cig eidion wedi'u prosesu a'u rhewi**, a oedd yn cynnwys selsig a byrgyrs, yn cydymffurfio â rheolau rhywogaethau cig, sy'n golygu mai dim ond y rhywogaethau cig a ddatganwyd ar y labeli oedd yn bresennol.
- Nid oedd chwech (8%) allan o 72 o samplau o **friwgig wedi'i becynnu ymlaen llaw** yn cydymffurfio oherwydd cynnwys braster, naill ai oherwydd eu bod yn fwy na'r gofynion rheoleiddio neu'n cynnwys lefelau uwch na'r hyn a nodwyd ar labeli.
- Nid oedd un allan o 79 o samplau **ffigys sych** a brofwyd am fycotocsinau yn cydymffurfio, a hynny oherwydd lefelau gormodol o Ocratocsin A.
- Canfuwyd bod gan un o'r 73 o samplau o **sbigoglys** a brofwyd am fetelau trwm lefelau uwch o gadmiwm na'r gofynion rheoleiddio.

- Er nad oes lefelau rheoleiddio penodol wedi'u sefydlu ar gyfer plwm mewn **anifeiliaid hela gwyllt**, dangosodd y gwaith samplu hwn fod gan dros dri chwarter (76%) o'r 42 o samplau o anifeiliaid hela gwyllt lefelau plwm uwchlaw'r terfyn ar gyfer cig dofednod.[56] Mae hyn yn dangos bod y bwledi a ddefnyddiwyd i ladd yr adar wedi treiddio i'r cig. Daeth asesiad FSS o'r canlyniadau i'r casgliad bod y canllawiau presennol ar anifeiliaid hela wedi'u saethu â phlwm a'r cyngor presennol i leihau eu bwyta yn parhau i fod yn berthnasol.

### Ffigur 43: Prif ganlyniadau rhaglen samplu bwyd genedlaethol yr FSS ar gyfer 2023/24

#### Wedi'u profi am gyfansoddiad

| Cynhyrchion wedi'u profi | Nifer y samplau a brofwyd | Nifer y samplau nad ydynt yn cydymffurfio |
|---|---|---|
| Briwgig wedi'i becynnu ymlaen llaw | 72 | 6 |
| Bara naan a mathau eraill o fara fflat | 79 | 16 |

#### Wedi'u profi am halogion cemegol

| Cynhyrchion wedi'u profi | Nifer y samplau a brofwyd | Nifer y samplau nad ydynt yn cydymffurfio |
|---|---|---|
| Ffigys | 79 | 1 |
| Sbigoglys | 73 | 1 |

#### Wedi'u profi am ddilysrwydd

| Cynhyrchion wedi'u profi | Nifer y samplau a brofwyd | Nifer y samplau nad ydynt yn cydymffurfio |
|---|---|---|
| Cynhyrchion porc wedi'u prosesu a'u rhewi | 81 | 0 |
| Cynhyrchion cig eidion wedi'u prosesu a'u rhewi | 85 | 0 |

#### Wedi'u profi am bresenoldeb alergenau heb eu datgan

| Cynhyrchion wedi'u profi | Nifer y samplau a brofwyd | Nifer y samplau nad ydynt yn cydymffurfio |
|---|---|---|
| Lattes heb gynnwys cynnyrch llaeth | 68 | 58 |
| Prydau tecawê heb wyau | 70 | 10 |

Sylwer: Nid yw canlyniadau ar gyfer anifeiliaid hela gwyllt wedi'u cynnwys yn y tablau gan nad oes lefel reoleiddiol ar gyfer plwm mewn anifeiliaid hela gwyllt ac, felly, ni aseswyd samplau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

Ffynhonnell: FSS — Rhaglen Gwyliadwriaeth Samplu Bwyd 2023/24




## Gwaith samplu gan awdurdodau lleol

Mae gwaith samplu gan awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol wrth gadw defnyddwyr yn ddiogel. Mae timau iechyd yr amgylchedd a safonau masnach awdurdodau lleol yn casglu samplau bwyd sy'n cael eu profi mewn labordai swyddogol i wirio paramedrau diogelwch, safonau a dilysrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys samplau a gymerir fel rhan o'u gwaith rheoli diogelwch a safonau bwyd arferol, yn ogystal â'r rhai a ariennir trwy asiantaethau diogelwch bwyd cenedlaethol i dargedu meysydd risg.

Yn ôl y ffigurau diweddaraf sydd ar gael, gostyngodd gwaith samplu 4.5% rhwng 2022/23 a 2023/24 (o 43,579 yn 2022/23 i 41,624, Ffigur 44). Fodd bynnag, roedd tueddiadau'n amrywio ar draws gwledydd — er enghraifft, cynyddodd gweithgarwch samplu yng Nghymru (o 3,137 i 3,550) a'r Alban (o 3,435 i 3,713) ond gostyngodd yn Lloegr (28,682 i 26,297) a Gogledd Iwerddon (8,325 i 8,064) dros y cyfnod (Ffigur 45).

Fel y nodwyd yn adroddiad Ein Bwyd 2023, mae samplu gan awdurdodau lleol yn y DU wedi gostwng dros y degawd diwethaf. Er bod adferiad graddol wedi bod ers 2020/21, mae lefelau'n parhau i fod 43% yn is nag oeddent ddeng mlynedd yn ôl. Fodd bynnag, dylid nodi bod patrwm gwahanol i'w weld yng Ngogledd Iwerddon. Er gwaethaf y gostyngiad yn 2023/24, mae samplau a nodwyd wedi aros yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd (ac eithrio'r gostyngiad yn 2020/21 oherwydd y pandemig). Gall hyn fod yn gysylltiedig â threfniadau ariannu gwahanol a chynlluniau samplu blynyddol a ddatblygwyd gan gynghorau dosbarth mewn cydweithrediad â labordai rheoli swyddogol a phartïon eraill sydd â dull cydlynol o samplu ledled Gogledd Iwerddon.


**Ffigur 44: Nifer y samplau a gofnodwyd gan awdurdodau lleol yn y DU dros amser**




Ffynhonnell: ASB ac FSS

Serch hynny, mae'r dirywiad hirdymor mewn gwaith samplu yn parhau i fod yn bryder, gan y gallai llai o brofion gynyddu'r risg na fydd problemau ynghylch diogelwch neu ddilysrwydd bwyd yn cael eu canfod. Mae'n bosib bod pwysau ariannol, prinder staff, ac ôl-groniadau parhaus mewn arolygiadau risg is yn cyfrannu at y duedd hon.

**Ffigur 45: Nifer y samplau a gofnodwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban dros amser**




Ffynhonnell: ASB ac FSS

## Troseddau bwyd

Rydym yn diffinio troseddau bwyd fel twyll difrifol a throseddu cysylltiedig o fewn cadwyni cyflenwi bwyd, gan gynnwys cyflenwi diod a bwyd anifeiliaid. Gall troseddau bwyd amrywio'n fawr,[57] a bod yn gostus iawn. Amcangyfrifir eu bod yn costio rhwng £410 miliwn a £1.96 biliwn y flwyddyn yn y DU.[58] Gallai troseddau sy'n targedu'r gadwyn fwyd achosi niwed difrifol i ddefnyddwyr a'u hyder yn y gadwyn fwyd. Gall hefyd effeithio'n andwyol ar ein diogelwch bwyd.[59]

Er bod y rhan fwyaf o'r bwyd a'r diodydd sydd ar werth yn y DU yn ddiogel ac yn ddilys, mae'r diwydiant bwyd yn parhau i fod yn darged deniadol i droseddwyr wrth i bwysau economaidd, gofynion newidiol defnyddwyr a digwyddiadau geo-wleidyddol greu cyfleoedd newydd i gyflawni troseddau.

### Rôl unedau troseddau bwyd y DU

Gan weithredu o fewn yr ASB ac FSS, mae dau dîm troseddau bwyd cenedlaethol y DU — yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) ac Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban (SFCIU) — yn gweithio gydag awdurdodau lleol, busnesau bwyd ac asiantaethau eraill i ganfod, ymchwilio, atal a tharfu ar droseddau bwyd ledled y DU.

Mae pob uned yn gosod ei blaenoriaethau drwy Strategaeth Reoli sy'n cael ei llywio gan asesiad strategol ar y cyd[60] i dargedu ymddygiad troseddol a lleihau gwendidau hysbys o fewn y gadwyn fwyd.

## Ar beth y gwnaeth yr unedau troseddau bwyd ganolbwyntio yn 2024?

### Ymchwiliadau byw

Mae'r NFCU ac SFCIU yn cynnal ymchwiliadau i nodi a chymryd camau yn erbyn unigolion neu grwpiau sy'n ymwneud â throseddau bwyd.

Er bod nifer yr ymchwiliadau byw yn cynnig rhywfaint o fewnwelediad i effaith gweithgarwch gorfodi, nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu lefel gyffredinol troseddau bwyd nac yn ei gwneud hi'n bosib cymharu blynyddoedd. Mae hyn oherwydd y gellir eu lansio am wahanol resymau ac maent yn amrywio o ran cymhlethdod a graddfa.

Yn ogystal, nid yw llawer o droseddau bwyd yn cael eu hadrodd. Yn aml, nid yw defnyddwyr hyd yn oed yn sylweddoli eu bod wedi bod yn destun troseddau bwyd. Fodd bynnag, mae ymchwiliadau yn helpu i amlygu'r mathau o droseddau bwyd sydd ar y gweill ac yn datgelu gwendidau posib.

Yn ystod 2024, cynhaliodd unedau troseddau bwyd y DU gyfanswm o **29 o ymchwiliadau byw** (Ffigur 46), gyda'r mwyafrif yn ymwneud â chig a chynhyrchion cig.

**Ffigur 46: Y meysydd ffocws allweddol ar gyfer ymchwiliadau i droseddau bwyd yn 2024**

| Meysydd ffocws allweddol | Nifer yr achosion o darfu |
|---|---|
| Cig a chynhyrchion cig (gan gynnwys dofednod) | 20 |
| Alcohol | 3 |
| Arall* | 3 |
| Cynhyrchion peryglus nad ydynt yn fwyd | 1 |
| Pysgod a bwyd môr | 1 |
| Llysiau | 1 |

*Ymchwiliadau sy'n ymwneud â chynhyrchion nad ydynt yn perthyn i'r meysydd ffocws allweddol a gyflwynir yma.
Ffynhonnell: ASB ac FSS

Ymhlith y mathau o weithgarwch anghyfreithlon a oedd yn destun ymchwiliad roedd:

- **camgyfleu** gwlad tarddiad, amrywiad neu statws premiwm
- **dargyfeirio cynhyrchion anniogel** i'r gadwyn cyflenwi bwyd
- **prosesu anghyfreithlon**
- **twyll a amheuir** mewn perthynas ag alcohol ffug
- **materion olrhain** yn y gadwyn cyflenwi cig

## Tarfu ar droseddau bwyd

Mae **'achosion o darfu'**[61] yn cael eu cofnodi pan fydd ymyriad yn cael effaith uniongyrchol ar droseddau bwyd — er enghraifft, pan fydd grŵp troseddol wedi cael ei atal rhag gweithredu yn y ffordd arferol trwy arestio, atafaelu asedau neu dynnu gwefannau sy'n marchnata cynhyrchion peryglus fel bwyd yn anghyfreithlon.[62] Mae'r ymyriadau hyn wedi'u diffinio a'u dilysu yn unol â safonau gorfodi'r gyfraith cenedlaethol.

Yn 2024, cofnododd unedau troseddau bwyd y DU gyfanswm o **108 o achosion o darfu** (Ffigur 47), gyda bron i draean yn targedu gweithgarwch troseddol yn y sector cig. Roedd enghreifftiau'n cynnwys:

- Cafwyd gorchymyn cymunedol i ddiffynnydd a blediodd yn euog am fod yn rhan **o gyflenwi cig anaddas** ac sydd bellach yn wynebu achos atafaelu gwerth £205,825.
- Arweiniodd ymchwiliad amlasiantaeth at ble euog a dirwy o £50,831 am nifer o **droseddau rheoleiddio**, gan gynnwys creu tystysgrifau profion *Salmonela* ffug. Roedd hyn yn golygu bod adar wedi cael eu lladd ar gyfer y gadwyn fwyd heb brofi eu bod yn rhydd o bathogenau.

- Arweiniodd cefnogaeth i achos awdurdod lleol at ddirwyon gwerth cyfanswm o £36,642 i dri unigolyn a oedd yn ymwneud â gweithredu busnes **'smokies'**[63] **anghyfreithlon.**
- Plediodd perchennog busnes, a oedd yn gweithredu mewn safle heb ei gymeradwyo, yn euog, a chafodd ddirwy o £4,000 am dair trosedd, gan gynnwys **rhwystro arolygwyr FSS** rhag cynnal arolygiad.

**Ffigur 47: Y prif feysydd ffocws ar gyfer gwaith tarfu a gyflawnwyd gan unedau troseddau bwyd yn 2024**

| Meysydd ffocws allweddol | Nifer yr achosion o darfu |
|---|---|
| Arall* | 38 |
| Cig a chynhyrchion cig (gan gynnwys dofednod) | 32 |
| Cynhyrchion peryglus nad ydynt yn fwyd | 23 |
| Alcohol | 12 |
| Llysiau | 2 |
| Pysgod a bwyd môr | 1 |

*Achosion o darfu sy'n ymwneud â chynhyrchion nad ydynt yn perthyn i'r meysydd ffocws allweddol a gyflwynir yma.
Ffynhonnell: ASB ac FSS

Roedd 14 o'r 38 o'r achosion 'eraill' o darfu'n ymwneud â **gweithgareddau atal**. Roedd y rhain yn cynnwys busnesau yn mabwysiadu arferion atal twyll bwyd newydd yn dilyn hyfforddiant ac ymarferion ymgysylltu NFCU, a mwy o ddefnydd o'r Adnodd Hunanasesu Gwydnwch yn erbyn Twyll Bwyd.[64] Arweiniodd hyn oll at strategaethau gwrth-dwyll newydd, gweithdrefnau monitro gwell, a mwy o ymwybyddiaeth o risgiau ar draws y diwydiant. Cyflwynodd SFCIU ei hadnodd Proffilio Risg Troseddau Bwyd[65] yn 2023.

Roedd **alcohol ffug** yn ffocws mawr arall i SFCIU, gan gyfrif am 12 allan o'r 34 o achosion o darfu yn 2024 — gan gynnwys ymchwiliad allweddol a oedd yn targedu gwerthu fodca ffug a oedd yn cynnwys isopropanol.

## Astudiaeth achos: Mynd i'r afael â gweithrediadau cig anghyfreithlon

Yn dilyn ymchwiliad gan awdurdod lleol a'r NFCU, cafwyd pedwar unigolyn a busnes yn euog o ddargyfeirio cig anaddas i'w fwyta gan bobl yn ôl i'r gadwyn fwyd. Dechreuodd yr ymchwiliad pan ganfu swyddogion awdurdod lleol 1.9 tunnell o sgil-gynhyrchion anifeiliaid — gan gynnwys ieir cyfan a darnau ohonynt, ceilliau oen a byrgyrs cig eidion — yn cael eu prosesu i'w bwyta gan bobl mewn ffatri dorri anghyfreithlon yn Llundain.

Gwnaeth yr NFCU olrhain y sgil-gynhyrchion anifeiliaid hyn yn ôl i weithredwyr busnesau bwyd cyfreithlon a gadarnhaodd eu bod wedi anfon y sgil-gynhyrchion yn wreiddiol i'w gwaredu'n ddiogel neu i'w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid anwes.[66] Dangosodd dadansoddiad o ddata cyfathrebu a thystiolaeth arall berthynas droseddol rhwng yr unigolion a gyhuddwyd.

Ym mis Mawrth 2025, ar ôl achos llys a wnaeth bara 11 wythnos, canfu rheithgor y pedwar diffynnydd a'r busnes yn euog o gynllwynio i dwyllo drwy roi bwyd anaddas ar y farchnad.

## Astudiaeth achos: Mynd i'r afael â gwerthu fodca a oedd yn cynnwys isopropanol yn yr Alban

Ers mis Awst 2024, mae SFCIU wedi arwain ymchwiliad ar y cyd ag awdurdodau lleol yr Alban i boteli fodca 35cl ffug a werthwyd mewn siopau cyfleustra trwyddedig annibynnol. Roedd y cynhyrchion hyn yn cynnwys isopropanol (isopropyl, IPA), sef alcohol gwenwynig sy'n beryglus os caiff ei yfed.

Mewn ymateb, cyhoeddodd FSS rybudd bwyd er gweithredu (FAFA) i bob un o'r 32 o awdurdodau lleol yn yr Alban. Dros bythefnos, aeth swyddogion i ymweld â mwy na 1,730 o siopau cyfleustra trwyddedig annibynnol ledled yr Alban, gan arwain at atafael 231 o boteli o fodca ffug. Cyhoeddwyd rhybuddion a chyngor i ddefnyddwyr hefyd.

Gwnaeth y camau gweithredu cyflym a chydlynol hyn leihau'r risg i'r cyhoedd yn sylweddol, gan darfu ar gyflenwad o gynhyrchion anghyfreithlon ac atal gwerthiannau pellach. Mae FSS bellach yn cysylltu â nifer o asiantaethau fel rhan o ymchwiliad parhaus.

# I grynhoi

- Arhosodd cyfanswm y **digwyddiadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid** yn 2024 yn gymharol sefydlog o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Micro-organebau pathogenig oedd y perygl mwyaf cyffredin o hyd, tra bod cig a chynhyrchion cig, bwydydd deietegol, atchwanegiadau bwyd, bwydydd cyfnerthedig, prydau parod a byrbrydau, a grawnfwydydd ac eitemau popty o fewn y categorïau bwyd yr effeithiwyd arnynt amlaf. Gostyngodd digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag alergenau ychydig o gymharu â 2023 ond gwnaethant barhau i fod yn destun pryder difrifol, gyda halogiad ar raddfa fawr yn cynnwys pysgnau mewn powdr mwstard yn arwain at gynnydd mewn rhybuddion alergedd. Er bod nifer yr hysbysiadau galw cynhyrchion yn ôl wedi aros o fewn yr amrywiad hanesyddol ers 2020, bu cynnydd mewn rhybuddion bwyd yr oedd angen gweithredu arnynt, yn gysylltiedig â phedwar digwyddiad cymhleth a fynnodd ymyrraeth gan awdurdodau lleol.
- Mae **rhaglenni samplu targededig** yn awgrymu rhai heriau sy'n ymwneud â rheoli alergenau a chywirdeb labelu.
- At ei gilydd, mae **cyfraddau samplu bwyd awdurdodau lleol** wedi gostwng, o 43,579 yn 2022/23 i 41,624 yn 2023/24, sef gostyngiad o 4.5%. Gostyngodd y gwaith samplu a gynhaliwyd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ystod y cyfnod hwn 8% a 3% yn y drefn honno, ond cynyddodd cyfraddau 13% yng Nghymru ac 8% yn yr Alban. Mae lefelau samplu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn parhau i fod yn sylweddol is nag yr oeddent ddegawd yn ôl. Yng Ngogledd Iwerddon, mae lefelau wedi aros yn gymharol sefydlog ar wahân i ostyngiad yn 2020/21.
- Yn 2024, gwnaeth **unedau troseddau bwyd** y DU gynnal 29 o ymchwiliadau byw a tharfu ar 108 o achosion yn ymwneud ag ystod eang o ymyriadau, o alcohol ffug i brosesu cig anniogel. Mae'r gweithgareddau hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio amlasiantaethol a monitro rhagweithiol i fynd i'r afael â gwendidau a tharfu ar weithgareddau anghyfreithlon.

# Casgliadau

Mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod safonau diogelwch a dilysrwydd bwyd yn cael eu cynnal ar y cyfan. Fodd bynnag, mae sawl agwedd ar y system fwyd yn parhau i weithredu dan bwysau sylweddol.

Mewn adroddiadau blaenorol, rydym wedi tynnu sylw at heriau wrth recriwtio milfeddygon swyddogol (OVs). Gan chwarae rôl hanfodol yn niwydiant cig gwerthfawr y DU, maent yn diogelu iechyd y cyhoedd, iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid. Llwyddodd yr ASB i leihau ei dibyniaeth ar OVs newydd wedi'u cofrestru dros dro (TRNOVs) o 46% yn 2022 i 18% yn 2024. Mae FSS wedi gwella'r broses o recriwtio a chadw staff gydag amrywiaeth o fesurau gan gynnwys cyflogau uwch a strategaethau datblygu proffesiynol. Er bod disgwyl i'r mesurau hyn sefydlogi lefelau adnoddau yn y blynyddoedd i ddod, mae creu gweithlu cynaliadwy o OVs yn parhau i fod yn hollbwysig i'r ddau sefydliad.

Nodwyd hefyd brinder sylweddol o ran adnoddau a gweithlu o fewn timau iechyd yr amgylchedd a safonau masnach bwyd mewn awdurdodau lleol, sy'n hanfodol wrth orfodi cyfraith bwyd a safonau bwyd yn effeithiol ledled y DU. Yn 2024, gwnaeth y sefyllfa yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sefydlogi neu ddangos gwelliant bach, ond yn yr Alban, mae'r diffyg wedi dod hyd yn oed yn fwy amlwg. Rydym yn parhau i bryderu nad oes gan awdurdodau lleol ddigon o gapasiti i ddelio â'r nifer cynyddol o fusnesau bwyd, gydag ôl-groniad sylweddol o fusnesau newydd sy'n aros am eu harolygiadau cyntaf ac adborth ar unrhyw risgiau anhysbys.

Rydym yn poeni'n benodol fod gweithgarwch samplu yn is o lawer na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig, er gwaethaf rhai arwyddion o adferiad ers 2020/21. Effeithiwyd ar samplu safonau bwyd yn benodol, yn rhannol oherwydd heriau adnoddau, ac mae'n peri pryder arbennig o ystyried bod gwaith gwyliadwriaeth ehangach yn dangos bod diffyg cydymffurfiaeth yn parhau.

Problemau labelu sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r achosion o ddiffyg cydymffurfio yn arolwg samplu gwyliadwraeth manwerthu wedi'i dargedu'r ASB. Gall peidio â nodi alergenau ar labeli neu beidio â rhestru'r cynhwysion yn gywir fod yn fygythiad i fywyd defnyddwyr sydd ag alergeddau bwyd. Dylai'r cyhoedd allu dibynnu ar yr wybodaeth sydd ar y label.

Er mai prin yw'r problemau diogelwch neu ddilysrwydd mawr, heblaw am alergenau, rydym yn annog busnesau i roi mwy o sylw i gywirdeb labelu, yn enwedig mewn cysylltiad ag alergenau. Os gwneir hynny, gallwn edrych ymlaen at weld gostyngiad yn nifer yr achosion o ddiffyg cydymffurfio y flwyddyn nesaf.

Mae samplu gwyliadwriaeth yn cael ei dargedu'n fwriadol at feysydd penodol o ddiffyg cydymffurfio tebygol, felly nid yw'n cynnig casgliadau am gydymffurfiaeth ehangach.

Mae busnesau bwyd yn cynnal lefelau uwch o samplu ar draws ystod llawer ehangach o eitemau bwyd. Credwn fod cyfleoedd i ddatblygu dull cadarn a chydlynol o samplu ar draws awdurdodau lleol, y diwydiant bwyd, a rheoleiddwyr. Bydd mwy o rannu canlyniadau drwy systemau fel Rhwydwaith Cudd-wybodaeth y Diwydiant Bwyd yn hyrwyddo defnydd mwy effeithlon o adnoddau ar draws y system fwyd, yn galluogi gwelliannau mewn safonau, ac yn meithrin ymddiriedaeth rhwng y defnyddiwr a'r diwydiant.

Dechreuodd y Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau (BTOM) newydd gael ei roi ar waith yn raddol yn 2024 a chyflwynwyd rheolaethau ar gynhyrchion iechydol a ffytoiechydol sy'n dod i Brydain Fawr o'r UE. Rydym yn croesawu'r cynnydd a wnaed, gan gynnwys y gwiriadau dogfennol a'r gwiriadau ffisegol ar ein ffiniau. Fodd bynnag, nid yw'r broses gyflwyno wedi'i chwblhau eto, ac mae mwy o waith i'w wneud cyn y bydd gennym ddata cyflawn o'r system er mwyn gallu asesu cydymffurfiaeth yn llawn. Mae'n bosib y bydd cyhoeddiadau diweddar am ddealltwriaeth gyffredin ar gydweithrediad rhwng yr UE a Phrydain Fawr yn y dyfodol yn effeithio ar gynlluniau gweithredu. Fodd bynnag, drwy gydol y cyfnod pontio ac mewn unrhyw drefniadau yn y dyfodol, ein dyletswydd ni yw sicrhau iechyd y cyhoedd a diogelu buddiannau defnyddwyr o hyd, sy'n gofyn am fynediad at ddata cadarn a chywir. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y newidiadau y gallwn ddisgwyl eu gweld yn y dyfodol yn y gadwyn cyflenwi bwyd, yn deillio o effaith tariffau neu gytundebau masnach ar fasnach fyd-eang, ochr yn ochr ag effaith barhaus newid yn yr hinsawdd.

Cafodd yr adroddiadau blynyddol hyn eu llunio i ddechrau yn sgil ymadawiad y DU â'r UE, pan oedd pryder ymhlith y cyhoedd ynghylch yr effaith ar ein safonau bwyd. Bryd hynny, ni allem fod wedi rhagweld maint y newidiadau i systemau bwyd byd-eang, a achoswyd gan newidiadau geo-wleidyddol yn y blynyddoedd dilynol. Rydym wedi gweld y gall digwyddiadau sy'n digwydd filoedd o filltiroedd i ffwrdd effeithio ar ein cadwyni cyflenwi byd-eang, a hynny bron yn syth. Disgwyl yr annisgwyl yw'r normal newydd erbyn hyn, ac mae diogelwch bwyd domestig wedi dod yn fwy amlwg ar lefel genedlaethol.

Mae'r safonau bwyd uchel rydyn ni'n eu mwynhau'n gyffredinol yn rhan bwysig o'r lefel uchel barhaus o ymddiriedaeth yn system fwyd y DU. Fodd bynnag, mae'n destun pryder gweld nifer y defnyddwyr sy'n dweud nad ydynt yn hyderus y gallant gael mynediad at fwyd fforddiadwy a maethlon iddyn nhw eu hunain a'u teuluoedd. Mae un o bob pump o gartrefi ledled y DU yn parhau i wynebu diffyg diogeledd bwyd.

Mae data iechyd deietegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer yr Alban yn dangos bod deiet gwael ymhlith plant yn parhau i fod yn her, ac nad yw anghydraddoldebau yn lleihau. Mae angen i bob llywodraeth flaenoriaethu mynd i'r afael â'r amgylchedd bwyd. Roedd plant yn ardaloedd mwyaf difreintiedig yr Alban yn llai tebygol o gyrraedd nodau iechyd deietegol o ran bwyta ffrwythau a llysiau, a ffeibr, o gymharu â'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Dangosodd Arolwg Iechyd Lloegr 2022 (a gyhoeddwyd yn 2024) wahaniaethau economaidd-gymdeithasol tebyg o ran bwyta ffrwythau a llysiau.

Mae nifer yr achosion o ordewdra ymhlith oedolion a phlant ledled y wlad yn parhau i fod yn uchel,[67][68] gan arwain at unigolion yn profi iechyd gwael, a chynhyrchiant economaidd is. Mae deiet gwael hefyd yn gwaethygu anghydraddoldebau iechyd. Er bod modd trin llawer o broblemau iechyd cronig, gwell rhwystro'r clwy na'i wella. Yr hyn sy'n amlwg o'r data rydyn ni ac eraill wedi'i gyflwyno yw bod angen llawer mwy o weithgarwch i gefnogi a galluogi pawb i gael deiet iach.

Mae'r system fwyd yn gyfrannwr pwysig at dwf economaidd, ond rhaid i'r twf hwnnw ddiogelu a gwella iechyd, nid ei danseilio. Rydym yn croesawu ymdrechion gan lywodraethau ledled y DU i gymodi iechyd a chyfoeth fel y mae'n ymwneud â bwyd. Mae angen i ni gydnabod y bydd afiechyd cynyddol a lefelau uchel o orbwysau a gordewdra yn parhau i ychwanegu costau i'r GIG, a byddant yn cael effaith economaidd hefyd, trwy gynyddu absenoldeb salwch ymhlith gweithwyr. Mae strategaeth fwyd arfaethedig y llywodraeth a chynllun 10 mlynedd y GIG yn Lloegr; Cynllun Cenedl Bwyd Da Llywodraeth yr Alban a'r gwaith ar iechyd plant; a'r strategaethau bwyd sy'n cael eu cyhoeddi yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, yn cynnig cyfleoedd i nodi gweledigaeth a chynllun i hyrwyddo amgylchedd sy'n ffafrio dewisiadau bwyd iachach. Fel rheoleiddwyr, rydym yn barod i chwarae ein rhan i wella canlyniadau iechyd y cyhoedd.

Diolch i ymdrechion cydgysylltiedig gan bawb sy'n rhan o'r system, rydym wedi gweld gwydnwch a safonau rhyfeddol yn cael eu cynnal. Ond mae cost i hyn oll; mae'r system dan fwy o bwysau nag erioed, mae adnoddau wedi'u cyfyngu ar bob lefel — llywodraeth genedlaethol, awdurdodau lleol a chartrefi, gyda busnesau'n ceisio osgoi cynnydd mewn prisiau bwyd. Mae hyn yn creu gwendidau ac, fel y dangosodd yr adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan y Comisiwn Parodrwydd Cenedlaethol ar wydnwch systemau bwyd, mae angen i ni wneud mwy er mwyn paratoi ein hunain.

Mae'n bwysicach nag erioed ein bod ni, fel rheoleiddwyr, yn gweithio gyda busnesau, awdurdodau lleol a'r llywodraeth i nodi ac ymateb i risgiau yn y system fwyd wrth iddynt ddod i'r amlwg, ac i gadw safonau bwyd yn uchel.

# Atodiadau

# Atodiad 1: Cyfeiriadau penodau a nodiadau esboniadol

1. Ein Bwyd 2023: Adolygiad blynyddol o safonau bwyd ledled y DU.

2. Chwyddiant prisiau defnyddwyr, y DU — Swyddfa Ystadegau Gwladol – Rhagfyr 2023.

3. Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr y Swyddfa Ystadegau Gwladol, y DU, Rhagfyr 2024: Chwyddiant prisiau defnyddwyr, y DU — Swyddfa Ystadegau Gwladol.

4. Mae'r Arolwg Tracio Defnyddwyr 'Food in Scotland' yn monitro agweddau, gwybodaeth ac arferion yr adroddir amdanynt sy'n ymwneud â bwyd gan ddefnyddio sampl gynrychioliadol didebygolrwydd o boblogaeth yr Alban. Cynhelir yr arolwg ddwywaith y flwyddyn ym mis Gorffennaf a mis Rhagfyr. Roedd arolwg Cylch 19 (yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 4 a 18 Rhagfyr 2024) yn cynnwys arolwg ar-lein a oedd yn cymryd 15 munud i'r unigolyn ei hun ei gwblhau. Cwblhawyd yr arolwg gan 1009 o oedolion o'r Alban (16+). Defnyddiwyd rheolaethau cwota i lywio'r dewis o samplau ar gyfer yr astudiaeth hon. Mae hyn yn golygu na allwn ddarparu lwfans gwallau ystadegol manwl gywir na phrofion arwyddocâd, gan nad yw'r math o samplu yn seiliedig ar debygolrwydd. Felly, dylid trin y lwfansau gwallau a amlinellir fel rhai dangosol, yn seiliedig ar sampl tebygolrwydd cyfatebol. Mae lwfans gwallau a gyfrifwyd ar lefel hyder 95% (safon y diwydiant ymchwil marchnad) rhwng ±0.61% a ±3.06%. Mae mwy o fanylion ar gael yn yr atodiad technegol ar gyfer Cylch 19.

5. Mynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban (SIMD) — dull safonol Llywodraeth yr Alban o nodi ardaloedd o sawl amddifadedd yn yr Alban. Mae SIMD yn edrych ar y graddau y mae ardal wedi'i hamddifadu ar draws saith maes: incwm, cyflogaeth, addysg, iechyd, mynediad at wasanaethau, troseddu a thai.

6. Archfarchnad gymdeithasol: Siop sy'n gwerthu stoc 'gwastraff' am brisiau isel i bobl ar incwm isel sy'n cael trafferth gyda thlodi bwyd: Social supermarkets | London City Hall.

7. Mae Arolwg Tracio Mewnwelediadau Defnyddwyr yr ASB yn defnyddio profion-t i asesu gwahaniaethau dros amser a rhwng grwpiau, ac yn tynnu sylw at y rheiny lle mae'r gwerth p yn <0.05. Oherwydd y fethodoleg samplu cwota a ddefnyddir, ni ellir dehongli'r profion yn llym. Fodd bynnag, maent yn helpu i amlygu ble mae'r dystiolaeth fwyaf o newid mewn arferion neu agweddau. Mae mwy o wybodaeth am y dull hwn i'w chael yn yr adroddiad technegol.

8. Cynhaliwyd gwaith maes Bwyd a Chi 2, Cylch 8 rhwng 12 Hydref 2023 ac 8 Ionawr 2024. Cwblhawyd yr arolwg gan gyfanswm o 1,377 o oedolion (16 oed ac yn hŷn) o 954 o gartrefi yn yr Alban. Ceir mwy o fanylion yn yr atodiad methodoleg ar gyfer Cylch 8.

9. https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/POST-PN-0686/POST-PN-0686.pdf

10. Ar gyfartaledd, roedd cymeriant microfaethynnau ar neu uwchlaw'r RNI fel rheol, ac eithrio sinc, a oedd islaw'r RNI. Fodd bynnag, ymhlith merched 11 i 15 oed, roedd cymeriant fitamin A, ffolad, haearn, calsiwm, magnesiwm, potasiwm, ïodin a seleniwm islaw'r RNI. Yn yr un modd, ymhlith bechgyn 11 i 15 oed, roedd cymeriant fitamin A, haearn, calsiwm, magnesiwm, potasiwm a seleniwm islaw'r RNI. Cymeriant Deietegol Plant yn yr Alban (DISH): Asesiad o ddeietau plant a phobl ifanc rhwng 2 a 15 oed sy'n byw yn yr Alban, 2024.

11. Arolwg Iechyd Lloegr 2022 Rhan 1 — bwyta ffrwythau a llysiau (oedolion).

12. Mae Mukunuwenna yn llysieuyn deiliog gwyrdd a fwyteir yn helaeth yn Ne a De-ddwyrain Asia ac fe'i defnyddir yn aml mewn meddyginiaeth lysieuol.

13. Cyfrifoldebau dros gynnal rheolaethau hylendid bwyd — yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn darparu canllawiau statudol i awdurdodau lleol sy'n gorfodi cyfraith bwyd, ac mae'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid yn darparu canllawiau statudol i awdurdodau bwyd anifeiliaid lleol ar orfodi cyfraith bwyd anifeiliaid. Yn yr Alban, darperir yr adnoddau cyfatebol gan FSS. Mae Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Yr Alban) a Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd Ymyriadau (Yr Alban) 2019 yn cynnig canllawiau statudol a meini prawf i awdurdodau lleol ar orfodi cyfraith bwyd.

14. Lle mae bwyd yn cael ei gynhyrchu ac nad yw wedi'i restru mewn man arall yn y tabl hwn.

15. Yn yr Alban, mae'r FHIS yn cwmpasu pob siop fwyd sy'n cyflenwi bwyd i ddefnyddwyr. Yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r CSHB yn cwmpasu busnesau bwyd sy'n darparu bwyd i'r defnyddiwr terfynol, fel bwytai, tafarndai, caffis, siopau tecawê, ysbytai, ysgolion a chartrefi gofal. Yng Nghymru, mae'r cynllun hefyd yn cwmpasu gweithrediadau busnes-i-fusnes, fel gweithgynhyrchwyr. I gael y manylion llawn, trowch at y Canllawiau ar weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd: canllawiau'r cynllun statudol a'r Safon Brand a Gair am y Cynllun Gwybodaeth Hylendid Bwyd | Safonau Bwyd yr Alban.

16. Chwilio am sgoriau | Sgoriau Hylendid Bwyd.

17. Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd | Safonau Bwyd yr Alban.

18. Mae sefydliadau cig cymeradwy yn trin, paratoi neu gynhyrchu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y mae gofynion wedi'u gosod ar eu cyfer yng nghyfraith yr UE a gymathwyd 853/2004.

19. Yr ystadegau diweddaraf am ddofednod a chig dofednod – GOV.UK.

20. Yr ystadegau diweddaraf ynghylch lladd gwartheg, defaid a moch – GOV.UK.

21. Mae FSS yn defnyddio cylchoedd archwilio lle mae pob sefydliad cig yn derbyn cyfres o ymyriadau (o leiaf 3) dros gyfnod o 12 mis. Mae'r rhain yn cynnwys arolygiadau â rhybudd ac arolygiadau dirybudd. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yma: Pennod 4 Archwilio. Mae'r ASB yn defnyddio cynllun arolygu sy'n seiliedig ar risg, lle mae amlder yr ymyriadau yn dibynnu ar risg sefydliad cig. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yma Archwilio sefydliadau cig cymeradwy | Asiantaeth Safonau Bwyd.

22. Esboniad o gydymffurfiaeth hylendid ar gyfer categorïau sgorio sefydliadau cig.

23. Ystadegau diweddaraf ar ddefnydd llaeth gan laethdai – ystadegau cenedlaethol – GOV.UK.

24. Mae cynhyrchu cynradd yn cyfeirio at y broses sylfaenol o gynhyrchu llaeth ar ffermydd – cadw gwartheg (ac anifeiliaid eraill fel geifr, defaid ac ati) ar gyfer cynhyrchu llaeth i'w yfed gan bobl.

25. Yn yr Alban, nid oes gan FSS rôl gorfodi uniongyrchol ar gyfer hylendid llaeth. Yn hytrach, mae hyn yn gyfrifoldeb ar y 32 o awdurdodau lleol yn yr Alban, a nhw sy'n dal y data hwn. Mae ffermydd llaeth yn yr Alban hefyd yn peri llai o risg, am nad ydynt yn gwerthu llaeth amrwd i ddefnyddwyr.

26. Er i'r cofnodion ddechrau yn 2008/09, roedd y set ddata yn anghyflawn. Yn ogystal, rhaid bodloni safonau penodol er mwyn i ddata gael ei adrodd fel ystadegau swyddogol. Digwyddodd hynny yn 2010/11.

27. Adnoddau a ddyrannwyd yw cyfanswm y swyddi cyfwerth ag amser llawn sy'n bodoli o fewn awdurdodau lleol.

28. Mae awdurdodau lleol yn anfon data gweithlu i'r ASB bob chwe mis: yng nghanol ac ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae arolygon hanner blwyddyn yn rhoi syniad da i ni o'r gweithlu. Fodd bynnag, ni ellir dod i gasgliadau terfynol na gwneud cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

29. Mae'r ASB yn cydnabod y bydd data CALI a ddarperir gan awdurdodau lleol yn aml yn amcangyfrifon gwybodus. Bydd arolygon yr awdurdodau lleol o rai cyfnodau adrodd wedi cael eu cywiro'n fwy nag eraill yn dilyn gwiriadau cywirdeb. Yn ogystal, ni fydd pob awdurdod lleol wedi cyflwyno'r data mewn pryd. Ar gyfer data sy'n seiliedig ar 2019/20, cyflwynwyd 98% o gyfanswm y data hylendid bwyd. Ar gyfer Hydref 2024, mae gennym 99.7% o'r arolygon hylendid bwyd a 98.9% o'r arolygon safonau bwyd.

30. Mae adnoddau sydd heb fod ar gael yn golygu y gallai'r swyddi CALI fod wedi'u dargyfeirio oddi wrth ddyletswyddau bwyd ac yn cwmpasu dyletswyddau eraill ar gyfer yr awdurdod lleol, er enghraifft, delio â llifogydd.

31. Cynhelir asesiadau cydymffurfiaeth mewn amrywiaeth o fusnesau. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgynhyrchwyr a phecynwyr, mewnforwyr ac allforwyr, dosbarthwyr a chludwyr, manwerthwyr, bwytai ac arlwywyr. Ym mhob achos, asesir lefel cydymffurfiaeth y sefydliad yn erbyn ystod o feini prawf, gan gynnwys sut mae bwyd yn cael ei drin, ei storio, a'i baratoi, glendid cyfleusterau a sut mae diogelwch bwyd yn cael ei reoli. Gall y meini prawf asesu amrywio ar draws y DU a chânt eu cynnal yn unol â'r Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd perthnasol.

32. Mae'r swyddi CALI sydd ar gael yn cwmpasu staff cwbl gymwys, swyddogion cymorth rheoleiddio a swyddi swyddogion dan hyfforddiant ar gyfer staff sy'n gweithio tuag at 'gymhwyster addas' ac sy'n gallu cyflawni tasgau penodol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae awdurdodau lleol wedi nodi cynnydd yn nifer yr hyfforddeion sydd wedi'u recriwtio ar gyfer y ddau gyfrifoldeb. Bydd yn cymryd amser i'r adnodd ychwanegol hwn gael effaith ar y gwasanaethau a ddarperir wrth i'r hyfforddeion hyn weithio tuag at ddod yn gwbl broffesiynol.

33. Gellir dod o hyd i fethodoleg yr RRC yma FSS/ENF/20/011 — COVID-19 — Proses Adfer Ymyriadau Cyfraith Bwyd Awdurdodau Lleol | Safonau Bwyd yr Alban.

34. Casglwyd y ffigurau ar gyfer 2016, 2018, a 2019 o holiaduron gan gangen archwilio FSS. Casglwyd ffigurau 2021 fel rhan o'r broses ailgychwyn ar ôl COVID-19, a chasglwyd ffigurau 2024 o Gronfa Ddata Genedlaethol yr Alban (SND).

35. Diweddariad ar Berfformiad Awdurdodau Lleol | Asiantaeth Safonau Bwyd.

36. Yng Nghymru, mae'r cynllun hefyd yn cwmpasu gweithrediadau busnes-i-fusnes fel gweithgynhyrchwyr sy'n dod o dan gylch gwaith awdurdodau lleol.

37. Cesglir data arolygiadau llawn gan awdurdodau lleol bob chwe mis a chaiff ei adrodd i bwyllgor busnes yr ASB, a rhoddir diweddariad blynyddol i fwrdd yr ASB.

38. https://www.legislation.gov.uk/cy/eur/2017/625/article/148

39. O dan Reoliad a gymathwyd (UE) 2017/625, rhaid i OV fod yn bresennol mewn lladd-dai er mwyn gweithredu'n gyfreithiol, gan olygu bod eu recriwtio a'u cadw yn flaenoriaeth.

40. Adroddiad Diogelwch Bwyd y Deyrnas Unedig 2024: Thema 3: Gwydnwch y Gadwyn Cyflenwi Bwyd — GOV.UK.

41. Mae nifer y digwyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn eithrio 240 o achosion a hysbyswyd yn 2024 o glefyd y Tafod Glas, am nad oes ganddo unrhyw oblygiadau uniongyrchol hysbys o ran iechyd y cyhoedd na diogelwch bwyd. Mae Tafod Glas yn glefyd firaol hysbysadwy sy'n effeithio'n bennaf ar anifeiliaid cnoi cil fel defaid, gwartheg, geifr a cheirw. Mae'n cael ei drosglwyddo gan wybed bach sy'n brathu o rai rhywogaethau Culicoides. Mae'r ASB yn cofnodi clefydau hysbysadwy mewn anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd er mwyn cofnodi gweithgareddau'r ASB a wneir mewn ymateb i gadarnhad o'r clefyd, er enghraifft, cadarnhau a oes lladd-dai cymeradwy'r ASB o fewn y parthau rheoli. Gan gynnwys achosion o'r Tafod Glas, bu cynnydd o 11% (1,935 i 2,143) yn nifer y digwyddiadau hysbys rhwng 2023 a 2024.

42. Mae hyn yn cyfeirio at feddyginiaethau milfeddygol sy'n cynnwys sylweddau ffarmacolegol gweithredol a all adael gweddillion mewn cynhyrchion bwyd sy'n dod o anifeiliaid sydd wedi'u trin.

43. Mae hyn yn cyfeirio at absenoldeb neu fethiant i roi gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd digonol ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â diogelwch bwyd a safonau bwyd. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys digwyddiadau sy'n gysylltiedig â phryderon ynghylch rheolaethau tymheredd a hylendid gwael wrth brosesu neu gludo cig a chynhyrchion cig.

44. Mae'r rhain yn cyfeirio at fwydydd a ddynodwyd ar gyfer cywiro carbohydradau, lipidau, proteinau, fitaminau, a metaboleddau eraill y gellir eu haddasu o ran lefelau cynnwys neu gymhareb neu sydd â chynhwysion ychwanegol. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys fformiwla fabanod, diodydd protein neu ddiodydd sy'n cael eu hyfed yn lle bwyta prydau a chynhyrchion maeth chwaraeon.

45. Bwydydd newydd yw unrhyw fwyd sydd heb gael eu bwyta gan bobl i raddau helaeth yn y DU na'r UE cyn 15 Mai 1997. Mae hyn yn golygu nad oes gan y bwydydd hyn 'hanes o gael eu bwyta'. Mae'r rhain yn cynnwys bwydydd arloesol sydd newydd eu datblygu, bwydydd traddodiadol a fwyteir mewn mannau eraill yn y byd, a bwydydd a gynhyrchir o brosesau newydd. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys pryfed bwytadwy, hadau chia a bwydydd sydd wedi'u trin â phelydrau UV. Mae'r broses awdurdodi wedi'i nodi ar wefan yr ASB.

46. https://science.food.gov.uk/article/126077

47. Gwnaeth yr FSS gyhoeddi 29 o'r 31 o adolygiadau dilynol a gyhoeddwyd gan yr ASB oherwydd eu bod yn berthnasol i ddefnyddwyr yn yr Alban.

48. Y trothwy ar gyfer cynnwys deunyddiau estron, gan gynnwys mathau eraill o ddail, ar gyfer pob dosbarth/gradd o oregano sych yw 0.1% (Safon Codex ar gyfer Oregano Sych — CXS 342-2021).

49. Mewn tair sampl olew olewydd, nododd y profion bresenoldeb perocsidau, sef cyfansoddion ansefydlog sy'n ffurfio pan fydd yr olew yn adweithio ag ocsigen. Mae gan olewau ffres werth perocsid isel, ond wrth i olew heneiddio neu fynd yn afiach, bydd y gwerth perocsid yn cynyddu sy'n golygu nad yw'r cynnyrch yn ffres. Am fwy o wybodaeth: Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 2568/91 dyddiedig 11 Gorffennaf 1991 ar nodweddion olew olewydd ac olew gweddillion olewydd ac ar y dulliau dadansoddi perthnasol.

50. Yn yr achos hwn, nid oedd y sampl olew olewydd yn bodloni'r cyfansoddiad asid brasterog rhagnodedig ar gyfer olew olewydd tra phur.

51. Rhaid i'r cynnwys braster fod o leiaf 3.5% ar gyfer llaeth cyflawn a rhwng 1.5% ac 1.8% ar gyfer llaeth hanner sgim (Rheoliadau Llaeth Yfed (Lloegr) 2008).

52. Er mwyn asesu'r potensial i ddefnyddwyr sydd ag alergeddau ddod i gysylltiad â llaeth oherwydd croeshalogi.

53. Er mwyn asesu'r potensial i ddefnyddwyr sydd ag alergeddau ddod i gysylltiad ag wyau oherwydd croeshalogi.

54. Y trothwy a argymhellwyd gan Banel Arbenigwyr Gwyddonol VITAL (Labelu ac Olrhain Alergenau Achlysurol yn Wirfoddol) ar gyfer protein llaeth ar adeg y dadansoddiad oedd 0.2 mg/dogn (VITAL 3.0, 2019). Dyma'r dos a fyddai'n achosi adwaith alergaidd mewn 1% o unigolion sydd ag alergedd i laeth.

55. Y trothwy a argymhellwyd gan Banel Arbenigwyr Gwyddonol VITAL (Labelu ac Olrhain Alergenau Achlysurol yn Wirfoddol) ar gyfer wyau ar adeg y dadansoddiad oedd 0.2 mg/dogn (VITAL 3.0, 2019). Dyma'r dos a fyddai'n achosi adwaith alergaidd mewn 1% o unigolion sydd ag alergedd i wyau.

56. Y terfyn uchaf ar gyfer plwm yw 0.1mg/kg ar gyfer cig dofednod fel y'i diffinnir yn Atodiad I o Reoliad a gymathwyd y Comisiwn (CE) 1881/2006, ac fe'i defnyddiwyd at ddibenion cyfeirio yn unig.

57. Mae disgrifiad llawn o'r saith math gwahanol o droseddau bwyd, yn ôl yr ASB, i'w weld ar wefan yr ASB.

58. Cost Troseddau Bwyd Cam 2 — Crynodeb Gweithredol | Asiantaeth Safonau Bwyd.

59. Adroddiad Diogelwch Bwyd y DU 2024: Thema 5 (Diogelwch Bwyd a Hyder Defnyddwyr) — 5.25 Troseddau Bwyd.

60. Cyhoeddwyd yr Asesiad Strategol o Droseddau Bwyd diweddaraf gan yr NFCU ac SFCIU yn 2024, ac mae'n amlinellu bygythiadau troseddau bwyd i'r DU.

61. Fel gydag ymchwiliadau, nid oes modd defnyddio niferoedd yr achosion o darfu i lunio perthnasoedd achos-effaith ar lefelau troseddau bwyd gan nad yw llawer o droseddau'n cael eu hadrodd. Ni ellir gwneud cymariaethau cywir o flwyddyn i flwyddyn chwaith gan y gall ffactorau gwahanol, fel achosion cyfreithiol neu ymwybyddiaeth well ymysg y cyhoedd, effeithio ar batrymau cofnodi.

62. Sylweddau a werthir fel bwyd yw'r rhain na ddylid eu marchnata fel y cyfryw oherwydd eu natur niweidiol. Un enghraifft yw DNP (o 2,4-Dinitroffenol), sef cemegyn gwenwynig sy'n cael ei farchnata'n anghyfreithlon fel sylwedd sy'n llosgi braster.

63. Mae 'smokie' yn fwyd sy'n cael ei baratoi trwy'r broses anghyfreithlon o ddefnyddio lamp llosgi i gael gwared ar gnu carcas dafad neu gafr heb groen. Mae'n peri risg sylweddol i iechyd y cyhoedd oherwydd natur y cynnyrch a'r dull cynhyrchu, gan gynyddu'r risg bod micro-organebau niweidiol yn bresennol.

64. Adnodd Hunanasesu Gwydnwch yn erbyn Twyll Bwyd a ddatblygwyd gan yr NFCU i ddarparu cefnogaeth, arweiniad a chyngor i fusnesau bwyd ar dwyll bwyd.

65. Mae'r Adnodd Proffilio Risg Troseddau Bwyd yn adnodd hunanasesu ar-lein sydd wedi'i gynllunio i helpu busnesau bwyd i nodi unrhyw fannau gwan o ran troseddau bwyd a chael canllawiau wedi'u teilwra i leihau'r risgiau hynny.

66. Am resymau diogelwch, unwaith y caiff cig ei ddosbarthu fel sgil-gynnyrch anifail, ni ellir byth ei roi yn ôl yn y gadwyn fwyd.

67. https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN03336/SN03336.pdf

68. https://www.gov.uk/government/statistics/united-kingdom-food-security-report-2024/united-kingdom-food-security-report-2024-theme-4-food-security-at-household-level#healthy-diet

# Atodiad 2: Rhestr o dermau

| Term | Esboniad |
|---|---|
| Afflatocsinau | Cyfansoddion gwenwynig a gynhyrchir gan rai mathau penodol o lwydni a geir mewn bwyd, a all achosi niwed i'r afu a chanser. |
| Anghydraddoldebau iechyd | Gwahaniaethau annheg ac y gellir eu hosgoi mewn canlyniadau iechyd rhwng gwahanol grwpiau yn y gymdeithas yw anghydraddoldebau iechyd. |
| Alergenau | Mae 14 prif alergen y mae'n rhaid eu datgan yn ôl y gyfraith, ond gall defnyddwyr fod ag alergedd neu anoddefiad i fwydydd neu gynhwysion eraill. |
| Argyfwng BSE | Mae Argyfwng BSE yn cyfeirio at yr achosion o Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE), a elwir hefyd yn 'Glefyd y Gwartheg Gwallgof', yn y DU yn ystod y 1980au a'r 1990au. |
| Asid propionig (cyffeithydd) | Mae asid propionig yn gyffeithydd bwyd (E280) a ddefnyddir i atal twf llwydni a bacteria, yn enwedig mewn nwyddau wedi'u pobi a chaws. Mae wedi'i gydnabod yn gyffredinol yn ddiogel ar lefelau cymeradwy, ond gall gormod ohono achosi llid gastroberfeddol neu amharu ar ficrobiota'r perfedd mewn unigolion sensitif. |
| Busnesau risg uchel | Yn y DU, busnesau bwyd risg uchel yw'r rhai sy'n peri mwy o fygythiad posib i iechyd y cyhoedd, oherwydd y ffordd maent yn trin bwyd, hanes o beidio â chydymffurfio, neu gymhlethdod gweithrediadau. O ganlyniad, cânt eu harolygu'n amlach gan awdurdodau lleol o dan fodel sy'n seiliedig ar risg. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| Bwydydd deietetig, atchwanegiadau bwyd a bwydydd cyfnerthedig | Bwydydd deietetig: bwydydd sydd wedi'u llunio'n arbennig i ddiwallu anghenion deietegol penodol oherwydd cyflwr corfforol neu ffisiolegol penodol (er enghraifft, bwydydd heb glwten neu fwydydd protein-isel) fel y'u cydnabyddir o dan gyfraith bwyd y DU a'r UE.<br><br>Atchwanegiadau bwyd: cynhyrchion a gymerir i ategu'r deiet arferol, sydd fel arfer yn cynnwys ffynonellau crynodedig o faetholion neu sylweddau eraill sydd ag effaith faethol neu ffisiolegol (er enghraifft, fitaminau, mwynau, asidau amino).<br><br>Bwydydd cyfnerthedig: bwydydd y mae maetholion wedi'u hychwanegu atynt nad ydynt yn bresennol yn naturiol mewn symiau sylweddol, fel ychwanegu fitamin D at fargarîn neu haearn at rawnfwydydd brecwast. |
| Bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth | Bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth yw cynhyrchion a wneir gan ddefnyddio technegau a chynhwysion diwydiannol nad ydynt fel arfer i'w cael mewn ceginau cartref (er enghraifft, emwlsyddion, cyffeithyddion). Mae enghreifftiau'n cynnwys diodydd pefriog, byrbrydau wedi'u pecynnu, a phrydau parod. |
| Canllaw Bwyta'n Dda | Y Canllaw Bwyta'n Dda yw adnodd swyddogol llywodraeth y DU ar gyfer hyrwyddo deiet iach a chytbwys, gan ddangos cyfrannau gwahanol grwpiau bwyd y dylai pobl anelu at eu bwyta dros amser. |
| Canllawiau cenedlaethol ar iechyd deietegol | Cynrychiolir canllawiau cenedlaethol y DU ar iechyd deietegol yn bennaf gan y Canllaw Bwyta'n Dda, sef adnodd swyddogol gan y llywodraeth ar gyfer hyrwyddo deiet iach a chytbwys. |
| Cêc olew | Cêc olew yw'r hyn sy'n weddill ar ôl tynnu'r olew o hedyn olew (er enghraifft, ffa soia). Mae'n llawn protein ac yn fwyd anifeiliaid gwerthfawr. |
| Cefndir economaidd-gymdeithasol | Mae cefndir economaidd-gymdeithasol yn cyfeirio at yr amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd y mae person yn cael ei fagu ynddynt, a bydd fel arfer yn ystyried ffactorau fel galwedigaeth rhieni, addysg, incwm a thai. Mae'n dylanwadu ar ganlyniadau bywyd fel addysg, cyflogaeth ac iechyd. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| Clefydau a gludir gan fwyd | Mae clefydau a gludir gan fwyd yn cyfeirio at afiechydon a achosir gan fwyta bwyd sydd wedi'i halogi â bacteria, feirysau, parasitiaid neu gemegau niweidiol, gydag enghreifftiau cyffredin yn cynnwys heintiau Campylobacter, Salmonela ac *E. coli.* |
| Comisiwn Parodrwydd Cenedlaethol | Mae'r Comisiwn Parodrwydd Cenedlaethol yn fenter yn y DU sy'n dwyn ynghyd arweinwyr o'r llywodraeth, y byd busnes, y byd academaidd, a chymdeithas sifil i wella gwydnwch a pharodrwydd y genedl ar gyfer risgiau ac argyfyngau mawr. |
| CPIH | Ystyr CPIH yw Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr, gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr. Dyma'r prif ddull o fesur chwyddiant y DU, ac fe'i cynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Caiff ei fesur drwy edrych ar y newid cyfartalog dros amser yn y prisiau y mae defnyddwyr yn eu talu am fasged o nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys costau tai perchnogion a deiliaid a'r dreth gyngor. |
| Crimestoppers | Elusen annibynnol yn y DU yw Crimestoppers, sy'n galluogi pobl i roi gwybod am droseddau'n ddienw. |
| Cynhyrchion a wneir drwy feithrin celloedd | Bwydydd yw'r rhain a wneir trwy dyfu celloedd anifeiliaid neu blanhigion mewn amgylchedd rheoledig — heb ladd na ffermio traddodiadol — i gynhyrchu eitemau fel cig, bwyd môr, neu wyau. |
| Cynllun Cenedl Bwyd Da | Mae Cynllun Cenedl Bwyd Da yn strategaeth gan Lywodraeth yr Alban sy'n nodi nodau hirdymor ar gyfer creu system fwyd iachach, tecach a mwy cynaliadwy, gyda chamau gweithredu cydlynol ar draws meysydd iechyd, yr amgylchedd a'r economi. |
| Cytundeb Iechydol a Ffytoiechydol (SPS) | Mae cytundeb SPS yn nodi rheolau a safonau rhwng gwledydd ar gyfer diogelu iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion mewn perthynas â nwyddau a fasnachir, gan gynnwys bwyd ac anifeiliaid byw, trwy reoli risgiau bioddiogelwch trwy arolygiadau, ardystiadau a rheolaethau mewnforio. |
| Cytundeb Lefel Gwasanaeth | Contract ffurfiol rhwng darparwr gwasanaeth a chwsmeriaid yw Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) sy'n diffinio'r lefel ddisgwyliedig o wasanaeth, metrigau perfformiad, cyfrifoldebau, a rhwymedïau am ddiffyg cydymffurfio. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| Cytundebau masnach rydd | Mae cytundebau masnach yn nodi'r rheolau sy'n ymwneud â masnach rhwng dwy wlad neu fwy. Eu nod yw hwyluso masnachu rhwng y gwledydd hynny. Maent yn gwneud hyn drwy leihau'r cyfyngiadau ar fewnforion ac allforion rhyngddynt. |
| Diffyg diogeledd bwyd yn y cartref | Term a ddefnyddir i ddisgrifio cartrefi sydd heb fynediad dibynadwy at ddigon o fwyd fforddiadwy a maethlon. |
| Diffygion microfaethynnau | Mae microfaethynnau yn fitaminau a mwynau sydd eu hangen ar y corff mewn symiau bach iawn. Fodd bynnag, mae eu heffaith ar iechyd y corff yn hollbwysig, a gall unrhyw ddiffygion achosi cyflyrau difrifol, a all hyd yn oed beryglu bywyd. |
| Digwyddiad cig ceffyl | Roedd y digwyddiad cig ceffyl yn argyfwng mawr yn ymwneud â thwyll bwyd yn y DU a'r UE yn 2013, lle canfuwyd DNA ceffyl heb ei ddatgan mewn cynhyrchion wedi'u labelu fel cig eidion, gan ysgogi hysbysiadau galw yn ôl eang, diwygiadau rheoleiddio, a ffocws o'r newydd ar olrheiniadwyedd a dilysrwydd bwyd. |
| *E. coli* | Math o facteria yw *Escherichia coli* sydd i'w gael yng ngholuddion anifeiliaid a phobl. Gall rhai mathau achosi salwch difrifol mewn pobl. |
| Gorsensitifrwydd | Mae gorsensitifrwydd i fwyd yn cyfeirio at adwaith corfforol andwyol i fwydydd penodol, gan gynnwys alergeddau bwyd (ymateb imiwnedd), anoddefiadau bwyd (problemau treulio), a chlefyd seliag (ymateb awto-imiwn i glwten), a gall pob un ohonynt effeithio ar iechyd ac ansawdd bywyd. |
| Gwrthdaro geo-wleidyddol | Mae gwrthdaro geo-wleidyddol yn cyfeirio at densiynau neu wrthdaro rhwng cenhedloedd neu flociau dros bŵer, dylanwad, tiriogaeth neu ideoleg. |
| Halogiad microbiolegol | Ystyr halogiad microbiolegol yw cyflwyno sylweddau microbaidd fel bacteria, feirysau neu barasitiaid yn anfwriadol. |
| HRFNAO | Mae HRFNAO yn cyfeirio at rai bwydydd a bwyd anifeiliaid sy'n seiliedig ar blanhigion sy'n peri risg uwch i iechyd y cyhoedd — er enghraifft oherwydd halogiad â mycotocsinau, plaladdwyr, neu bathogenau — ac sy'n destun rheolaethau mewnforio llymach wrth ddod i'r DU. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| *Listeria* | Mae *listeria monocytogenes (listeria)* yn facteriwm a gludir gan fwyd sy'n achosi salwch o'r enw listeriosis. |
| Memorandwm cyd-ddealltwriaeth | Mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn gytundeb ffurfiol rhwng dau barti neu fwy, nad yw'n gyfreithiol rwymol, sy'n amlinellu bwriadau a chyfrifoldebau a rennir a chydweithrediad ar amcanion neu weithgareddau penodol, a ddefnyddir yn aml ym meysydd llywodraeth, addysg a chysylltiadau rhyngwladol. |
| Micro-organebau pathogenig | Organebau bach iawn yw micro-organebau pathogenig sy'n gallu achosi clefydau. Maent yn cynnwys feirysau, bacteria, ffyngau, a phrotistiaid. Gall y pathogenau hyn heintio pobl, anifeiliaid a phlanhigion, a gallant ledaenu mewn amrywiol ffyrdd, fel trwy'r aer, yn y dŵr, neu drwy gyswllt uniongyrchol. Pan fyddant yn mynd i mewn i letywr, gallant atgynhyrchu a rhyddhau tocsinau sy'n niweidio'r lletywr ac achosi salwch. |
| Mynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban (SIMD) | Dull safonol Llywodraeth yr Alban o nodi ardaloedd o amddifadedd lluosog yn yr Alban. Mae SIMD yn edrych ar y graddau y mae ardal wedi'i hamddifadu ar draws saith maes: incwm, cyflogaeth, addysg, iechyd, mynediad at wasanaethau, troseddu a thai. |
| Newid yn yr hinsawdd | Newid yn yr hinsawdd yw'r newid hirdymor mewn patrymau tywydd cyffredin ar draws y byd, wedi'i ysgogi'n bennaf gan weithgareddau pobl fel llosgi tanwydd ffosil, sy'n cynyddu crynodiadau nwyon tŷ gwydr ac yn arwain at gynhesu byd-eang. |
| Ocratocsin A | Mycotocsin yw Ocratocsin A, a gynhyrchir gan sawl rhywogaeth o ffwng, fel Aspergillus a Penicillium. Gall halogi cnydau bwyd fel grawnfwydydd, coffi a ffrwythau sych, yn enwedig dan amodau storio gwael. Mae amlygiad hirdymor wedi'i gysylltu â niwed i'r arennau ac effeithiau carsinogenig posib. |
| Organebau wedi'u bridio'n fanwl | Organebau wedi'u bridio'n fanwl yw planhigion neu anifeiliaid y mae eu cyfansoddiad genetig wedi'i newid gan ddefnyddio technegau biodechnoleg modern fel golygu genynnau, mewn ffordd a allai hefyd ddigwydd trwy ddulliau bridio traddodiadol, heb gyflwyno DNA estron. |
| Pathogen | Bacteriwm, feirws neu organeb arall a all achosi clefyd. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| PATH-SAFE | Rhaglen ymchwil gwerth £24m oedd PATH-SAFE (sef Cadw Gwyliadwriaeth ar Bathogenau mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Amgylchedd), wedi'i hariannu gan y Gronfa Canlyniadau a Rennir (SOF). Nod y rhaglen oedd datblygu rhwydwaith gwyliadwriaeth cenedlaethol, gan ddefnyddio'r dechnoleg dilyniannu DNA ddiweddaraf a samplu amgylcheddol i wella'r gwaith o ganfod ac olrhain pathogenau dynol a gludir gan fwyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd ym mhob rhan o'r system bwyd-amaeth, o'r fferm i'r fforc. |
| Pentachlorophenol a diocsinau | Mae pentachlorophenol yn gemegyn synthetig a ddefnyddiwyd yn helaeth ar un adeg fel plaladdwr a chyffeithydd pren, ond sydd bellach wedi'i gyfyngu oherwydd ei wenwyndra a'i barhad yn yr amgylchedd.<br><br>Grŵp o lygryddion amgylcheddol gwenwynig iawn yw diocsinau, sy'n cael eu ffurfio fel sgil-gynhyrchion mewn prosesau diwydiannol a hylosgi. Gall cysylltiad hirdymor â diocsinau — yn bennaf trwy fwyd — effeithio ar y systemau imiwnedd ac atgenhedlu ac mae'n gysylltiedig â chanser a phroblemau datblygiadol. |
| Prosesu anghyfreithlon | Term a ddefnyddir i ddisgrifio lladd, paratoi neu brosesu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y tu allan i'r fframwaith rheoleiddio perthnasol. |
| Rheolaethau swyddogol | Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu arolygiadau, gwaith gorfodi, cyngor a chanllawiau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu ganllawiau'r llywodraeth. |
| Rhwydwaith Cudd-wybodaeth y Diwydiant Bwyd | Mae Rhwydwaith Cudd-wybodaeth y Diwydiant Bwyd yn gydweithrediad yn y DU rhwng y diwydiant a'r llywodraeth. Mae'n rhannu data a chudd-wybodaeth i helpu i ganfod ac atal twyll bwyd, gan gefnogi dilysrwydd a diogelwch bwyd ar draws y gadwyn gyflenwi. |
| Rhydd rhag | Mae datganiad 'rhydd rhag' yn dynodi neu'n ymwneud â chynhyrchion bwyd nad ydynt yn cynnwys cynhwysion y gwyddys eu bod yn achosi adwaith mewn pobl ag alergeddau neu anoddefiadau bwyd. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| *Salmonela* | Mae salmonelâu yn grŵp o facteria cyffredin sy'n achosi gwenwyn bwyd. Fel arfer, cânt eu lledaenu drwy goginio annigonol a thrwy groeshalogi.<br><br>Mae haint *Salmonela (salmonelosis)* yn glefyd bacteriol cyffredin sy'n effeithio ar y llwybr coluddol. Mae bacteria *Salmonela* fel arfer yn byw yng ngholuddion anifeiliaid a phobl ac yn cael eu gollwng trwy ysgarthion. Mae pobl yn cael eu heintio amlaf trwy ddŵr neu fwyd wedi'i halogi. |
| Samplu | Ystyr samplu yw cymryd cynnyrch i wirio ei fod yn cyrraedd y safon angenrheidiol. Gall hyn gynnwys bod yn ddiogel, bod o'r safon a ddymunir, neu fod â'r labelu cywir. Cymerir samplau i gefnogi gwaith gorfodi, fel rhan o wiriadau busnes, ac at ddibenion ymchwil a gwyliadwriaeth. |
| Sganio'r gorwel | Sganio'r gorwel yw'r broses o nodi arwyddion o newid, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a risgiau neu gyfleoedd posib i lywio gwaith cynllunio strategol, polisi, a phenderfyniadau rheoleiddio yn system fwyd y DU. |
| 'Smokies' | Bwyd sy'n cael ei baratoi trwy'r broses anghyfreithlon o ddefnyddio lamp llosgi i gael gwared ar gnu carcas dafad neu afr heb groen yw 'smokie'. |
| Staff Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl) | Metrig safonol ar gyfer mesur llwyth gwaith gweithwyr neu fyfyrwyr, gan hwyluso cymharu llwythi gwaith mewn lleoliadau amrywiol. |
| Tarfiadau | Dull o ymyriadau troseddau bwyd a roddwyd ar waith yn ddiweddar sy'n atal neu'n lleihau'r cyfle i gyflawni troseddau bwyd ac sydd, wrth wneud hynny, yn cynyddu diogeledd bwyd y DU drwy sicrhau bod bwyd yn ddiogel. |
| Wedi'i addasu'n enetig | Cynnyrch wedi'i gynhyrchu o organebau y mae eu genynnau wedi'u newid i gyflwyno nodweddion nad ydynt wedi'u creu trwy ddetholiad naturiol. |
| Ymadael â'r UE | Mae Ymadael â'r UE yn cyfeirio at ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, a gwblhawyd yn ffurfiol ar 31 Ionawr 2020, yn dilyn refferendwm cyhoeddus a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. |

# Atodiad 3: Tabl ffigurau

## Pennod 1: Plât y genedl


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 1: | Cymharu'r cynnydd canrannol cyfartalog mewn costau o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer categorïau'r Canllaw Bwyta'n Dda yn ystod 2022, 2023 a 2024 | tudalen 11 |
| Ffigur 2: | Pryderon a nodwyd ynghylch gallu fforddio bwyd yn yr Alban | tudalen 12 |
| Ffigur 3: | Canran yr ymatebwyr a nododd arferion sy'n gysylltiedig â bwyd yn ystod y mis diwethaf i leihau biliau ynni ac arbed arian yn 2024 yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon | tudalen 14 |
| Ffigur 4: | Cymharu ymatebwyr o wahanol grwpiau oedran a nododd arferion sy'n gysylltiedig â bwyd yn ystod y mis diwethaf rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Rhagfyr 2024 (Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr) | tudalen 15 |
| Ffigur 5: | Canran yr ymatebwyr a nododd arferion sy'n gysylltiedig â bwyd yn ystod y mis diwethaf i leihau biliau ynni ac arbed arian yn yr Alban rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Rhagfyr 2024 | tudalen 16 |
| Ffigur 6: | Lefelau diffyg diogeledd a adroddwyd bwyd mewn cartrefi yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (Gorffennaf 2020 i 2024) a'r Alban (Hydref 2023 i Ionawr 2024) | tudalen 18 |
| Ffigur 7: | Risg gymharol o fod â diffyg diogeledd bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon | tudalen 19 |
| Ffigur 8: | Y pum prif bryderon ar sail rhestr o opsiynau a nodwyd gan ddefnyddwyr yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr | tudalen 20 |
| Ffigur 9: | Y prif bryderon ar sail rhestr o opsiynau a nodwyd gan ddefnyddwyr yn yr Alban | tudalen 21 |
| Ffigur 10: | Canran yr ymatebwyr a nododd eu bod wedi gwneud newidiadau i arbed arian yn ystod y mis diwethaf yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr (2024) | tudalen 22 |
| Ffigur 11: | Canran yr ymatebwyr a nododd eu bod wedi gwneud newidiadau i arbed arian yn yr Alban (2023-24) | tudalen 23 |

## Pennod 2: Safbwynt byd-eang


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 12: | Cyfanswm y bwyd a'r bwyd anifeiliaid a fewnforiwyd i'r DU dros amser (2014-2024) | tudalen 28 |
| Ffigur 13: | Newid canrannol blynyddol yng nghyfanswm cyfeintiau mewnforio'r DU ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid (2015-2024) | tudalen 29 |
| Ffigur 14: | Y 10 gwlad â'r cyfeintiau mewnforio uchaf ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid yn 2024 | tudalen 30 |
| Ffigur 15: | Cyfanswm cyfaint y mewnforion wedi'i rannu yn ôl y prif gategorïau, sef POAO, FNAO a bwyd anifeiliaid | tudalen 31 |
| Ffigur 16: | Newidiadau i ddynodiad bwydydd risg uchel | tudalen 33 |


## Pennod 3: Pwysigrwydd hylendid


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 17: | Cyfrifoldebau am gynnal rheolaethau hylendid bwyd ledled y DU | tudalen 39 |
| Ffigur 18: | Canran y busnesau bwyd yn y DU sydd â sgôr o '3 — Boddhaol ar y cyfan' neu well (CSHB) neu ddyfarniad 'Pasio' (FHIS) ym mis Rhagfyr 2024 | tudalen 41 |
| Ffigur 19: | Dosbarthiad canrannol y sgoriau CSHB diweddaraf ym mis Rhagfyr 2024 | tudalen 41 |
| Ffigur 20: | Canran y busnesau bwyd a arolygwyd yn yr Alban a oedd yn cydymffurfio â'r FLRS yn 2023 a 2024 | tudalen 42 |
| Ffigur 21: | Canran y sefydliadau cig a gafodd sgôr dda neu foddhaol ar y cyfan | tudalen 43 |
| Ffigur 22: | Dadansoddiad o sgoriau cydymffurfio o ran hylendid ar gyfer sefydliadau cig cymeradwy ym mis Rhagfyr 2024 | tudalen 44 |
| Ffigur 23: | Canran y sefydliadau llaeth a gyflawnodd y canlyniadau uchaf, sef da neu foddhaol ar y cyfan, yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon | tudalen 45 |
| Ffigur 24: | Dadansoddiad o sgoriau cydymffurfio â hylendid ar gyfer sefydliadau llaeth o ddata arolygu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon | tudalen 46 |
| Ffigur 25: | Arolygiadau llaeth a chamau gorfodi yn yr Alban ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/23–2023/24 | tudalen 46 |
| Ffigur 26: | Canran y sefydliadau bwyd anifeiliaid yr aseswyd eu bod yn cydymffurfio â safonau hylendid | tudalen 48 |

## Pennod 3: Pwysigrwydd hylendid


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 27: | Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) ym maes hylendid bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon | tudalen 50 |
| Ffigur 28: | Canran y swyddi (CALl) heb eu llenwi ym maes hylendid bwyd mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon | tudalen 50 |
| Ffigur 29: | Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) ym maes safonau bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon | tudalen 51 |
| Ffigur 30: | Canran y swyddi (CALl) ym maes safonau bwyd heb eu llenwi mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon | tudalen 52 |
| Ffigur 31: | Nifer y swyddi swyddogion cyfraith bwyd cyfwerth ag amser llawn a oedd wedi'u dyrannu yn yr Alban 2016–2024 | tudalen 53 |
| Ffigur 32: | Nifer y busnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a gafodd sgôr hylendid bwyd, fesul chwarter, rhwng 2019/20 a 2024/25 | tudalen 56 |
| Ffigur 33: | Nifer yr asesiadau FHIS a gynhaliwyd mewn busnesau bwyd yn yr Alban, fesul chwarter, rhwng 2019/20 a 2024/2025 | tudalen 57 |
| Ffigur 34: | Cyfradd lwyddo ar gyfer System Profi Iaith Saesneg Rhyngwladol (IELTS), Lefel 7 | tudalen 59 |


## Pennod 4: Diogelwch a dilysrwydd


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 35: | Nifer y digwyddiadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a nodwyd yn y DU rhwng 2020 a 2024 | tudalen 64 |
| Ffigur 36: | Y pum prif gategori bwyd sydd wedi'u cynnwys mewn digwyddiadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a nodwyd rhwng 2020 a 2024 | tudalen 65 |
| Ffigur 37: | Nifer y digwyddiadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n ymwneud â halogiad gan ficro-organebau niweidiol yn y DU rhwng 2020 a 2024 | tudalen 66 |

## Pennod 4: Diogelwch a dilysrwydd


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 38: | Nifer y digwyddiadau bwyd sy'n ymwneud ag alergenau ledled y DU rhwng 2020 a 2024 | tudalen 67 |
| Ffigur 39: | Cyfanswm y rhybuddion alergedd a gyhoeddwyd gan yr ASB ac FSS rhwng 2020 a 2024 | tudalen 68 |
| Ffigur 40: | Nifer y rhybuddion alergedd yn ôl y math o alergen rhwng 2020 a 2024 | tudalen 69 |
| Ffigur 41: | Cyfanswm y PRINs a gyhoeddwyd yn y DU rhwng 2020 a 2024 | tudalen 70 |
| Ffigur 42: | Cyfanswm y FAFAs a gyhoeddwyd yn y DU rhwng 2020 a 2024 | tudalen 70 |
| Ffigur 43: | Prif ganlyniadau rhaglen samplu bwyd genedlaethol yr FSS ar gyfer 2023/24 | tudalen 77 |
| Ffigur 44: | Nifer y samplau a gofnodwyd gan awdurdodau lleol yn y DU dros amser | tudalen 79 |
| Ffigur 45: | Nifer y samplau a gofnodwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban dros amser | tudalen 80 |
| Ffigur 46: | Y meysydd ffocws allweddol ar gyfer ymchwiliadau i droseddau bwyd yn 2024 | tudalen 82 |
| Ffigur 47: | Y prif feysydd ffocws ar gyfer gwaith tarfu a gyflawnwyd gan unedau troseddau bwyd yn 2024 | tudalen 83 |


## Atodiad 5: Data cenedl-benodol


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 48: | Y prif bryderon ar sail rhestr o opsiynau a nodwyd gan ddefnyddwyr yn Lloegr | tudalen 113 |
| Ffigur 49: | Y prif bryderon ar sail rhestr o opsiynau a nodwyd gan ddefnyddwyr yng Nghymru | tudalen 114 |
| Ffigur 50: | Y prif bryderon ar sail rhestr o opsiynau a nodwyd gan ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon | tudalen 115 |
| Ffigur 51: | Nifer y busnesau bwyd yn Lloegr a gafodd sgôr hylendid bwyd fesul chwarter rhwng 2019/20 a 2024/25 | tudalen 116 |
| Ffigur 52: | Nifer y busnesau bwyd yng Nghymru a gafodd sgôr hylendid bwyd fesul chwarter rhwng 2019/20 a 2024/25 | tudalen 117 |

# Atodiad 5: Data cenedl-benodol


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 53: | Nifer y busnesau bwyd yng Ngogledd Iwerddon a gafodd sgôr hylendid bwyd fesul chwarter rhwng 2019/20 a 2024/25 | tudalen 118 |
| Ffigur 54: | Nifer y swyddi CALI ym maes hylendid bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yn Lloegr | tudalen 119 |
| Ffigur 55: | Nifer y swyddi CALI ym maes hylendid bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yng Nghymru | tudalen 120 |
| Ffigur 56: | Nifer y swyddi CALI ym maes hylendid bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon | tudalen 121 |
| Ffigur 57: | Nifer y swyddi CALI ym maes safonau bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yn Lloegr | tudalen 122 |
| Ffigur 58: | Nifer y swyddi CALI ym maes safonau bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yng Nghymru | tudalen 123 |
| Ffigur 59: | Nifer y swyddi CALI ym maes safonau bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon | tudalen 124 |
| Ffigur 60: | Nifer y busnesau bwyd fesul swydd CALI ym maes hylendid bwyd yn Lloegr | tudalen 125 |
| Ffigur 61: | Nifer y busnesau bwyd fesul swydd CALI ym maes hylendid bwyd yng Nghymru | tudalen 126 |
| Ffigur 62: | Nifer y busnesau bwyd fesul swydd CALI ym maes hylendid bwyd yng Ngogledd Iwerddon | tudalen 127 |

# Atodiad 4: Rhestr o acronymau

| Acronym | Ffurf lawn |
|---|---|
| ALl | Awdurdod lleol |
| ASB | Asiantaeth Safonau Bwyd |
| BSE | Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (Bovine Spongiform Encephalopathy) |
| BTOM | Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau |
| CALl | Cyfwerth ag Amser Llawn |
| CBD | Canabidiol |
| COVID-19 | Clefyd coronafeirws 2019 |
| CPIH | Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr |
| CPTPP | Cytundeb Masnach Rydd Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel |
| CSHB | Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd |
| CTHEF | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi |
| DAERA | Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig |
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| DISH | Cymeriant Deietegol Plant yn yr Alban (Dietary Intake in Scotland's Children) |
| DNA | Asid deocsiriboniwcleig |
| DNP | 2,4 Dinitroffenol |
| EAEVE | Cymdeithas Ewropeaidd y Sefydliadau ar gyfer Addysg Filfeddygol |
| EHO | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd |
| ETIP | Partneriaeth Masnach a Buddsoddi Gwell |
| FAFA | Rhybudd Bwyd er Gweithredu |
| FHIS | Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd (ar waith yn yr Alban yn unig) |
| FLRS | Cynllun Sgorio Cyfraith Bwyd |
| FNAO | Bwyd Nad yw'n Dod Anifeiliad |
| FSS | Safonau Bwyd yr Alban |

| Acronym | Ffurf lawn |
|---|---|
| FTA | Cytundeb Masnach Rydd |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| HIN | Hysbysiad Gwella Hylendid |
| HRFNAO | Bwyd Risg Uchel Nad yw'n Dod o Anifeiliaid |
| IELTS | System Ryngwladol Profi Iaith Saesneg |
| IPA | Isopropanol (alcohol isopropyl) |
| LAEMS | System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol |
| MHI | Arolygwr Hylendid Cig |
| NFCU | Yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd |
| OA | Cynorthwyydd Swyddogol |
| OV | Milfeddyg Swyddogol |
| PATH-SAFE | Rhaglen Cadw Gwyliadwriaeth ar Bathogenau mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Amgylchedd |
| POAO | Cynnyrch sy'n dod o Anifeiliaid |
| PRIN | Hysbysiad Galw Cynnyrch yn Ôl |
| RCVS | Coleg Brenhinol y Milfeddygon |
| RNI | Cymeriant Maetholion Cyfeirio |
| RRC | Cyfrifiad Adnoddau Angenrheidiol |
| SAFER | Rhaglen Ailadeiladu Gorfodi Bwyd Awdurdodau'r Alban |
| SFCIU | Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban |
| SIMD | Mynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban |
| SND | Cronfa Ddata Genedlaethol yr Alban |
| SoCOEHS | Cymdeithas Prif Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yr Alban |
| STEC | *E. coli* sy'n cynhyrchu shigatocsin |
| SYG | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |

| Acronym | Ffurf lawn |
|---|---|
| TRNOVs | Milfeddygon swyddogol sydd wedi’u cofrestru dros dro |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| USDA | Adran Amaethyddiaeth yr Unol Daleithiau |
| UV | Uwchfioled (golau) |
| VITAL | Labelu Gwirfoddol ar Weddillion Alergenau Damweiniol |

# Atodiad 5: Data cenedl-benodol

### Ffigur 48: Y prif bryderon ar sail rhestr o opsiynau a nodwyd gan ddefnyddwyr yn Lloegr

| Safle | Prif bryderon a chanran yr ymatebwyr, Gorffennaf 2023 | Prif bryderon a chanran yr ymatebwyr, Ionawr 2024 | Prif bryderon a chanran yr ymatebwyr, Gorffennaf 2024 |
|---|---|---|---|
| 1 | Prisiau bwyd (73%) | Prisiau bwyd (69%) | Prisiau bwyd (70%) |
| 2 | Gwastraff bwyd (58%) | Ansawdd bwyd (65%) | Gwastraff bwyd (59%) |
| 3 | Ansawdd bwyd (56%)<br>Faint o ddeunydd pecynnu a ddefnyddir (56%)<br>Faint o siwgr sydd mewn bwyd (56%) | Gwastraff bwyd (64%) | Ansawdd bwyd (58%) |
| 4 | Gallu bwyta'n iachus (50%) | Faint o siwgr sydd mewn bwyd (58%) | Faint o siwgr sydd mewn bwyd (57%) |
| 5 | Lles anifeiliaid (48%)<br>Hylendid bwyd wrth archebu prydau tecawê (48%)<br>Hylendid bwyd wrth fwyta allan (48%) | Faint o ddeunydd pecynnu a ddefnyddir (56%) | Faint o ddeunydd pecynnu a ddefnyddir (55%) |

Ffynhonnell: Arolwg Bwyd a Chi 2 yr ASB, Lloegr, Cylch 7 (yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023), Cylch 8 (Hydref 2023 ac Ionawr 2024) a Chylch 9 (Ebrill a Gorffennaf 2024)

### Ffigur 49: Y prif bryderon ar sail rhestr o opsiynau a nodwyd gan ddefnyddwyr yng Nghymru

| Safle | Prif bryderon a chanran yr ymatebwyr, Gorffennaf 2023 | Prif bryderon a chanran yr ymatebwyr, Ionawr 2024 | Prif bryderon a chanran yr ymatebwyr, Gorffennaf 2024 |
|---|---|---|---|
| 1 | Prisiau bwyd (73%) | Prisiau bwyd (68%) | Prisiau bwyd (68%) |
| 2 | Gwastraff bwyd (61%) | Ansawdd bwyd (61%) | Faint o ddeunydd pecynnu a ddefnyddir (58%) |
| 3 | Ansawdd bwyd (59%) | Gwastraff bwyd (60%) | Ansawdd bwyd (57%) |
| 4 | Faint o ddeunydd pecynnu a ddefnyddir (57%) | Faint o ddeunydd pecynnu a ddefnyddir (57%) | Gwastraff bwyd (55%) |
| 5 | Lles anifeiliaid (56%)<br>Faint o siwgr sydd mewn bwyd (56%) | Faint o siwgr sydd mewn bwyd (56%) | Hylendid bwyd wrth fwyta allan (54%)<br>Faint o siwgr sydd mewn bwyd (54%) |


Ffynhonnell: Arolwg Bwyd a Chi 2 yr ASB, Cymru, Cylch 7 (yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023), Cylch 8 (Hydref 2023 ac Ionawr 2024) a Chylch 9 (Ebrill a Gorffennaf 2024)

### Ffigur 50: Y prif bryderon ar sail rhestr o opsiynau a nodwyd gan ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon

| Safle | Prif bryderon a chanran yr ymatebwyr, Gorffennaf 2023 | Prif bryderon a chanran yr ymatebwyr, Ionawr 2024 | Prif bryderon a chanran yr ymatebwyr, Gorffennaf 2024 |
|---|---|---|---|
| 1 | Prisiau bwyd (67%) | Prisiau bwyd (67%) | Prisiau bwyd (68%) |
| 2 | Gwastraff bwyd (56%) | Ansawdd bwyd (64%) | Ansawdd bwyd (56%) |
| 3 | Ansawdd bwyd (52%)<br>Faint o ddeunydd pecynnu a ddefnyddir (52%) | Gwastraff bwyd (55%)<br>Faint o siwgr sydd mewn bwyd (55%) | Faint o siwgr sydd mewn bwyd (54%) |
| 4 | Faint o siwgr sydd mewn bwyd (51%) | Gwenwyn bwyd (er enghraifft Salmonela ac E.Coli) | Gwastraff bwyd (51%)<br>Hylendid bwyd wrth fwyta allan (51%) |
| 5 | Faint o ddeunydd pecynnu a ddefnyddir (50%) | Faint o halen sydd mewn bwyd (49%) | Hylendid bwyd wrth archebu prydau tecawê (49%) |

Ffynhonnell: Arolwg Bwyd a Chi 2 yr ASB, Gogledd Iwerddon, Cylch 7 (yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023), Cylch 8 (Hydref 2023 ac Ionawr 2024) a Chylch 9 (Ebrill a Gorffennaf 2024)


## Ffigur 51: Nifer y busnesau bwyd yn Lloegr a gafodd sgôr hylendid bwyd fesul chwarter rhwng 2019/20 a 2024/25




Nodiadau: Ch1 — Ebrill, Mai, Mehefin; Ch2 — Gorffennaf, Awst, Medi; Ch3 — Hydref, Tachwedd, Rhagfyr; C4 — Ionawr, Chwefror, Mawrth.

Ffynhonnell: ASB — data CSHB


**Ffigur 52: Nifer y busnesau bwyd yng Nghymru a gafodd sgôr hylendid bwyd fesul chwarter rhwng 2019/20 a 2024/25**




Sylwer: Ch1 — Ebrill, Mai, Mehefin; Ch2 — Gorffennaf, Awst, Medi; Ch3 — Hydref, Tachwedd, Rhagfyr; C4 — Ionawr, Chwefror, Mawrth.

Ffynhonnell: ASB — data CSHB


**Ffigur 53: Nifer y busnesau bwyd yng Ngogledd Iwerddon a gafodd sgôr hylendid bwyd fesul chwarter rhwng 2019/20 a 2024/25**




Sylwer: Ch1 — Ebrill, Mai, Mehefin; Ch2 — Gorffennaf, Awst, Medi; Ch3 — Hydref, Tachwedd, Rhagfyr; C4 — Ionawr, Chwefror, Mawrth.

Ffynhonnell: ASB — data CSHB


**Ffigur 54: Nifer y swyddi CALI ym maes hylendid bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yn Lloegr**




Sylwer: Mae seren (*) yn dynodi ffurflen hanner blwyddyn.

ASB — LAEMS/data CALI hunangofnodedig awdurdodau lleol (LAEMS hyd at 31 Mawrth 2020)


**Ffigur 55: Nifer y swyddi CALI ym maes hylendid bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yng Nghymru**




Sylwer: Mae seren (*) yn dynodi ffurflen hanner blwyddyn.

Ffynhonnell: ASB — LAEMS/data CALI hunangofnodedig awdurdodau lleol (LAEMS hyd at 31 Mawrth 2020)


## Ffigur 56: Nifer y swyddi CALI ym maes hylendid bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon




Sylwer: Mae seren (*) yn dynodi ffurflen hanner blwyddyn.

Ffynhonnell: ASB — LAEMS/data CALI hunangofnodedig awdurdodau lleol (LAEMS hyd at 31 Mawrth 2020)


**Ffigur 57: Nifer y swyddi CALI ym maes safonau bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yn Lloegr**




Sylwer: Mae seren (*) yn dynodi ffurflen hanner blwyddyn.

Ffynhonnell: ASB — LAEMS/data CALI hunangofnodedig awdurdodau lleol (LAEMS hyd at 31 Mawrth 2020)


**Ffigur 58: Nifer y swyddi CALI ym maes safonau bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yng Nghymru**




Sylwer: Mae seren (*) yn dynodi ffurflen hanner blwyddyn.

Ffynhonnell: ASB — LAEMS/data CALI hunangofnodedig awdurdodau lleol (LAEMS hyd at 31 Mawrth 2020)


**Ffigur 59: Nifer y swyddi CALI ym maes safonau bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon**




Sylwer: Mae seren (*) yn dynodi ffurflen hanner blwyddyn.

Ffynhonnell: ASB — LAEMS/data CALI hunangofnodedig awdurdodau lleol (LAEMS hyd at 31 Mawrth 2020)


**Ffigur 60: Nifer y busnesau bwyd fesul swydd CALI ym maes hylendid bwyd yn Lloegr**




Sylwer: Mae seren (*) yn dynodi ffurflen hanner blwyddyn.

Ffynhonnell: ASB — LAEMS/data CALI hunangofnodedig awdurdodau lleol (LAEMS hyd at 31 Mawrth 2020)


**Ffigur 61: Nifer y busnesau bwyd fesul swydd CALI ym maes hylendid bwyd yng Nghymru**




Sylwer: Mae seren (*) yn dynodi ffurflen hanner blwyddyn.

Ffynhonnell: ASB — LAEMS/data CALI hunangofnodedig awdurdodau lleol (LAEMS hyd at 31 Mawrth 2020)

**Ffigur 62: Nifer y busnesau bwyd fesul swydd CALI ym maes hylendid bwyd yng Ngogledd Iwerddon**




Sylwer: Mae seren (*) yn dynodi ffurflen hanner blwyddyn.

Ffynhonnell: ASB — LAEMS/data CALI hunangofnodedig awdurdodau lleol (LAEMS hyd at 31 Mawrth 2020)

# Diolchiadau

Hoffem ddiolch i ddadansoddwyr arweiniol yr adroddiad — Dominique Alexander, Thomas Hulme a Camila Menegon — ac i'r unigolion niferus o fewn yr ASB ac FSS y mae eu cyfraniadau wedi bod yn allweddol wrth lunio'r adroddiad hwn.

Rydym yn arbennig o ddiolchgar am y gwaith craffu annibynnol a'r arbenigedd a ddarparwyd gan ein hadolygwyr allanol, y mae eu mewnwelediadau wedi gwella ansawdd a chywirdeb yr adroddiad hwn yn sylweddol:

- Yr Athro Louise Manning, Athro Systemau Bwyd-Amaeth Cynaliadwy, Prifysgol Lincoln
- Yr Athro Lynn Frewer, Athro Bwyd a Chymdeithas, Prifysgol Newcastle
- Yr Athro Katrina Campbell, Athro Diogeledd Bwyd a Diagnosteg, Prifysgol Queen's, Belfast
- Alex Kyriakides, Ymgynghorydd diogelwch bwyd annibynnol

**Tîm cynhyrchu'r adroddiad:** Swati Singh, Claire Manley, Natasha James, Emily Lawson, Jennifer Shaw, Kate Smith, Neil Douglas, Ruth Clarkson a Neil Coffey.

E03381398
ISBN:978-1-5286-5801-0